

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
54/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:
26/08/2021

Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru

Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru

Adroddiad ymchwil

Awduron: Simon Hoffman, Sarah Nason, Rosie Beacock, Ele Hicks (gyda chyfraniad gan Rhian Croke)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Hoffman, S.; Nason, S.; Beacock, R.; Hicks, E. (gyda chyfraniad gan Croke, R.) (2021). *Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR Rhif 54/2021
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/cryfhau-hyrwyddo-cydraddoldeb-hawliau-dynol-yng-nghymru>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Steven Macey

Yr Is-Adran Gymunedau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr o Dablau.....	3
Geirfa.....	3
1. Cyflwyniad.....	6
2. Cysyniadau: Cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant	7
<i>Cydraddoldeb.....</i>	<i>7</i>
<i>Hawliau Dynol</i>	<i>7</i>
<i>Llesiant.....</i>	<i>9</i>
<i>Creu cysylltiadau: Cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant.....</i>	<i>9</i>
3. Methodoleg	11
<i>Nod ymchwil.....</i>	<i>11</i>
<i>Amcanion ymchwil.....</i>	<i>11</i>
<i>Adolygiad llenyddiaeth</i>	<i>12</i>
<i>Tystiolaeth gan randdeiliaid proffesiynol</i>	<i>13</i>
<i>Cyfarfodydd fforwm</i>	<i>14</i>
<i>Tystiolaeth gan blant a phobl ifanc.....</i>	<i>14</i>
<i>Tystiolaeth gan bobl â phrofiad bywyd</i>	<i>14</i>
<i>Nodyn ar amseriad yr ymchwil</i>	<i>15</i>
<i>Sut fyddwn ni'n cyflwyno ein casgliadau</i>	<i>15</i>
<i>Nodyn ar argymhellion</i>	<i>16</i>
4. Casgliadau: Deddfwriaeth.....	17
<i>Cyd-destun.....</i>	<i>17</i>
<i>Tystiolaeth gan randdeiliaid: Deddfwriaeth.....</i>	<i>20</i>
<i>Synthesis: Deddfwriaeth.....</i>	<i>28</i>
5. Casgliadau: Ymgorfforiad hawliau dynol	29
<i>Cyd-destun.....</i>	<i>29</i>
<i>Tystiolaeth gan randdeiliaid: Ymgorfforiad hawliau dynol.....</i>	<i>31</i>
<i>Synthesis: Ymgorfforiad hawliau dynol.....</i>	<i>36</i>
6. Casgliadau: Y bwlch cyflawni.....	38
<i>Cyd-destun.....</i>	<i>38</i>
<i>Tystiolaeth gan randdeiliaid: Y bwlch cyflawni</i>	<i>38</i>
<i>Prif ffrydio.....</i>	<i>44</i>
<i>Cynnwys pobl.....</i>	<i>46</i>

<i>Canllaw ar gydraddoldeb</i>	47
<i>Canllaw ar hawliau dynol</i>	49
<i>Canllaw ar lesiant</i>	51
<i>Dogfennau cyflawni, cynlluniau ac ati</i>	51
<i>Synthesis: Y bwlch cyflawni</i>	54
7. Casgliadau: Asesiad effaith	55
<i>Cyd-destun</i>	55
<i>Tystiolaeth gan randdeiliaid: Asesiad effaith</i>	59
<i>Synthesis: Asesiad effaith</i>	64
8. Casgliadau: Monitro	65
<i>Cyd-destun</i>	65
<i>Tystiolaeth gan randdeiliaid: Monitro</i>	68
<i>Synthesis: Monitro</i>	73
9. Casgliadau: Atebolrwydd a gorfodi	74
<i>Cyd-destun</i>	74
<i>Tystiolaeth gan randdeiliaid: Atebolrwydd a gorfodi</i>	83
<i>Synthesis: Atebolrwydd a gorfodi</i>	99
10. Casgliadau: Codi ymwybyddiaeth	100
<i>Cyd-destun</i>	100
<i>Tystiolaeth gan randdeiliaid: Codi ymwybyddiaeth</i>	103
<i>Synthesis: Codi ymwybyddiaeth</i>	109
11. Casgliadau: Covid-19	110
<i>Cyd-destun</i>	110
<i>Tystiolaeth gan randdeiliaid: Covid-19</i>	111
<i>Synthesis: Covid-19</i>	117
12. Casgliadau	119
13. Argymhellion	128
<i>Tabl 1: Argymhellion, a sut maent yn cysylltu ag adrannau yn yr adroddiad hwn</i> ..	129
<i>Tabl 2: Argymhellion, a tuag at bwy maent wedi eu hanelu</i>	130
Llyfryddiaeth	149
Atodiadau	166
<i>Atodiad 1 - Holiadur yr arolwg</i>	166
<i>Atodiad 2 - Cwestiynau'r cyfweiliad / gweithdy</i>	167
<i>Atodiad 3 - Rhestr o'r rhai a gyfwelwyd (yn ôl sefydliad)</i>	168

Rhestr o Dablau

Tabl 1: Argymhellion, a sut maent yn cysylltu ag adrannau yn yr adroddiad hwn

Tabl 2: Argymhellion, a tuag at bwy maent wedi eu hanelu

Geirfa

AJTC	Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd
BAME	Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol
CAJTW	Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd, Cymru
CPC	Comisiynydd Plant Cymru
CEDAW	Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod
CERD	Confensiwn ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu Hiliol
CESCR	Pwyllgor ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol
CoJ	Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru
CRC	Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn
CRIA	Asesiad Effaith ar Hawliau'r Plentyn
CRPD	Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau (defnyddiwn yr acronym CRDP i gydnabod bod y confensiwn hwn nawr yn cael ei alw yn Gonfensiwn ar Hawliau Pobl Anabl)
CRDP	Gweler uchod
CYPEC	Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
DIHR	Sefydliad Hawliau Dynol Denmarc
ECHR	Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
EHRC	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
EHRE	Y Gyfnewidfa Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
EIA	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
EYST	Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
FGC	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
GER	Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol
GER/WG	Gweithgor Llesiant a Chydraddoldeb GER
HRC	Pwyllgor Hawliau Dynol
HRIA	Asesiad Effaith ar Hawliau Dynol

ICCPR	Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol
ICESCR	Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol
IIA	Asesiad Effaith Integredig
LGBTQ+	Pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol, trawsryweddol a cwiar a hunaniaethau eraill
MoJ	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
MS	Aelod o'r Senedd
NAN	Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol
CCC	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
n.d.	Heb ddyddiad
NHRI	Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol
OHCHR	Swyddfa'r Uwch Gomisiynydd dros Hawliau Dynol
OECD	Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
OPC	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
PLP	Public Law Project
PSB	Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
PSED	Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
PSOW	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
RAN	Rhwydweithiau Cynghori Rhanbarthol
RPB	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
SHRC	Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban
UN	Y Cenhedloedd Unedig
UNCRC	Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
UNGA	Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig
UNSDG	Grŵp Datblygiad Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig
DU	Y Deyrnas Unedig
UKAJI	Sefydliad Cyfiawnder Gweinyddol y Deyrnas Unedig
WSED	Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru

Deddfwriaeth y Deyrnas Unedig/Cymru

ALNA 2018	Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
EA 2006	Deddf Cydraddoldeb 2006

EA 2010	Deddf Cydraddoldeb 2010
GoWA 2006	Deddf Llywodraeth Cymru 2006
HRA 1998	Deddf Hawliau Dynol 1998
LASPO 2012	Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012
RCYPM 2011	Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
SSWA 2014	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
VAWDASVA 2015	Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
WFGA 2015	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1. Cyflwyniad

1.1. Ym mis Tachwedd 2018 nododd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ar y pryd (Julie James AS) y byddai Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i archwilio sut i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Daeth gweithdy gyda rhanddeiliaid ym mis Chwefror 2019 i'r casgliad bod angen dull Cymreig unigryw i ddarparu cymdeithas gyfiawn a chyfartal, lle gall pobl arfer eu hawliau. Nododd y gweithdy hwn yr angen i ddeall yn well sut mae fframweithiau statudol presennol Cymru yn amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol, ac i ymchwil archwilio opsiynau i gryfhau arweiniad, gwella monitro, a darparu ar gyfer gorfodi ystyrllon. Ym mis Ionawr 2020 comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil i archwilio opsiynau i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

1.2. Ers cychwyn datganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd agwedd tuag at gydraddoldeb a hawliau dynol sy'n wahanol i un Llywodraeth y DU. Yn ogystal â thirwedd ddeddfwriaethol a pholisi unigryw Cymru, mae'r ymchwil wedi'i osod yng nghyd-destun nifer o ddatblygiadau sydd â'r potensial i effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Yn benodol:

- Dechreuodd Llywodraeth Cymru'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol o dan Ran 1, adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (EA 2010) ar 31 Mawrth 2021. Mae hyn yn berthnasol i benderfyniadau strategol gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol.
- Yn 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol (GER) i archwilio sut y gallai Gweinidogion Cymru sicrhau cydraddoldeb rhywiol (Chwarae Teg 2018 a 2019). Mae argymhellion y GER wedi cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru.
- Fel rhan o'r GER, yn 2019 gwnaeth Gweithgor Llesiant a Chydraddoldeb (GER/WG) argymhellion i gryfhau'r fframwaith rheoleiddio ar gydraddoldeb yng Nghymru (Parker 2019).
- Yn 2018, argymhellodd adroddiad 'Ai yw Cymru'n Decach?' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) y dylid adolygu'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru (WSEDs) i fynd i'r afael â'r heriau allweddol ar gyfer cydraddoldeb yng Nghymru (EHRC 2018a).

- O'r 31^{ain} Ionawr 2020, roedd y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae gan hyn y potensial i leihau amddiffyniad cydraddoldeb a hawliau dynol a ddarperir gan gyfraith yr UE.
- Mae Llywodraeth y DU yn adolygu Deddf Hawliau Dynol 1998 (HRA 1998) a allai arwain at wanhau amddiffyniadau hawliau dynol yn y DU a Chymru.
- Mae'r pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw at nifer o wendidau mewn cydraddoldeb ac amddiffyniadau hawliau dynol.

2. Cysyniadau: Cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant

2.1. Mae cydraddoldeb a hawliau dynol, ond hefyd llesiant, yn gonglfeini allweddol ar gyfer polisi cyhoeddus yng Nghymru. Er bod cysylltiadau, nid yw'r cysyniadau hyn yr un peth. Mae'r adran hon yn cyflwyno pob cysyniad yn gryno, a rhai o'r cysylltiadau rhyngddynt.

Cydraddoldeb

2.2. Mae cyfle cyfartal yn cychwyn o'r rhagosodiad y dylai llywodraethau weithredu i 'greu un maes gwastad' fel bod gan bawb fynediad cyfartal i nwyddau, gwasanaethau, buddion ac ati. Mae dull ecwiti yn cydnabod bod anghydraddoldebau presennol yn atal rhai pobl rhag cael mynediad at adnoddau neu gyfleoedd, ac yn rhoi mynediad i adnoddau ac ati i grwpiau ac unigolion sy'n rhannu rhai nodweddion trwy weithredu cadarnhaol (Parken 2018, 2019). Mae gweithredu cadarnhaol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi ystyriaeth haeddiannol i sut y gallant arfer eu swyddogaethau i hybu a hyrwyddo cyfle cyfartal fel amcan craidd (ibid; Adroddiad Hepple 1990; O'Cinneide 2005).

Hawliau Dynol

2.3. Mae hawliau dynol yn hawliau a warrantir i bawb yn y DU, gan gynnwys o dan gytuniadau hawliau dynol 'craidd' y Cenhedloedd Unedig (UN) yn ogystal â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Mae cytuniadau craidd y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys:

- Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (ICCPR).

- Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR).
- Confensiwn ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu Hiliol (CERD).
- Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW).
- Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (CRC).
- Confensiwn ar Hawliau Pobl ag: defnyddiwn yr acronym CRDP i gydnabod bod y confensiwn hwn nawr yn cael ei alw yn 'Gonfensiwn ar Hawliau Pobl Anabl'.

2.4. Mae'r cytuniadau hyn yn darparu ystod o hawliau dynol i unigolion a grwpiau, gan gynnwys hawliau i adnoddau a gwasanaethau, a ddylai fod ar gael heb wahaniaethu. Cydnabyddir y gallai rhai grwpiau fod yn destun mathau penodol o wahaniaethu a gwneir amddiffyniad arbennig i'w hawliau dynol, er enghraifft, CEDAW, CERD, y CRC, a'r CRDP.

2.5. Disgrifiwyd hawliau dynol fel 'ymrwymiad difrifol' a 'blaenoriaeth gyntaf' pob llywodraeth (Datganiad Fienna a Rhaglen Weithredu 1993). Mae'n ofynnol i lywodraethau (ar bob lefel) gyflawni rhwymedigaethau hawliau dynol 'yn ddiwyll' (Erthygl 26, Confensiwn Fienna ar Gyfraith Cytuniadau 1969), a pharchu, amddiffyn a chyflawni hawliau.

- I **barchu hawliau** ni ddylai llywodraeth darfu ar hawliau dynol.
- I **ddiogelu hawliau** dylai llywodraeth ddiogelu unigolion rhag tarfu ar eu hawliau gan drydydd partion, yn cynnwys busnesau neu gorfforaethau.
- I **gyflawni hawliau** dylai llywodraeth sicrhau adnoddau, gwasanaethau ac ati fel bod unigolion yn gallu manteisio ar eu hawliau.

2.6. Mae hawliau dynol yn gyfle i gyflwyno safonau i bolisi cyhoeddus i fframio gweithredu gan awdurdodau cyhoeddus. Mae canllawiau manwl ar sut y dylid rhoi hawliau dynol ar waith ar gael gan Gyrrff Cytuniad y Cenhedloedd Unedig fel 'Sylwadau Cyffredinol' neu 'Argymhellion Cyffredinol', yn ogystal ag argymhellion yn y wlad y cyfeirir atynt fel 'Sylwadau Terfynol'. Mae'r canllaw hwn yn gyfeirnod defnyddiol ar gyfer polisi cyhoeddus a gellir ei gyrchu trwy wefan Swyddfa'r Uchel

Gomisiynydd Hawliau Dynol (OHCHR):

<https://www.ohchr.org/EN/HRBodies/Pages/HumanRightsBodies.aspx>

2.7. Mae hawliau economaidd-gymdeithasol a nodir yn yr ICESCR, ac a gynhwysir mewn cytuniadau eraill fel y CRC, CRDP a CEDAW yn arwyddocaol gan eu bod yn cyd-fynd â chymwyseddau datganoledig, er enghraifft, ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, neu dai. Mae hawliau dynol yn y meysydd hyn yn ffordd o amddiffyn rhag anfantais economaidd-gymdeithasol ac maent yn berthnasol i weithredu polisi cymdeithasol a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru.

Llesiant

2.8. Gellir delio â llesiant mewn ffyrdd gwahanol. Ar lefel unigol, cymdeithasol a chymunedol gellir ei ddeall fel 'sut mae pobl yn teimlo a sut maen nhw'n gweithredu, ar lefel bersonol a chymdeithasol, a sut maen nhw'n gwerthuso eu bywydau yn eu cyfanrwydd' (New Economics Foundation 2012: 6). Mae llesiant fel sail polisi cyhoeddus yn rhoi cyfle i bolisi sy'n canolbwyntio ar bobl (OECD 2013; Helliwell *et al* (gol) 2016). Fodd bynnag, gall llesiant hefyd ganolbwyntio ar yr 'hunan', ac fe'i beirniadwyd fel un sydd â'r potensial i dynnu sylw oddi wrth y rhwymedigaeth ar lywodraeth i wneud darpariaeth ar gyfer llesiant cyffredinol (Ehrenrich 2009; White 2017).

Creu cysylltiadau: Cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant

2.9. Mae peidio â gwahaniaethu yn egwyddor hawliau dynol rhyngwladol (er enghraifft, Erthygl 2, ICCPR ac Erthygl 2, ICESCR). Mae'r cysylltiad rhwng (an)cydraddoldeb a hawliau dynol wedi'i hen sefydlu gan fod 'anghydraddoldeb yn achos ac yn ganlyniad methiannau mewn amddiffyn hawliau dynol' (JustFair 2018: 8). Mae cytuniadau hawliau dynol yn cydnabod gwahaniaethu ac anfantais a brofir gan wahanol grwpiau cymdeithasol, er enghraifft, menywod (CEDAW), pobl anabl (CRDP), a grwpiau sydd dan anfantais oherwydd gwahaniaethu ar sail hil (CERD), ac mae nifer o erthyglau mewn amryw gytuniadau yn cyfeirio at gydraddoldeb. Er gwaethaf y cysylltiadau hyn, mae cydraddoldeb a hawliau dynol yn aml yn cael eu trin fel agweddau arwahanol ar bolisi cyhoeddus, gyda sylw cyfyngedig yn cael ei roi i sut y gellir eu hintegreiddio (JustFair 2018).

2.10. Mae penderfyniad y Cenhedloedd Unedig, 'Trawsnewid ein byd: Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy' (UNGA 2015) yn datgan gweledigaeth o fyd lle:

‘sicrheir llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol’ ac o ‘barch cyffredinol at hawliau dynol... cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu; parch at hil, ethnigrwydd ac amrywiaeth ddiwylliannol; ac o gyfle cyfartal’ (ibid: 3).

Mae Agenda 2030 yn disgrifio perthynas rhwng cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant yn seiliedig ar nodau datblygu cynaliadwy 2030. Mae Agenda 2030 yn ymwneud â thargedau, llinellau amser, hawliau dynol a chyfrifoldebau'r Wladwriaeth, gyda ffocws ar les dynol, wedi'i gefnogi gan amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae mwy na 90 y cant o'r nodau datblygu cynaliadwy wedi'u hymgorffori mewn cytuniadau hawliau dynol; ac, golyga methiant i ymgorffori hawliau dynol wrth lunio polisïau na ellir cyflawni'r nodau (DIHR 2018). Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (CESCR) wedi cadarnhau'r berthynas rhwng datblygu cynaliadwy a hawliau dynol economaidd-gymdeithasol, y mae'n ei ddisgrifio fel 'conglfaen sylfaenol' Agenda 2030 a datblygu cynaliadwy (UN CESCR 2019: para. 4). Felly mae hawliau dynol yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy gyda ffocws ar gydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu (DIHR 2018; Hoffman 2019a).

3. Methodoleg

3.1. Arweiniwyd yr ymchwil gan Brifysgol Abertawe a Phrifysgol Bangor, mewn cydweithrediad â Diverse Cymru a Young Wales. Rhoddodd grŵp cynghori fewnbwn arbenigol i gefnogi'r ymchwil. Defnyddiwyd ymagwedd dulliau cymysg i sicrhau ystod eang o ddata o wahanol ffynonellau. Penderfynwyd ar y themâu allweddol i'w harchwilio gyda rhanddeiliaid (pobl broffesiynol a phobl â phrofiad bywyd) gan y nod ymchwil a'r amcanion ymchwil a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

Nod ymchwil

3.2. Nod yr ymchwil yw datblygu dealltwriaeth glir o'r ddeddfwriaeth bresennol a'r fframweithiau canllaw statudol sy'n ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, a phenderfynu os, ac i ba raddau, mae angen newidiadau i'r ddeddfwriaeth / canllawiau statudol presennol, a / neu gyflwyno deddfwriaeth / canllawiau statudol newydd i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol (Llywodraeth Cymru 2019a)

Amcanion ymchwil

3.3. Yr amcanion ymchwil oedd:

- Datblygu dealltwriaeth glir o'r ddeddfwriaeth bresennol a fframweithiau canllaw statudol i benderfynu os ac i ba raddau mae'r rhain yn berthnasol i amddiffyn a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.
- Archwilio a oes tystiolaeth y byddai gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol a fframweithiau canllaw statudol yn cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.
- Archwilio a oes tystiolaeth y byddai cyflwyno deddfwriaeth a phwerau newydd, gan gynnwys ymgorffori confensiynau pellach y Cenhedloedd Unedig yng nghyfraith Cymru a / neu'r posibilrwydd o Ddeddf Hawliau Dynol Cymru, yn cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.
- Asesu a fyddai unrhyw ddeddfwriaeth a phwerau newydd yn tanseilio a / neu'n ychwanegu cymhlethdod pellach i'r fframwaith deddfwriaethol presennol yng Nghymru.

- Cymharu a chyferbynnu'r opsiynau o wneud newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol a fframweithiau canllaw statudol â chyflwyno deddfwriaeth a phwerau newydd, o ran cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.
- Gwneud argymhellion ar sail tystiolaeth sy'n manylu ar sut i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Adolygiad llenyddiaeth

3.4. Cynhaliom gynnal adolygiad llenyddiaeth a oedd yn canolbwyntio ar ddeunyddiau ffynhonnell sylfaenol (deddfwriaeth, polisi, arweiniad ac ati) a deunyddiau eilaidd (llenyddiaeth academiaidd, adroddiadau, sylwebaethau ac ati), yn ogystal â llenyddiaeth lwyd (adroddiadau gan sefydliadau anllywodraethol, sefydliadau hawliau dynol cenedlaethol ac ati). Roedd hyn wedi'i gyfyngu i gyhoeddiadau yn Saesneg. Fe ddefnyddiom ein dealltwriaeth ein hunain i nodi ffynonellau ar gyfer archwiliad cychwynnol a chynnwys argymhellion gan swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi'r ymchwil, yn ogystal â chan ein Grŵp Cynghori. Ehangwyd yr adolygiad llenyddiaeth trwy chwiliadau allweddair o gronfeydd data ar-lein a defnyddio cyfeiriadau mewn deunyddiau ffynhonnell, a thrwy argymhellion gan randdeiliaid â diddordeb. Parhaodd yr adolygiad hwn trwy bob cam o'r ymchwil.

3.5. Darparodd yr adolygiad llenyddiaeth cychwynnol nifer o themâu allweddol i'w harchwilio gyda rhanddeiliaid, sef: rôl a phwysigrwydd deddfwriaeth i flaenoriaethu cydraddoldeb a hawliau dynol mewn polisi cyhoeddus; yr angen i gyflwyno prosesau i weithredu cydraddoldeb a hawliau dynol trwy bolisi a gweithredu cyhoeddus; atebolrwydd a gorfodi; a phwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol i adeiladu cefnogaeth yn y parth cyhoeddus. Ystyriwyd y themâu hyn wrth ddatblygu'r cwestiynau ymchwil y dylid rhoi sylw iddynt gyda chyfranogwyr ymchwil.

3.6. I ddechrau, y bwriad oedd cynnal cyfweiliadau 'yn bersonol' a digwyddiadau ymgysylltu eraill, ond roedd yn rhaid diwygio'r rhain i ddulliau 'ar-lein' oherwydd y pandemig Covid-19.

Tystiolaeth gan randdeiliaid proffesiynol

3.7. Cynhaliwyd yr edefyn hwn o'r ymchwil ar y cyd gan Brifysgol Abertawe a Phrifysgol Bangor gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- **Arolwg ar-lein:** anfonwyd arolwg dwyieithog (Cymraeg a Saesneg, Atodiad 1) gan ddefnyddio SurveyMonkey at randdeiliaid proffesiynol sy'n gweithio neu'n ymchwilio ym meysydd cydraddoldeb a / neu hawliau dynol yng Nghymru, trwy rwydweithiau a nodwyd trwy drafodaeth gyda'r Grŵp Cynghori a swyddogion Llywodraeth Cymru. Dosbarthwyd dolen i arolwg gan ddefnyddio cymysgedd o gwestiynau penagored a chaeedig trwy gydlynwyr rhwydwaith. Roedd yr arolwg yn anhysbys, a chasglwyd ymatebion at ddibenion dadansoddi. Cwblhaodd cyfanswm o 117 o ymatebwyr yr arolwg (ni atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn). Dadansoddwyd y data gan ddefnyddio offeryn rheoli data ar-lein SurveyMonkey.
- **Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid proffesiynol:** cynhaliwyd cyfweliadau â rhanddeiliaid proffesiynol i ddarparu mewnwelediadau ansoddol i gyfoethogi'r data (mae cwestiynau cyfweliad yn Atodiad 2). Nodwyd cyfweleion trwy drafodaeth gyda'r Grŵp Cynghori a swyddogion Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd cyfweliadau rhwng Ebrill 2020 a Thachwedd 2020, gyda'r opsiwn o gyfweliad yn Gymraeg neu Saesneg. Gwnaethom gyfweled â 23 o randdeiliaid proffesiynol o'r sectorau cyhoeddus, anllywodraethol ac academiaidd (un cyfwelai yn darparu ymateb ysgrifenedig). Anfonwyd trawsgrifiadau cyfweliad at gyfweleion i gael sylwadau. Fe wnaethom gymhwyso proses o godio atblygol i'r trawsgrifiadau gan gymryd yr amcanion ymchwil fel themâu arweiniol. (Gweler Atodiad 3 am gyfweleion yn ôl sefydliad.)
- **Gweithdai gyda rhanddeiliaid proffesiynol:** i ategu'r data cyfweliad cynhaliwyd gweithdai ar-lein gyda rhanddeiliaid proffesiynol (mae cwestiynau'r gweithdy yn Atodiad 2). Nodwyd cyfranogwyr gweithdai trwy drafodaeth gyda'r Grŵp Cynghori a swyddogion Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd gweithdai rhwng Ebrill 2020 a Thachwedd 2020, gan gynnwys gweithdy Cymraeg. Cymerodd cyfanswm o 33 o randdeiliaid proffesiynol ran yn y gweithdai o'r sectorau cyhoeddus, anllywodraethol, proffesiynol cyfreithiol ac academiaidd. Cymerwyd nodiadau o bob gweithdy a'u hanfon at gyfranogwyr i gael sylwadau. (Gweler Atodiad 4 am gyfranogwyr gweithdai yn ôl sefydliad.)

3.8. Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer ymchwil a wnaed gan Brifysgol Abertawe a Phrifysgol Bangor gan Bwyllgor Moeseg Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton Prifysgol Abertawe.

Cyfarfodydd fforwm

3.9. Anfonwyd cofnodion cyfarfodydd ar-lein at y tîm ymchwil a gynhaliwyd gan fforymau sefydlog a gnullwyd gan Lywodraeth Cymru ar hil, anabledd, pobl hŷn a ffydd (trafododd fforymau'r cwestiynau a ofynnwyd yn y gweithdai, gweler Atodiad 2).

Tystiolaeth gan blant a phobl ifanc

3.10. Ym mis Awst a mis Medi 2020, cynhaliodd Young Wales ddau grŵp ffocws ar-lein gyda phobl ifanc rhwng 14 a 19 oed. Pwrpas y grwpiau ffocws oedd cynnwys pobl ifanc mewn sgwrs fanwl ar yr amcanion ymchwil. Cymerodd cyfanswm o 30 o gyfranogwyr ran yn y grwpiau ffocws. Mae Young Wales wedi paratoi adroddiad ar ganfyddiadau'r grŵp ffocws (Richards a Waites 2020), sydd ar gael gan:

s.hoffman@swansea.ac.uk.

3.11. Cynhaliwyd y llinyn hwn o'r ymchwil gan Young Wales gan fabwysiadu'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol ac arfer da, ac yn ddarostyngedig i bolisi diogelu Plant yng Nghymru, a gofynnwyd am gydsyniad i gymryd rhan gan bob cyfranogwr. Ni chasglodd Young Wales unrhyw ddata personol gan blant a phobl ifanc at ddibenion yr ymchwil hwn.

Tystiolaeth gan bobl â phrofiad bywyd

3.12. Cyflawnwyd yr edefyn hwn o'r ymchwil gan Diverse Cymru. Mynychodd cyfanswm o 43 o bobl ddigwyddiadau ymgysylltu ar-lein Diverse Cymru rhwng Medi 2020 a Hydref 2020. Yn ogystal, cynhaliodd Diverse Cymru 3 cyfweiliad ffôn ac arolwg ar-lein dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) a dderbyniodd 19 ymateb. Cynhaliodd Diverse Cymru 4 cyfweiliad â sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau a oedd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y digwyddiadau ymgysylltu eraill: Pobl draws a phobl anneuaidd; pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol; Sipsiwn a Theithwyr; a menywod a oedd wedi profi cam-drin domestig. Cynhaliodd Diverse Cymru ymchwil ychwanegol gyda phobl â nodweddion amrywiol y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil gyfredol, ac mae

wedi paratoi adroddiad ar y canfyddiadau (Diverse Cymru 2021). Mae hwn ar gael gan: research@diverse.cymru.

3.13. Dyluniwyd y dulliau ymchwil, y cwestiynau a'r cynigion ar gyfer ymgysylltu a monitro gan ystyried polisïau diogelu, diogelu data, cyfranogiad a chydraddoldeb ac amrywiaeth Diverse Cymru.

Nodyn ar amseriad yr ymchwil

3.14. Cynhaliwyd yr ymchwil gyda'r cyfranogwyr yn 2020, ac fe'i cwblhawyd erbyn diwedd mis Tachwedd 2020. Ers casglu'r dystiolaeth mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno canllawiau statudol wedi'u diweddarau ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ym mis Mawrth 2021. Trafodir y canllawiau hyn yn 6.31 - 6.32: oherwydd y dyddiad cyflwyno, ni ymdrinnir ag ef yn y dystiolaeth gan gyfranogwyr ymchwil.

3.15. Mae'r dystiolaeth gan gyfranogwyr ymchwil ar Covid-19 (a drafodir isod, 'Canfyddiadau: Covid-19') yn adlewyrchu'r sefyllfa ym mis Tachwedd 2020. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig Covid-19 wedi bod yn barhaus a dylid nodi gan fod y sefyllfa bolisi gyhoeddus yn ddeinamig ac yn esblygu, dylid darllen y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn ochr yn ochr â thystiolaeth arall, fwy diweddar, i roi mewnwelediadau ychwanegol i'r modd y mae rhanddeiliaid wedi gweld ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig.

Sut fyddwn ni'n cyflwyno ein casgliadau

3.16. Dadansoddwyd y data o'r holl ddulliau ymchwil i nodi pryderon a materion cyffredin a godwyd yn gyson ar draws yr holl gyfranogwyr, yn ogystal ag unrhyw feysydd ble roedd anghytundeb.

3.17. Ar ôl yr is-adran nesaf 'Nodyn ar argymhellion' mae'r adroddiad yn trafod canfyddiadau ein hadolygiad o lenyddiaeth a'n gwaith maes gyda chyfranogwyr ymchwil, ein casgliadau a'n hargymhellion. Trafodir canfyddiadau'r ymchwil o dan 8 prif bennawd, sef:

- Deddfwriaeth.
- Ymgorfforiad hawliau dynol.

- Y bwlch cyflawni.
- Asesiad effaith.
- Monitro.
- Atebolrwydd a gorfodi.
- Codi ymwybyddiaeth.
- Covid-19.

Nodyn ar argymhellion

3.18. Mae ein hargymhellion yn gwneud defnydd o gyfanrwydd y dystiolaeth, gan ganolbwyntio ar y data a'r mewnwelediadau o dan bob un o'r 8 prif bennawd (uchod). Rydym wedi dewis darparu argymhellion manwl sy'n cynnwys camau i'w cymryd i sicrhau bod pob argymhelliad yn cael ei weithredu'n effeithiol.

3.19. Ar ddiwedd y drafodaeth o dan bob un o'r 8 prif bennawd rydym yn nodi pa un o'n hargymhellion sydd fwyaf perthnasol i'r materion sy'n cael eu trafod. Hefyd, mae Tabl 1 yn dangos sut mae'r argymhellion wedi'u grwpio, a sut roedd y grwpiau hyn yn gysylltiedig â'r adrannau tystiolaeth sylweddol trwy gydol yr adroddiad. Mae'n bwysig nodi, wrth ddatblygu ein hargymhellion, ein bod wedi ystyried yr holl ganfyddiadau, o bob rhan o'n hadroddiad. Dylid edrych ar ganfyddiadau a chasgliadau ein hymchwil yn gyfannol i hysbysu syniadau ar sut i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru: maent yn gyd-ddibynnol ac yn rhyng-gysylltiedig.

3.20. Wrth gynnal ein hymchwil, nodwyd nid yn unig fod gan Lywodraeth Cymru, ond hefyd awdurdodau cyhoeddus, yr EHRC, Comisiynwyr Cymru a rhai rheoleiddwyr ac arolygiaethau gyfraniad i'w wneud tuag at hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol. Rydym wedi cydnabod hyn trwy gyfeirio rhai o'n hargymhellion at y cyrff hynny. Mae Tabl 2 yn dangos pa argymhellion sydd wedi'u cyfeirio at ba gorff.

4. Casgliadau: Deddfwriaeth

Cyd-destun

4.1. Mae statud, rheoliadau, canllawiau statudol ac anstatudol wedi'u cyflwyno yng Nghymru sy'n fframio cydraddoldeb a hawliau dynol, a llesiant. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (GoWA 2006) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau 'gyda'r bwriad o sicrhau' eu bod yn arfer eu swyddogaethau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylid cael cyfle cyfartal i bawb (adran 77). Mae Deddf 2006 yn rhoi pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru hyrwyddo neu wella llesiant economaidd Cymru, llesiant cymdeithasol Cymru, a llesiant amgylcheddol Cymru (adran 60). Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn gwahardd Gweinidogion Cymru rhag arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r ECHR neu rwymedigaethau rhyngwladol y DU (sy'n cynnwys rhwymedigaethau hawliau dynol) (adrannau 80 ac 81). Yn yr un modd, nid oes gan y Senedd unrhyw gymhwysedd i weithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r ECHR neu rwymedigaethau rhyngwladol y DU (adrannau 108A a 114, ac atodlen 7A, GoWA 2006). Mae HRA 1998 (Adran 6) yn gwahardd y Senedd, Gweinidogion Cymru, ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru rhag gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r hawliau a warantir gan yr ECHR.

4.2. Mae adran 149 o EA 2010 yn nodi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod a restrir o dan Atodlen 19 o'r ddeddfwriaeth roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal; a meithrin perthnasoedd da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu. Y nodweddion gwarchodedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol (adrannau 4-12, EA 2010). Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus rhestredig eraill yng Nghymru gydymffurfio â'r PSED.

4.3. Mae'r WSEDs yn gosod dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar awdurdodau rhestredig Cymru i 'alluogi gwell perfformiad' o Reoliadau PSED (Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (Rhif 10264 W.155), a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 153, EA 2010). Mae'r WSEDs yn ei

gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus rhestredig osod amcanion cydraddoldeb, paratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig wrth osod amcanion, ac asesu effaith polisïau ac arferion ar eu gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd PSED gyffredinol, h.y. Asesiad Effaith Cydraddoldeb (EIA).

4.4. Mae Rhan 1, adran 1 o EA 2010 yn nodi 'dyletswydd economaidd-gymdeithasol'. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol (h.y. awdurdod rhestredig), wrth wneud penderfyniadau strategol, roi sylw dyledus i ddymunoldeb arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Daeth hyn i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021 (Llywodraeth Cymru 2020a).

4.5. Gall Llywodraeth Cymru a'r Senedd gyfarwyddo a dylanwadu ar gydraddoldeb ac arferion hawliau dynol trwy ddeddfwriaeth a pholisi. Fodd bynnag, mae'r pwerau hyn yn anghymesur. Mae Atodlen 7A o GoWA 2006 i raddau helaeth yn cadw deddfwriaeth ar 'gyfle cyfartal' i Senedd y DU (adran N1). Mewn cyferbyniad, mae atodlen 7A yn cadarnhau bod gan y Senedd gymhwysedd i 'arsylwi a gweithredu' hawliau dynol rhyngwladol mewn meysydd datganoledig, sy'n rhoi cyfle i ymgorffori hawliau dynol trwy ddeddfwriaeth sylfaenol (para. 10).

4.6. Yn 2011, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) (fel yr oedd bryd hynny) y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (RCYPM 2011). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi 'sylw dyledus' i'r CRC (ac erthyglau penodedig o'r Protocol Dewisol 1^{af} a'r 2^{il}) wrth arfer eu swyddogaethau (adran 1). Mae'r Senedd wedi deddfu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWA 2014) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau perthnasol roi 'sylw dyledus' i CRC a CRDP wrth arfer swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth; a Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu ac Addysg Ychwanegol (Cymru) 2018 (ALNA 2018) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol roi 'sylw dyledus' i'r CRC a'r CRDP wrth arfer swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth honno.

4.7. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WFGA 2015) yn sefydlu saith nod llesiant: Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru sy'n fwy

cyfartal; Cymru iachach; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (adran 4). Mae'r cysyniad o lesiant yn WFGA 2015 yn tynnu o'r defnydd o lesiant yn GoWA 2006 (gan gynnwys llesiant cymunedol a chymdeithasol). Dan y WFGA 2015 mae'n ofynnol i rai cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, ddatblygu cynaliadwy. Fel rhan o gyflawni datblygu cynaliadwy rhaid iddynt osod amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant, a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny (adran 3, WFGA 2015). Mae WFGA 2015 yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) sy'n ofynnol i asesu llesiant ardal leol a gosod amcanion llesiant i gyfrannu at y nodau llesiant (Rhan 2).

4.8. O dan WFGA 2015, rhaid i gyrff cyhoeddus perthnasol (gan gynnwys Gweinidogion Cymru), a phob PSB osod amcanion llesiant er mwyn cyflawni datblygu cynaliadwy, a ddiffinnir fel y broses o 'wella'r llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol- bod yng Nghymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy '(adrannau 2 a 3). Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu mewn modd sy'n 'ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain' (adran 5). Mae Gweinidogion Cymru, gyrff cyhoeddus a PSBs fel arall yn rhydd i bennu eu hamcanion llesiant eu hunain.

4.9. Defnyddir y cysyniad o lesiant hefyd yn SSWA 2014. Mae'n ofynnol i unrhyw berson neu awdurdod sy'n arfer swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth hyrwyddo llesiant unigolion neu ofalwyr sydd angen gofal a chefnogaeth (adran 5). Mae Adran 2 o SSWA 2014 yn nodi, mewn perthynas â pherson, bod llesiant yn cynnwys 'sicrhau hawliau a hawliau'. Mae canllawiau statudol o dan WFGA 2015 yn gwahaniaethu rhwng llesiant Cymru fel yr ymdrinnir â hwy yn y ddeddfwriaeth honno, a llesiant unigolion o dan SSWA 2014 (Llywodraeth Cymru 2016a).

4.10. Nid yw WFGA 2015 yn cynnwys hawliau dynol ymhlith y nodau llesiant i Gymru. Er bod gan sefydlu nodau llesiant potensial i gefnogi hawliau dynol, bydd angen i PSB ac awdurdodau perthnasol nodi a gwneud cysylltiadau ag, er enghraifft, Agenda 2030 er mwyn hyrwyddo llesiant unigolion i 'wireddu hawliau'r rhai sydd wedi

eu gadael ar ôl oherwydd tlodi, allgáu cymdeithasol ac ymyleiddio '(Cenhedloedd Unedig CЕССR 2019: para. 6).

4.11. Nodwyd fel rhan o'r GER bod deddfwriaeth Cymru ar gydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant wedi digwydd fesul tipyn heb fawr o aliniad rhwng y fframweithiau deddfwriaethol (Parken 2019). Mae llesiant a chydraddoldeb yn aml yn cael eu gosod i'r naill ochr yn sefydliadol yng ngwaith awdurdodau cyhoeddus, sy'n cael ei gymhlethu gan fod gwahanol awdurdodau o dan wahanol ddyletswyddau yn dibynnu ar y cyd-destun, yn ogystal ag ôl troed daearyddol a demograffig: mae WFGA 2015 yn berthnasol i 44 o gyrff cyhoeddus a 19 o PSBs. Mae 73 awdurdod yn ddarostyngedig i'r WSEDs, ond ni roddir unrhyw ofynion ychwanegol ar PSBs; mae yna hefyd gam-alinio amserlenni ar gyfer cynllunio ac adrodd ar ddyletswyddau cydraddoldeb a llesiant (Parken 2019; CoJ 2019a).

Tystiolaeth gan randdeiliaid: Deddfwriaeth

4.12. Yn ein harolwg ar-lein gyda rhanddeiliaid proffesiynol, roedd 64 y cant, h.y. 75 o 117 o ymatebwyr, o'r farn bod deddfwriaeth, polisi a chanllawiau 'rhywfaint yn effeithiol' wrth sefydlu cyfrifoldebau clir dros weithredu ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Roedd 10 y cant (12 ymatebydd) o'r farn ei fod yn 'effeithiol iawn', ac roedd 6 y cant (7 ymatebydd) o'r farn nad oedd 'yn effeithiol o gwbl'. Mewn ymateb i gwestiwn am yr hyn y gellid ei wneud i egluro pwy sy'n gyfrifol am weithredu, cytunodd 78 y cant, h.y. 90 o 115 o ymatebwyr, y gellid cyflawni hyn trwy ddeddfwriaeth, a chytunodd 81 y cant, h.y. 92 o 113 o ymatebwyr, y gellid ei gyflawni trwy ganllawiau. Gofynnodd ein harolwg ar-lein i ba raddau y mae deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cyfredol yn sefydlu blaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, ar gydraddoldeb a hawliau dynol. O ran cydraddoldeb, roedd 52 y cant, h.y. 58 o 111 o ymatebwyr, o'r farn bod blaenoriaethau naill ai'n 'eithaf clir' neu'n 'glir iawn', gyda 41 y cant (45 o ymatebwyr) yn ystyried bod blaenoriaethau naill ai 'ddim yn glir iawn' neu 'ddim yn glir o gwbl', nid oedd yr ymatebwyr eraill yn gwybod neu nid oeddynt yn siŵr. Mewn perthynas â hawliau dynol, roedd 44 y cant, h.y. 49 o 112 o ymatebwyr, o'r farn bod blaenoriaethau naill ai'n 'eithaf clir' neu'n 'glir iawn', ac roedd 49 y cant (55 o ymatebwyr) o'r farn bod y blaenoriaethau naill ai 'ddim yn glir iawn' neu 'ddim yn glir o gwbl'. Nid oedd yr ymatebwyr eraill yn gwybod neu nid oeddynt yn siŵr. O ran

cysylltiadau rhwng cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant, cytunodd 40 y cant, h.y. 46 o 116 o ymatebwyr i'r arolwg, ei bod yn amlwg beth mae llesiant yn ei olygu mewn polisi cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn llai sicr ar y berthynas rhwng cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant. O'r 117 o ymatebwyr, cytunodd 27 y cant (32 ymatebydd) fod y cysylltiad rhwng cydraddoldeb a llesiant yn glir mewn polisi cyhoeddus, roedd 35 y cant (41 o ymatebwyr) yn anghytuno a 38 y cant (44 o ymatebwyr) ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd 73 y cant, 85 o'r 117 o ymatebwyr o'r farn bod sicrhau bod amcanion cydraddoldeb yn cael eu cyflawni yn allweddol i gyflawni amcanion llesiant. O'r 116 o ymatebwyr, cytunodd 28 y cant (32 o ymatebwyr) fod y cysylltiad rhwng hawliau dynol a llesiant yn glir mewn polisi cyhoeddus, roedd 37 y cant (43 o ymatebwyr) yn anghytuno a 35 y cant (41 o ymatebwyr) ddim yn cytuno nac yn anghytuno. O'r 116 o ymatebwyr, roedd 78 y cant, h.y. 90 o ymatebwyr, o'r farn bod sicrhau bod amcanion hawliau dynol yn cael eu cyflawni yn allweddol i gyflawni amcanion llesiant. Gwnaeth nifer o ymatebwyr yr arolwg sylwadau ar y berthynas rhwng cydraddoldeb a llesiant yng nghyd-destun polisi Cymru. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

'Nid yw'r cysylltiad rhwng llesiant a chydraddoldeb yn cael ei wneud yn ddigon cryf. Mae'n dal i deimlo bod y ddau faes yn cael eu hystyried ar wahân ac nid ar y cyd.'

4.13. Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan gyfweleion yn codi pryderon ynghylch diffyg aliniad prosesau ar gydraddoldeb a hawliau dynol, a llesiant. Er enghraifft:

'Felly mae'r Ddeddf Llesiant yn cael ei thrin ar wahân a chan swyddogion ar wahân i'r ddeddfwriaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol... Yn amlwg setiau gwahanol o ganllawiau nad ydyn nhw'n croesgyfeirio. A gwahanol...brosesau nad ydyn nhw'n cysylltu, gwahanol systemau adrodd ac amserlenni.' (IV3)

4.14. Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu nad oes gan y ddeddfwriaeth, y polisi a chanllawiau cyfredol eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am weithredu ar gydraddoldeb a hawliau dynol, gan ei gwneud hi'n anodd i gludwyr dyletswydd ddeall eu rhwymedigaethau. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

'Rwy'n credu bod cryn dipyn o orgyffwrdd o ran deddfwriaeth... Deddf Cydraddoldeb, Deddf Hawliau Dynol ac yna'r mathau eraill o bethau... rhai mathau o hawliau dynol a sylw dyledus yn y ddeddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol. Mae cymaint o hawliau a gofynion cyfreithiol ar wahanol lefelau, nid wyf bob amser yn credu ei bod yn glir sut mae'r fframwaith hwnnw'n dod at ei gilydd i amddiffyn hawliau dynol unigolion.' (IV15).

Rwy'n credu o ran y blaenoriaethau ar hyn o bryd, rwy'n credu bod yr her allweddol yn faes gwaith cymhleth iawn ar hyn o bryd, mae yna lawer o ddarnau o ddeddfwriaeth... Felly dwi'n meddwl o ran cyfansoddiad popeth rwy'n credu ei bod hi'n eithaf anodd ei lywio mewn ffordd... wyddoch chi, mae'n faes cymhleth iawn a byddai hynny'n ei gwneud hi'n anodd iawn i'r rheini lle mae dyletswydd benodol i weithredu, gwneud mwy na thicio blwch a chyflawni eu swyddogaethau o ddydd i ddydd a gwneud a gwahaniaeth go iawn.' (IV4)

4.15. Er bod cyfweleion yn gyffredinol yn cydnabod pwysigrwydd fframweithiau deddfwriaethol presennol, gwnaeth rhai sylwadau ar yr angen i ddeall y berthynas rhwng gwahanol ddeddfwriaeth yn well. Er enghraifft:

'Mae'n debyg ei bod hefyd yn deg dweud bod diffyg synergedd o hyd mewn rhai agweddau. Felly mae gennym lawer o elfennau, ac mae'n amlwg bod gwerth i'r holl elfennau hyn, dim ond cwestiwn o sut maen nhw'n cyfuno gyda'i gilydd. Felly mae gennym y ddyletswydd gyffredinol, mae gennym ddyletswyddau penodol i Gymru, mae gennym fframweithiau hawliau dynol wrth gwrs. Bellach mae gennym y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn dod i mewn, mae gennym y fframwaith llesiant sy'n sail i hyn i gyd. Felly mae'r elfennau yno ac mae'r cyrff yno, dim ond cwestiwn o sut... mae'r synergedd yn cael ei weithio allan.' (IV20).

4.16. Cododd nifer o gyfweleion bryderon ynghylch sut mae cysyniadau cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant yn cydberthyn a diffyg aliniad mewn deddfwriaeth. Er enghraifft:

'Rwy'n ei chael hi'n anodd gweld y cysylltiad rhwng y tri edefyn gwaith* a chredaf mai dyna gymhlethdod y fframwaith sydd gennym ar hyn o bryd neu ddiffyg fframwaith mewn perthynas â hawliau dynol yn benodol... yn amlwg dydy (WFGA 2015) heb ei alinio â deddfwriaeth cydraddoldeb ac yn enwedig deddfwriaeth hawliau dynol.' (IV4)

*gan gyfeirio at gydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant

4.17. Dywedodd un cyfwelai fod 'hawliau' yn ymwneud ag angenrheidiau sylfaenol, tra bod 'llesiant yn rhywbeth yr ydych chi'n meddwl amdano pan fydd gennych chi'r moethusrwydd i feddwl amdano' (IV12). Roedd sylwadau eraill tebyg yn cynnwys:

'Y ffordd y mae'r agenda llesiant cenedlaethol wedi'i chlymu ym meddyliau llawer o bobl â hawliau dynol a chydraddoldeb, nid wyf yn gwybod o ble y daeth hynny ond i mi mae'n amlwg yn ddau agenda gwahanol. Wrth gwrs, yn ymarferol maen nhw'n gorgyffwrdd, os ydyn ni'n byw bywyd lle mae hawliau pobl yn cael eu torri, mae'r genhedlaeth nesaf yn debygol o ddioddef hefyd. Wrth gwrs mae yna gysylltiad yno ond yn y diwedd maen nhw'n anelu at nodau hollol wahanol. Mae un yn dymor hir iawn, a'r llall yw, mae yna bobl allan yna gyda hawliau yn cael eu tramgwyddo heddiw y mae angen delio â nhw heddiw.' (IV22)

4.18. Codwyd mater deddfwriaeth a chanllawiau 'tameidiog', 'gwahanol' ac 'aml-haenog' gan gyfweleion, ond hefyd mewn gweithdai. Gwnaeth cyfranogwyr gweithdai a'r cyfweleion sylwadau ar broblemau a achoswyd gan ddealltwriaeth anghyson, ac am bwy sy'n gyfrifol am weithredu ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan randdeiliaid proffesiynol ar draws gwahanol ddulliau arolwg yn awgrymu bod problem dull tameidiog lle mae rhai sefydliadau yn cael eu rhoi o dan ddyletswydd gan ddeddfwriaeth a / neu ganllawiau ac eraill ddim. Mater penodol a godwyd gan rai cyfweleion yw'r diffyg 'dyletswyddau hollgynhwysol' cynhwysfawr. Er enghraifft:

'mae heriau allweddol eraill yn ymwneud yn wirioneddol ag anghysondeb ymgorffori deddfwriaeth cydraddoldeb ar draws gwahanol ddarnau o gyfraith Cymru... mae'n amlwg bod gennym agwedd dameidiog tuag at hynny lle mae gennym ddyletswyddau sylw dyledus mewn agweddau ar gyfraith Cymru, sy'n ymwneud â rhai rhannau o wasanaethau mae plant yn derbyn ond nid eraill. Felly nid oes gennym fath o ddyletswyddau hollgynhwysol y tu hwnt i'r Ddeddf Cydraddoldeb, o ran hawliau dynol a chydraddoldeb.' (IV16)

4.19. Roedd pryderon hefyd am y gwahanol ymagweddau at lesiant yn SSWA 2014 a WFGA 2015, yn ogystal â'r 'cyfle a gollwyd' i ddod â'r agendâu cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant ynghyd. Er enghraifft:

'Dylai fod gan bob deddfwriaeth gysylltiad â'i gilydd a cholodd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol y cyfle hwnnw ar gyfer parhad a chefnogaeth y ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol. Er enghraifft, mae'n hysbys iawn, os gwahaniaethwyd yn erbyn unigolyn, y bydd effaith ar ei iechyd meddwl a'i lesiant. Nid yw hyn yn cael ei gydnabod mewn deddfwriaeth / canllawiau ac yn aml mae'n cael ei fethu o ran arfer y ddeddfwriaeth... Mae'n siomedig na chysylltwyd yr agenda llesiant â chydraddoldeb a hawliau dynol.' (IV13)

4.20. Mater arall a godwyd gan gyfweleion, cyfranogwyr gweithdai ac aelodau'r fforwm, yw bod deddfwriaeth Cymru yn 'rhy wan', a'i bod yn methu ag amddiffyn 'hawliau' trwy ddiffyg gorfodaeth, yn enwedig mewn perthynas â llesiant. Barn gyson ymhlith y cyfranogwyr ymchwil hyn yw bod y ddeddfwriaeth llesiant 'yn brin o ddannedd' ac nad oes digon o ddealltwriaeth, gan gynnwys o fewn Llywodraeth Cymru, y gallai llesiant fod yn anaddas i orfodaeth unigol trwy lysoedd, tribiwnlysoedd neu fecanweithiau cwyno. Ar y llaw arall, ystyrir bod gorfodi yn hanfodol i amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol yn iawn (gweler 'Atebolrwydd a Gorfodi' isod).

4.21. Mae'r dystiolaeth gan randdeiliaid proffesiynol yn dangos pryder clir, pe bai WFGA 2015 a llesiant yn cael ei flaenoriaethu, gallai hyn fod ar draul gorfodi

cydraddoldeb a hawliau dynol. Gwnaed y sylw hwn mewn ymateb i'r arolwg ar-lein o randdeiliaid proffesiynol:

Er gwaethaf Comisiynydd WFGA 2015 yn pwysleisio ei natur gyflenwol, mae pryder hefyd bod WFGA 2015 yn ychwanegu at “faich dyletswydd” ac y gallai leihau yn hytrach na chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yn ymarferol – mae angen mwy o gydlyniant.’

4.22. Roedd sylwadau o'r gweithdai yn cynnwys bod llesiant a WFGA 2015 wedi 'dwyn y blaen ar ymwybyddiaeth y cyhoedd er anfantais i deddfwriaeth a dyletswyddau cydraddoldeb a hawliau dynol' a'i fod 'yn teimlo fel hierarchaeth lle mae WFGA 2015 yn ennill'. Adleisir y pryderon hyn gan gyfweleion. Er enghraifft:

‘mae wedi bod yn ddi-fudd, ers i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ddod i fodolaeth, wyddoch chi, mae Llywodraeth Cymru wedi ei chadarnhau fel ei deddfwriaeth flaenllaw ac roedd yn ymddangos ei bod yn ateb i bopeth.’ (IV3)

4.23. O ran yr hyn y gellid ei wneud i wella fframweithiau deddfwriaethol, cawsom nifer o sylwadau gan ymatebwyr yr arolwg ar-lein (rhanddeiliaid proffesiynol), roedd y rhain yn cynnwys:

‘Datblygu fframwaith sy'n eu crynhoi i gyd* ac yn nodi cyffredineddau, gwahaniaethau a chysylltiadau. Rhannu adnoddau a chyfrifoldebau rhwng cyrff allweddol sy'n gyfrifol am y tri maes.’

*gan gyfeirio at gydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant

‘Byddai dull mwy cydgysylltiedig sy'n cysylltu'r elfennau hyn* yn amlwg yn mynd yn bell i roi neges glir am flaenoriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol. Ni ellir tanbrizio mater cyswllt.’

*gan gyfeirio at gydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant

4.24. Mae tystiolaeth o'r cyfweiliadau yn awgrymu cefnogaeth i wella canllawiau, yn ogystal â symleiddio a / neu gydgrynhoi deddfwriaeth bresennol i wella eglurder.

Trafodir y canllawiau yn yr adran nesaf, ('Y bwllch cyflawni'). Fodd bynnag, roedd rhai pryderon ynghylch cyflwyno deddfwriaeth newydd. Er enghraifft:

'mae yna ran ohonof sy'n cwestiynu a oes angen deddfwriaeth... a oes angen rhoi mwy o bwerau ac adnoddau i gefnogi pobl i arfer eu hawliau, yn hytrach na mwy o hawliau, oherwydd ar un lefel rwy'n poeni y byddai yna berygl y byddem yn rhuthro i ddeddfu mewn gofod lle mae hawliau eisoes yn bodoli ac nad yw pobl yn eu harfer, a chawn haen newydd o hawliau nad ydynt yn cael eu harfer.' (IV5)

4.25. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod cyndynrwydd i gyflwyno deddfwriaeth newydd yn gysylltiedig ag amheuaeth ynghylch effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol, ac roedd cefnogaeth glir i fframwaith trosfwaol adeiladu ar ac egluro dyletswyddau presennol, er enghraifft:

'Rwy'n credu mai'r ffordd ymlaen nawr mewn gwirionedd yw edrych ar beth yw ein deddfwriaeth yng Nghymru a sut ydyn ni'n tynnu'r cyfan i mewn i un ymbarél fel bod pobl yn ei deall yn llawer mwy eglur?' (IV14)

'Mae yna ychydig o ddryswch o hyd rhwng dyletswyddau a chyfrifoldebau datganoledig a heb eu datganoli... Ond byddai dyletswydd fwy byd-eang neu weithred fwy byd-eang yn helpu hynny, siawns.' (IV16)

'Gallaf weld ei bod yn bwysig dod â'r holl hawliau gwarchodedig, er enghraifft, o dan yr un ymbarél a sicrhau'r un amddiffyniad ag sydd gennym ar hyn o bryd, o dan y Ddeddf Hawliau Dynol, y Ddeddf Cydraddoldeb, ac i raddau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wyddoch chi, y gallai'r cyfan gael ei ddwyn ynghyd mewn rhyw fath o Ddeddf Hawliau Cymru sylfaenol pe bai'r pwerau datganoledig yn caniatáu hynny. Ond sicrhau gorfodaeth effeithiol dyna'r peth pwysicaf yn sicr.' (IV21)

4.26. Mae tystiolaeth o'r gweithdai yn cefnogi barn y dylid egluro a symleiddio dyletswyddau presennol, ac y dylid cael fframwaith trosfwaol a allai ymestyn i 'ddeddfwriaeth gyfansawdd' sylfaenol. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth a

dderbyniwyd gan randdeiliaid proffesiynol yn awgrymu, pa bynnag ddull a ddefnyddir i symleiddio a chryfhau deddfwriaeth a / neu ganllawiau, y dylai hyn gydnabod na ellir lleihau cysyniadau cydraddoldeb a hawliau dynol i'r cysyniad o lesiant. Fel y dywedodd un cyfwelai:

'Rwy'n credu bod achos yn sicr dros alinio'r ddeddfwriaeth bresennol... Fodd bynnag, wedi dweud hynny, rwy'n gweld hawliau dynol yn eistedd ar ben uchaf y goeden a chredaf mai dyna un o'r heriau sydd gennym ar hyn o bryd... Oherwydd fy mod i'n credu y gall llesiant ddisgyn allan o hawliau dynol ond mae'n fwy heriol y ffordd arall.' (IV4)

4.27. Roedd tystiolaeth o fforymau Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi na ddylid defnyddio'r term llesiant 'fel pe bai'n cofleidio hawliau dynol', ac nad yw WFGA 2015 yn amddiffyn hawliau dynol yng Nghymru. Er bod rhai cyfweleion wedi nodi y dylai hawliau dynol fod yn sail i lesiant (er enghraifft IV4 uchod), nid oedd hon yn farn gyffredinol o'r cyfweiliadau, gyda rhai o'r farn bod hawliau dynol a llesiant yn cyflwyno gwahanol amcanion ac y gallai ceisio dod â nhw ynghyd fod yn niweidiol, yn enwedig i hawliau dynol, a gallai waethygu cymhlethdod. Mae tystiolaeth o'r gweithdai yn awgrymu bod potensial i greu dryswch o ran 'beth sy'n dod gyntaf', nodau hawliau dynol neu lesiant, gan bwysleisio'r angen i fynd i'r afael ag unrhyw ddryswch er mwyn osgoi effeithiau parhaol ar gynllunio a darparu gwasanaethau lleol.

4.28. Cyflwynir persbectif gwahanol yn y dystiolaeth gan bobl ifanc. Dywedodd cyfranogwyr grwpiau ffocws Young Wales nad sefydlu cyfeiriad polisi neu fframweithiau statudol yw'r her yn gymaint, ond yn hytrach sicrhau bod y fframweithiau hynny'n cefnogi gweithredu trwy roi strwythurau atebolrwydd, arolygu a monitro effeithiol ar waith, sy'n ennyn diddordeb plant a phobl ifanc. Ymdrinnir â'r materion hyn mewn rhannau diweddarach o'r adroddiad hwn.

4.29. Mae'r dystiolaeth gan y rhai sydd â phrofiad bywyd yn awgrymu 'ymwybyddiaeth isel' o ddeddfwriaeth a chanllawiau cydraddoldeb a hawliau dynol perthnasol, ac yn enwedig pwy sy'n cael ei amddiffyn, pa hawliau sydd gan bobl, a sut mae'r hawliau hynny'n gweithio. Mae'r dystiolaeth hon yn dangos ystod eang o brofiadau o sut mae deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol wedi gwneud

gwahaniaeth, neu heb wneud hynny. Teimlai rhai cyfranogwyr fod deddfwriaeth wedi gwneud llawer o wahaniaeth, trwy ddarparu rhwyd ddiogelwch neu ffordd iddynt sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaethau a'r driniaeth y mae ganddynt hawl iddynt. Teimlai eraill fod deddfwriaeth wedi gwneud rhywfaint o wahaniaeth, neu ychydig neu ddim gwahaniaeth, gan dynnu sylw at ddiwylliant o beidio â pharchu pobl amrywiol mewn cymdeithas a rhoi sylwadau ar ddeddfwriaeth wan sy'n methu â chynnwys pob cymuned, a diffyg cydnabyddiaeth o brofiadau croestoriadol.

4.30. Awgrymodd pobl â phrofiad bywyd grwpiau sydd angen mwy o ddiogelwch a chydabyddiaeth mewn fframweithiau cyfreithiol fel: gofalwyr, rhieni, goroeswyr cam-drin domestig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl anneuaidd (mewn diffiniadau o hunaniaeth rhywedd), a phobl reu ayngrywiol, a phobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Roeddent hefyd yn dadlau dros gydnabod y model cymdeithasol o anabledd mewn deddfwriaeth yng Nghymru.

4.31. Roedd pobl â phrofiad bywyd hefyd yn teimlo y dylid cael cysylltiadau cliriach a chryfach rhwng WFGA 2015 a chydraddoldeb a hawliau dynol, ac y dylai hyn arwain at weithredu sy'n cryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol ac yn dod â nhw yn ôl i ffocws.

Synthesis: Deddfwriaeth

4.32. Mae'r ddeddfwriaeth a adolygwyd, a'r dystiolaeth a dderbyniwyd, yn awgrymu'n gryf yr angen i egluro'r cysylltiadau rhwng cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant mewn polisi cyhoeddus, yn ogystal â chryfhau blaenoriaethu cydraddoldeb a hawliau dynol. Yr hyn sy'n deillio o'r dystiolaeth yw awydd y dylai deddfwriaeth a chanllawiau ddod â'r blaenoriaethau ar gyfer cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant ynghyd, a gwneud hynny mewn ffordd sy'n darparu fframwaith 'cydgysylltiedig' ar gyfer polisi cyhoeddus. Er bod angen cydnabod bod rhywfaint o dawelwch ynghylch deddfwriaeth newydd, mae hefyd yn wir fod ychwanegu at, neu ddiwygio deddfwriaeth a chanllawiau presennol yn cael ei ystyried yn gyfle i gyflwyno cydlynad a chysondeb i'r fframwaith polisi cyhoeddus yng Nghymru.

4.33. Yn ychwanegol at yr angen am eglurder ynghylch y berthynas rhwng cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant yng Nghymru, mae'r dystiolaeth a

dderbyniwyd yn cadarnhau awydd i hawliau dynol gael eu cryfhau a'u blaenoriaethu o fewn y fframwaith cyfreithiol cenedlaethol. Rydym yn gwneud nifer o argymhellion i fynd i'r afael â'r materion hyn, yn enwedig o dan: 'Deddfwriaeth ac arweinyddiaeth', 'Canllawiau' ac 'Alinio prosesau' (gweler Tabl 1 isod).

5. Casgliadau: Ymgorfforiad hawliau dynol

Cyd-destun

5.1. Bu galwadau am ymgorffori mwy o gytuniadau hawliau dynol rhyngwladol yng nghyfraith Cymru. Mae sefydliadau tai wedi galw am ymgorffori'r hawl i dai digonol (Erthygl 11, ICESCR), fel ei bod yn orfodadwy yn erbyn awdurdodau sy'n arfer swyddogaethau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Tai Pawb *et al* 2019). Mae Anabledd Cymru yn galw am ymgorffori'r CRDP (Anabledd Cymru 2020) ac mae WEN Cymru wedi galw am ymgorffori CEDAW yng Nghyfraith Cymru, gan nodi:

'Heb gorffori, gall llywodraethau drin hawliau dynol fel safon uchelgeisiol, yn hytrach na rhan o'r fframwaith cyfreithiol cenedlaethol.' (WEN Cymru 2020a: 2)

5.2. Daeth y GER/WG i'r casgliad y gallai ymgorffori confensiynau hawliau dynol ar anabledd, ethnigrwydd a rhyw gyfrannu at 'weledigaeth ar gyfer polisi cyhoeddus trwy osod safonau gofynnol' ac at nodau llunio polisi a gorfodi hawliau dynol yn gryfach (Parken 2019: 13). Awgrymwyd bod gan hawliau dynol y potensial i annog cyrff cyhoeddus i osod targedau mwy uchelgeisiol ar gyfer gweithredu ar gydraddoldeb nag ar hyn o bryd, ac i ddarparu nodau cadarn ar gyfer gweithredu ar les (WEN Cymru 2020a; Anabledd Cymru 2020; Parken 2019; Hoffman 2019a, 2019b, 2019c, 2019d).

5.3. Mae dosbarthiad wedi dod i'r amlwg o ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymgorffori hawliau dynol mewn gwahanol wledydd sy'n cyfeirio at gorffori fel rhywbeth uniongyrchol, anuniongyrchol neu sectoraidd (Lundy *et al*, 2012; Kilkelly 2019; Hoffman a Stern 2020).

- **Corffori uniongyrchol:** mae cytundeb hawliau dynol yn cael ei wneud yn rhan o gyfraith ddomestig fel y gall unigolion ddibynnu ar hawliau dynol gerbron llys domestig (Boyle 2018; Daly *et al* 2018). Enghraifft o gorffori uniongyrchol yn y DU yw HRA 1998 sy'n gwneud hawliau o dan yr ECHR yn orfodadwy gan lysoedd y DU (adrannau 7-9, HRA 1998).
- **Corffori anuniongyrchol:** bydd deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus ystyried hawliau dynol penodedig wrth arfer swyddogaethau cyhoeddus (Lundy 2012; Kilkelly 2019; Hoffman a Stern 2020). Mae tair enghraifft o gorffori anuniongyrchol yng nghyfraith Cymru: RCYPM 2011; SSWA 2014; ac ALNA 2018. Mae'r deddfiadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus eraill roi 'sylw dyledus' i hawliau dynol penodedig mewn amgylchiadau rhagnodedig. Nid yw'r dull hwn o gorffori yn darparu ar gyfer gorfodi hawliau dynol yn uniongyrchol (Kilkelly 2019; Hoffman a Stern 2020). Mae unrhyw her gyfreithiol trwy adolygiad barnwrol ar y sail bod penderfynydd wedi methu â rhoi 'sylw dyledus'. Mae hwn yn fath gwan o atebolrwydd cyfreithiol (ibid; Daly *et al* 2018; Hoffman a Williams 2013).
- **Ymgorfforiad sectoraidd:** gellir cyfeirio at hawliau a nodir mewn cytundeb hawliau dynol mewn deddfwriaeth ddomestig mewn meysydd polisi penodol, megis addysg neu dai (Lundy *et al* 2012; Kilkelly 2019; Hoffman 2020). Mae dwy enghraifft o gorffori sectoraidd yng nghyfraith Cymru: SSWA 2014; ac ALNA 2018.

5.4. Mae Cyfraith Cymru wedi sefydlu fframwaith hawliau dynol cyfreithiol unigryw (CoJ 2019a, 2019b), gan ddefnyddio fformiwla 'sylw dyledus' i ymgorffori'r CRC, y CRDP ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar Bobl Hŷn yng nghyfraith Cymru yn anuniongyrchol mewn gwahanol sectorau. I'r graddau y mae hawliau dynol yn hyrwyddo cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu, yn ogystal â chanlyniadau cydraddoldeb mewn meysydd arwahanol, mae ymgorfforiad anuniongyrchol y CRC, CRDP ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig yng nghyfraith Cymru yn hyrwyddo cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau polisi yng Nghymru.

5.5. Mae nifer o astudiaethau wedi sefydlu, lle mae hawliau dynol rhyngwladol yn cael eu hymgorffori fel rhan o gyfraith genedlaethol, mae hyn yn cyfrannu at hyrwyddo hawliau dynol mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r astudiaethau hyn yn myfyrio

ar gorffori mewn gwahanol wledydd, ac ar wahanol ddulliau corffori. Yn gyffredinol, nodwyd buddion corffori fel a ganlyn: codi ymwybyddiaeth o hawliau dynol ar lefel llywodraeth ac ymhlith y cyhoedd yn ehangach; canolbwyntio sylw ar, a dylanwadu ar brosesau i weithredu hawliau dynol wrth ddatblygu polisi; ac, mewn rhai awdurdodaethau, darparu llwybr i fuddiolwyr bwriadedig hawliau dynol i ddatrysiad am dorri eu hawliau trwy fecanweithiau gorfodi domestig (Lundy *et al* 2012; Boyle 2018; Daly *et al* 2018; Hoffman a Stern 2020).

5.6. Mae ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer EHRC Cymru yn 2018 yn cadarnhau effaith gadarnhaol ymgorfforiad anuniongyrchol y CRC yng Nghymru o dan RCYPM 2011 (Hoffman ac O'Neill 2018). Canfu'r ymchwil fod ymgorffori'r CRC yn anuniongyrchol wedi arwain at: ymwybyddiaeth a chydabyddiaeth gryfach o hawliau plant wrth ddatblygu polisi; cyflwyno prosesau sy'n cefnogi hawliau plant (gan gynnwys Asesiad Effaith Hawliau Plant (CRIA)); mwy o gyfleoedd ar gyfer eiriolaeth polisi; atebolrwydd cryfach am hawliau plant yn y cylchoedd sifil a gwleidyddol; a, (rhywfaint) gwell allbwn polisi (ibid). Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson ag ymchwil arall sy'n cadarnhau buddion corffori yn gyffredinol i helpu datblygu 'diwylliant' o sylw i hawliau dynol ar lefel llywodraeth (Kilkelly 2019; Daly *et al* 2018).

5.7. Er bod ymchwil EHRC Cymru wedi dod i'r casgliad bod ymgorffori'r CRC wedi bod yn gam cadarnhaol ymlaen ar gyfer hawliau plant yng Nghymru, daeth i'r casgliad hefyd nad oedd y dull 'sylw dyledus' wedi gwneud llawer i wella atebolrwydd cyfreithiol dros hawliau plant (Hoffman ac O'Neill 2018). Er bod y ddyletswydd i roi 'sylw dyledus' i'r CRC wedi cynyddu'r potensial ar gyfer adolygiad barnwrol o benderfyniadau Gweinidogol sy'n effeithio ar blant, nid yw wedi cryfhau sefyllfa plant unigol y tramgwyddir ar eu hawliau (Hoffman a Williams 2013; Hoffman 2019e).

Tystiolaeth gan randdeiliaid: Ymgorfforiad hawliau dynol

5.8. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr arolwg ar-lein (rhanddeiliaid proffesiynol) o blaid ymgorffori mwy o hawliau dynol yng Nghymru: cytunodd 63 y cant, h.y. 73 o 115 o ymatebwyr, y dylai Cymru ymgorffori mwy o gytuniadau hawliau dynol rhyngwladol, tra bod 13 roedd y cant (15 ymatebydd) yn anghytuno ac nid oedd 23 y cant (27 ymatebydd) yn gwybod. Rhoddodd ymatebwyr yr arolwg resymau dros fwy

o gorffori, yn cynnwys: sicrhau bod hawliau'n cael eu cymryd o ddifrif;
cydnabyddiaeth gryfach mewn polisi; sut mae ymgorfforiad yn arwyddo pwysigrwydd
hawliau dynol yng Nghymru; ac i amddiffyn hawliau a gollir wrth i'r DU adael yr UE.
Roedd y sylwadau'n cynnwys:

'Heb ymgorffori cytuniadau yn y gyfraith mae'n anodd gorfodi hawliau dynol.'

'I alluogi unioniad, i ddarparu fframwaith hawliau dynol cryfach ac
amddiffyniadau.'

'Sicrhau bod hawliau dynol bob amser yn cael eu blaenoriaethu ym musnes y
llywodraeth.'

5.9. Yn yr un modd, mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan gyfweleion yn awgrymu
cefnogaeth i fwy o gorffori, er bod rhai cyfweleion wedi mynegi amheuan:

'Wn i ddim a yw werth mynd trwy'r broses ddeddfwriaethol i Gymru, p'un a
fyddai'n cael mwy o effaith yw fy marn sinigaidd.' (IV10)

Ac roedd un arall yn amharod i gefnogi mwy o ddeddfwriaeth:

'Rwy'n credu bod y fframweithiau yno. Mae angen arweiniad ac eglurhad
arnynt mewn rhai agweddau.' (IV20)

5.10. Cyfeiriodd cyfweleion a oedd yn gefnogol i fwy o gorffori at gonfensiynau
penodol y Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys y CRDP a CEDAW. Er enghraifft:

'ein prif nod yw gweld ymgorffori'r (CRDP) yng nghyfraith Cymru. Ac yn
ddelfrydol fel rhan o Ddeddf Hawliau Dynol Cymru. Hynny yw, dydw i ddim yn
arbenigwr cyfreithiol... rwy'n teimlo bod lle i Lywodraeth Cymru, wyddoch chi,
archwilio ei phwerau ynglŷn â chael ei deddfwriaeth ei hun. Ond hefyd, rwy'n
credu mai'r hyn y gallai ei wneud yw y gallai edrych ar y mecanweithiau yng
Nghymru ar gyfer gweithredu a gorfodi.' (IV3)

5.11. Yn yr un modd, roedd cefnogaeth i gorffori gan gyfranogwyr yn fforymau Llywodraeth Cymru. Daw hyn o'r Fforwm Anabledd a Chydraddoldeb:

'Dylai'r CRDP gael ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig. Nododd (enw wedi'i ddileu) fod holl lywodraethau domestig y DU wedi ymrwymo i'r confensiwn mewn egwyddor, ond mae angen eu hymgorffori mewn cyfraith ddomestig i sicrhau ei fod yn cael ei ddeddfu.'

5.12. Rhoddodd rhai cyfweleion a oedd yn cefnogi corffori eu rhesymau, er enghraifft, wrth gorffori CEDAW:

'Yn gyntaf oll byddai'n codi ymwybyddiaeth o CEDAW a hawliau menywod yng Nghymru, hefyd byddai'n rhoi gwell amddiffyniad i fenywod oherwydd gallent wedyn ddefnyddio CEDAW mewn cyfraith ddomestig. i amddiffyn eu hawliau na allant eu gwneud ar hyn o bryd, a'r peth arall a gredwn, pam ei bod mor bwysig, yw ei fod yn ymgorffori hawliau menywod yn y tymor hwy, felly os yw'n rhan o'n fframwaith cenedlaethol yna hyd yn oed gyda newid llywodraeth mae gennym yr hawliau hynny wedi'u hymgorffori yn y tymor hwy o hyd, felly rydym yn gweld corffori yn bwysig iawn oherwydd os nad ydym yn ymgorffori CEDAW does dim hawl gyfreithiol o gryfder cyfreithiol mewn gwirionedd, dim ond ei fod yno fel math o, 'o dydi hyn yn braf?' (IV7)

5.13. Tynnodd cyfwelai arall sylw at botensial hawliau dynol i gyfrannu at amcanion polisi yng Nghymru:

'byddai ymgorffori hawliau dynol yng Nghymru yn sail i'r cynnydd tuag at nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy sefydlu blaenoriaethau clir ar gyfer cynllunio lleol i lywio amcanion llesiant.' (IV2)

5.14. Gwnaeth y rhai a gyfwelwyd sylwadau hefyd ar yr angen i fynd i'r afael â bylchau yn yr amddiffyniad cyfredol o hawliau dynol, a'r angen i orfodi hawliau dynol. Er enghraifft:

'gellid dod â'r cyfan at ei gilydd mewn rhyw fath o Ddeddf Hawliau Cymru sylfaenol pe bai'r pwerau datganoledig yn caniatáu hynny. Ond sicrhau gorfodi effeithiol yw'r peth pwysicaf yn ôl pob tebyg... (Yr HRA 1998) mae'n debyg yw'r ddeddfwriaeth enghreifftiol, mae'n ddarn da iawn o ddeddfwriaeth mewn gwirionedd, mae wedi darparu hawliau y gellir eu gorfodi'n effeithiol gerbron y Llysoedd, ac maen nhw wedi gwneud nawr am beth, yr 20 mlynedd diwethaf fwy neu lai.' (IV21)

A:

'Ie, rwy'n credu i mi ni fyddai cystal â'r mecanweithiau gwneud iawn a aeth ochr yn ochr â'r pethau hynny, wyddoch chi, o ran y math o fynd yn ôl at y math o weithredu eto a goruchwyllo a chraffu a thystiolaeth bod y pethau hynny'n cael eu gwneud yn real i bobl.' (IV15)

5.15. Roedd cefnogaeth hefyd i gorffori yn y gweithdai. Daw'r dyfyniad hwn o un o nodiadau'r gweithdy:

'Rhaid i'r dyhead o leiaf fod ar gyfer HRA Cymru ddatganoledig. Cyrraedd yno'n gynyddol trwy ymgorffori confensiynau'r Cenhedloedd Unedig mewn agweddau arwahanol ar gyfraith Cymru a hefyd gonfensiynau arwahanol ar bobl hŷn, plant ac ati. Eiriol dros ddull mwy systematig a chyfannol o ymgorffori confensiynau'r Cenhedloedd Unedig mewn cyfraith ddomestig a gwneud yr hawliau hynny'n orfodadwy yng Nghymru.'

5.16. Cododd y dystiolaeth o'r gweithdai bryder na ddylai corffori fod yn ddetholus, gan fod hyn yn sefydlu risg o greu'r 'argraff nad yw'n ofynnol ymgorffori hawliau sy'n ymwneud â meysydd eraill'. Codwyd y pryder hwn hefyd gan gyfweleion.

5.17. Mynegodd rhai cyfweleion gefnogaeth i gorffori i sicrhau bod hawliau dynol yng Nghymru yn cael eu hamddiffyn rhag atchweliad, er enghraifft:

'un o'r rhesymau allweddol hefyd dros gorffori nawr yw y bydd yn sicrhau ein bod yn cadw rhai o'r rheini (gan gyfeirio at hawliau a gollwyd fel ac o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd), peth o'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i chreu gan Ewrop...' (IV7)

'wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd, mae angen i ni sicrhau yn amlwg bod y pethau a oedd gennym ni, o ran deddfwriaeth yn dod o'r Undeb Ewropeaidd o wahanol sefydliadau yr oedd gan bobl fynediad iddynt yn yr Undeb Ewropeaidd, mae angen cadw'r rhain. Mae angen i ni beidio â cholli unrhyw beth. Felly efallai... byddwn i'n meddwl bod angen dod â hawliau dynol i ddeddfwriaeth Cymru mewn gwirionedd.' (IV19)

5.18. Mae'r dystiolaeth o'r fforymau hefyd yn cadarnhau pryderon ynghylch y posibilrwydd o golli amddiffyniadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

5.19. Er na thrafodwyd y gwahanol ddulliau o gorffori yn fanwl, roedd rhywfaint o awgrym bod angen i Gymru symud ymlaen o'r dull anuniongyrchol cyfredol o gorffori (gweler y cyfeiriadau uchod at 'orfodi'), gan ganolbwyntio ar hawliau plant. Er enghraifft:

'Byddwn yn bendant yn gweld y ffordd glir ymlaen, dim ond cael ymgorfforiad uniongyrchol o'r CRC i ddeddfwriaeth Cymru fel na fydd yn rhaid i ni ddadlau dros gymhwysedd hawliau plant ym mhob darn o ddeddfwriaeth a gyflwynir sydd ag unrhyw berthnasedd i blant. Wyddoch chi, felly rwy'n credu y byddai eglurder yn dod o hynny ac y dylai fod yn flaenoriaeth i hynny.' (IV16)

5.20. Roedd rhywfaint o amheuaeth ymhlith cyfweleion ynghylch effeithiolrwydd corffori anuniongyrchol, er enghraifft (IV16) uchod, a gan gyfwelai arall:

'roedd gan sylw dyledus ei le, rwy'n credu bod angen i ni symud ymlaen oherwydd ein bod wedi gweld dros yr ychydig fisoedd diwethaf o dan Covid

mae llawer o faterion mwy wedi bod yn Lloegr ond yn llai felly yng Nghymru, ond er hynny mae gwendidau wedi bod yn ein fframwaith ac mae'n anodd iawn i bobl rydych chi'n eu hadnabod, unigolion, plant neu sefydliadau ar ran plant a theulu(oedd) i fynd trwy achos llys i herio'r llywodraeth. Felly mae ein fframwaith cydymffurfio yn gyfyngedig felly ie, byddwn i'n cytuno bod angen i ni edrych ar sut rydyn ni'n cynnwys atebolrwydd cyfreithiol yn y broses.' (IV4)

5.21. Cydnabuwyd gwendid y sylw dyledus hefyd yn y fforwm ar Heneiddio, noda cofnodion y fforwm:

'Mae'r cysyniad o Sylw Dyledus yn ddiddorol. Efallai y bydd corfforiad rhannol, er enghraifft, mae'n rhaid i swyddogion ystyried hawliau dynol ond does dim rhaid iddynt ddweud sut y maent yn eu gweithredu neu'n cydymffurfio â hwy. Weithiau mae problemau o ran tryloywder yn y broses gwneud penderfyniadau.'

5.22. Mae'r ymchwil gyda phobl sydd â phrofiad bywyd o gydraddoldeb a hawliau dynol yn dangos cefnogaeth i hawliau dynol gael eu hymgorffori yng nghyfraith Cymru, ac i hyn gynnwys ymgorffori'r CRDP, CEDAW, CERD, ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar Bobl Hŷn. Roedd cefnogaeth hefyd i amddiffyn hawliau dynol gael ei ymestyn i amddiffyniadau LGBTQ +, yn ogystal ag i adlewyrchu rhwymedigaethau hawliau dynol yr UE. Mae'r dystiolaeth gan bobl sydd â phrofiad bywyd yn cadarnhau awydd i Lywodraeth Cymru archwilio cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol ynghylch cydraddoldeb yng Nghymru er mwyn ymestyn amddiffyniadau cyfreithiol i ofalwyr, goroeswyr cam-drin domestig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Synthesis: Ymgorfforiad hawliau dynol

5.23. Mae cefnogaeth glir i ymgorffori hawliau dynol ymhellach yng Nghymru. Ystyrir bod y model 'sylw dyledus' cyfredol o gorffori anuniongyrchol yn wan o ran atebolrwydd cyfreithiol am hawliau dynol. Mae'r dystiolaeth yn dangos cefnogaeth i ymgorffori mwy o gytuniadau hawliau dynol rhyngwladol yng nghyfraith Cymru ac i hyn gael ei gorffori'n uniongyrchol, fel y gellir gorfodi hawliau. Byddai hyn yn gofyn am wro oddi wrth y dull 'sylw dyledus' tuag at ddull tebyg i'r HRA 1998. Fodd

bynag, mae gan 'sylw dyledus' nifer o gryfderau (a drafodwyd uchod), yn anad dim ei fod yn dod i'r amlwg fel dull Cymru o gorffori, ac yn gyfarwydd i awdurdodau cyhoeddus a rhanddeiliaid anllywodraethol fel y dull a ddilynwyd yn RCYPM 2011, SSWBA 2014, ALNA 2018, yn ogystal ag yn EA 2010 (PSED a SED), a'r WSEDs. Mae gan y ddyletswydd 'sylw dyledus' botensial i gefnogi prif ffrydio hawliau dynol wrth ddatblygu polisi.

5.24. Dylid ystyried gwyro oddi wrth fodelau corffori presennol i safle lle mae buddion gwahanol fathau o gorffori yn cael eu dwyn ynghyd mewn Deddf Hawliau Dynol Cymru. Dyma a awgrymir gan nifer o sefydliadau tai sy'n dadlau dros ymgorffori'r hawl ryngwladol i dai digonol yng nghyfraith Cymru (Tai Pawb *et al* 2019).

5.25. Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan gyfranogwyr ymchwil hefyd yn codi'r cwestiwn o sut i ddewis hawliau dynol i'w hymgorffori. Gwnaeth nifer o gyfranwyr sylwadau ar yr ymgorfforiad detholus presennol o hawliau dynol fel gwadu amddiffyniad i rai grwpiau. Mae cytuniadau hawliau dynol a allai gael eu hymgorffori, er enghraifft, CRDP, CEDAW, yn cynnwys hawliau mewn meysydd sydd y tu allan i gwmpas cymhwysedd datganoledig ar hyn o bryd (er enghraifft, lloches, budd-daliadau lles, plismona, y lluoedd arfog, cysylltiadau llafur). Pe bai Cymru yn symud tuag at ymgorffori'r cytuniadau hyn yn uniongyrchol (ac eraill o bosibl fel yr ICESCR), byddai angen ystyried pa hawliau y dylid eu golygu er mwyn sicrhau bod yr hawliau a ymgorfforir o fewn cymhwysedd deddfwriaethol yng Nghymru. Mae mater tebyg wedi codi yn yr Alban lle mae Llywodraeth yr Alban yn ceisio ymgorffori hawliau dynol rhyngwladol yng nghyfraith yr Alban. Argymhellodd grŵp cynghori y dylid gweithredu Deddf Senedd yr Alban i dynnu hawliau o gytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig a gadarnhawyd gan y DU i gyfraith yr Alban, yn amodol ar y cyfyngiad y dylid arfer yr hawliau dan sylw yn yr ardaloedd hynny sydd dan gyfrifoldeb Senedd yr Alban yn unig (Grŵp Cynghori'r Prif Weinidog 2018: Argymhelliad 1). Argymhellodd y Grŵp Cynghori ymhellach broses o 'ymgysylltu â'r cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth i alluogi'r cyhoedd i gymryd perchnogaeth o'r hawliau sydd i'w cynnwys yn y Ddeddf' (ibid: 36/37). Er mwyn cwrdd â'r argymhellion hyn, sefydlodd Llywodraeth yr Alban Dasglu Cenedlaethol. Rydym yn gweld y dull

hwn fel ffordd ymlaen yng Nghymru (gweler 'Casgliadau' ac argymhelliad 1 a 25 isod.)

6. Casgliadau: Y bwlch cyflawni

Cyd-destun

6.1. Mae wedi hen ennill ei blwyf yn y llenyddiaeth bod 'bwlch gweithredu' parhaus rhwng dyheadau deddfwriaeth a pholisi cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, a'r realiti bywyd i unigolion, grwpiau cymdeithasol a chymunedau (EHRC 2018a, 2018b; Barrance 2018; Alston 2018; Archwilio Cymru 2020; Oxfam Cymru 2021). Mae cyni a diwygio lles, yn ogystal â thlodi ac anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol yng Nghymru, yn faterion arwyddocaol ynddynt eu hunain, ond hefyd fel ffactorau sy'n gwaethygu ac yn atgyfnerthu patrymau hirsefydlog gwahaniaethu ac anfantais sy'n effeithio yn benodol ar fenywod, cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, pobl anabl, pobl hŷn a phlant (EHRC 2018a). Mae'r llenyddiaeth yn tynnu sylw at ddiffyg adnoddau fel rhai sy'n cael effaith negyddol ar allu awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni amcanion cydraddoldeb a hawliau dynol a nodir mewn deddfwriaeth (EHRC 2018a; Nason *et al* 2020a; Archwilio Cymru 2020).

6.2. Gan fod problem y bwlch gweithredu yn cael sylw cynhwysfawr yn y llenyddiaeth bresennol nid yw'r ymchwil bresennol yn archwilio'r mater hwn ond yn hytrach mae'n canolbwyntio ar sut i wella gweithrediad a chanlyniadau. Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn rhoi nifer o fewnwelediadau i sut y gellir mynd i'r afael â phroblem y bwlch gweithredu. Ar ôl trafod y dystiolaeth gan gyfranogwyr ymchwil, mae'r adran hon yn myfyrio ar wahanol fecanweithiau i weithredu cydraddoldeb a hawliau dynol (a nodwyd o'r llenyddiaeth a chan gyfranogwyr): prif ffrydio cydraddoldeb a hawliau dynol; cynnwys pobl; ac arweiniad (trafodir asesiad effaith ar wahân, gweler 'Asesiad Effaith').

Tystiolaeth gan randdeiliaid: Y bwlch cyflawni

6.3. Gofynnodd ein harolwg ar-lein gyda rhanddeiliaid proffesiynol i ymatebwyr am heriau allweddol ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Cytunodd 70 y cant, h.y. 81 o 116 o ymatebwyr, fod y rhain yn cynnwys diffyg adnoddau i gefnogi gweithredu; cytunodd 76 y cant, h.y. 89 o 117 o ymatebwyr, ar yr angen i gryfhau

arweinyddiaeth ar gydraddoldeb a hawliau dynol; a chytunodd 81 y cant, h.y. 94 o 116 o ymatebwyr, bod sut i gynnwys y cyhoedd mewn penderfyniadau yn her allweddol.

6.4. Nododd cyfranogwyr ymchwil â phrofiad bywyd eu bod wedi profi anghydraddoldeb gan roi enghreifftiau, gan gynnwys rhwystrau i gael mynediad at ofal iechyd priodol; gwasanaethau iechyd meddwl; gofal cymdeithasol; tai; cyfiawnder; addysg neu hyfforddiant; cyflogaeth; budd-daliadau lles; a lleoedd cyhoeddus. Roeddent hefyd wedi profi digwyddiadau troseddau casineb; allgáu digidol; a theimlo wedi eu gwahardd a gwahaniaethu yn eu herbyn ym mhob rhan o fywyd. Ychydig o gyfranogwyr a oedd yn teimlo bod ganddynt yr wybodaeth a'r gefnogaeth i allu herio cyrff cyhoeddus pan oeddent wedi profi anghydraddoldeb.

6.5. Mae tystiolaeth a dderbyniwyd gan gyfweleion yn cadarnhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu gweithredu'n wan. Er bod cyfweleion unigol yn tueddu i adlewyrchu pryderon yn codi yn eu cylch gwaith eu hunain, mae'r dystiolaeth yn gyffredinol yn awgrymu datgysylltiad rhwng polisi ac arfer, er enghraifft:

'Mae rhywbeth yn digwydd, wyddoch chi, mae yna ddatgysylltiad rhwng polisi ac ymarfer.' (IV12)

'Gweithredu dwi'n meddwl, yn bennaf. A'r bwlch rhwng bwriad da a gweithredu nad aethpwyd i'r afael ag ef eto.' (IV18)

'Ar y math o lefel ehangaf, y bwlch mawr, mwyaf yw trosi'r holl rethreg yn realiti ac, wyddoch chi, mae gan Gymru ymrwymiad a fframwaith polisi gwych i gefnogi cydraddoldeb a hawliau dynol, mae yna gymaint, mae'r Mesur Plant, mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae yna, wyddoch chi, yr ymrwymiad newydd i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, ond mae yna fwlch gweithredu enfawr. Felly, ie, does dim digon o ffocws ar weithredu a chraffu ar yr hyn y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud mewn gwirionedd.' (IV1)

6.6. Codwyd gweithredu gwan fel pryder yn ystod y gweithdai ac yn y fforymau. Awgrymodd aelodau'r fforwm y gallai hyn fod yn rhannol oherwydd diffyg ymgorffori canlyniadau ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol mewn polisïau a strategaethau. Gwnaeth y rhai a gyfwelwyd sylwadau ar bwysigrwydd blaenoriaethu canlyniadau i fynd i'r afael â'r bwlch gweithredu:

'pwy sy'n cyflawni beth ar wahanol lefelau yw'r cwestiwn. Ac rwy'n credu mai dyna ble mae gennym fwlch, gan fynd yn ôl at y pwynt cynharach hwnnw ar weithredu. Mae gennym fwlch go iawn o ran deall sut i ffitio hyn i gyd at ei gilydd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ganlyniadau a hyd nes y byddwn yn blaenoriaethu'r hyn rydym yn ei gyflawni i Gymru ac ar ei chyfer, credaf y bydd y bwlch gweithredu yn parhau. A bydd anghydraddoldebau a materion hawliau dynol yn parhau i ddwysau.' (IV18)

6.7. Gan gyffwrdd â materion a drafodwyd yn yr adran flaenorol ('Deddfwriaeth'), gwnaeth y rhai a gyfwelwyd sylwadau ar ddiffyg atebolrwydd a'r diffyg eglurder ynghylch cyfrifoldeb am weithredu, er enghraifft:

'rydym yn canfod bod bwlch yn yr arfer o weithredu (...) o ran gweithredu'r polisïau hynny, mae'n aneglur iawn beth sy'n digwydd yno a phwy i'w dal yn atebol.' (IV 12)

6.8. Mae'r dystiolaeth gan bobl sydd â phrofiad bywyd yn nodi'r angen i staff uwch mewn sefydliadau cyhoeddus, byrddau ac aelodau etholedig gymryd cyfrifoldeb am sicrhau eu bod yn cynyddu cyfraniadau at hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da i bob cymuned yng Nghymru, a chyfleu hyn. ymrwymiad cryf a gweithredol yn fewnol ac yn allanol.'

6.9. Galwodd pobl â phrofiad bywyd ar bob sefydliad sector cyhoeddus â dros 250 o weithwyr, i fod ag o leiaf un swyddog cydraddoldeb a hawliau dynol amser llawn ar lefel uwch yn ychwanegol at swyddog cydgynhyrchu, ac i sefydliadau llai yn y sector cyhoeddus orfod dangos sut mae aelod o staff yn arwain ac yn cymryd cyfrifoldeb am gydraddoldeb a hawliau dynol.

6.10. Roedd mater arweinyddiaeth ar gydraddoldeb a hawliau dynol yn fater a godwyd gan gyfranogwyr gweithdy a chyfweleion fel her allweddol ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol, yn benodol nad yw arweinyddiaeth yn y meysydd hyn mor gryf ag y gallai fod, er enghraifft:

'Rwy'n credu'n angerddol fod yr hyn a ddaw o'r brig yn bwysig, a chredaf nad oes digon o arweinyddiaeth ar draws cyrff cyhoeddus yn gyffredinol sy'n fodlon ac yn barod i ddweud, "Mewn gwirionedd, mae cydraddoldeb a hawliau dynol wrth wraidd popeth a wnawn," ac yn rhy aml mae'n fath o, "Wel, ydyn, rydyn ni'n gwneud hynny draw acw, ac rydyn ni'n gwneud hynny i wirio nad ydyn ni wedi bod yn rhy ofnadwy.'" (IV9)

6.11. Yn un o'r gweithdai, awgrymwyd y gallai cael 'hyrwyddwyr hawliau dynol mewn sefydliadau' gynorthwyo i wneud cydraddoldeb a darparu hawliau dynol yn realiti, er enghraifft:

'Mae deddfau yn gosod fframweithiau, ond nid yw ymddygiad yn newid oni bai ei fod wedi'i fabwysiadu a'i integreiddio i mewn sefydliadau. Mae'n rhywbeth i fuddsoddi ynddo a'i bwrcasu trwy rolau hyrwyddwr mewn sefydliadau er mwyn sicrhau integreiddiad cywir yn hytrach na set o gyfarwyddiadau o fry.'

6.12. Mae tystiolaeth o'r gweithdai yn awgrymu'r angen i unigolion a sefydliadau 'gymryd rheolaeth a pherchnogaeth o'r agenda' ac y gallai hyn ofyn am 'gryn newid diwylliannol'. A hyn o'n harolwg ar-lein gyda rhanddeiliaid proffesiynol, yn gwneud pwynt tebyg:

'Mae angen mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â chydymffurfiaeth mewn sefydliad. Ni ddylid ei adael i Reolwyr Cydraddoldeb ac yn y blaen, ond gydag arweinwyr mewn sefydliad.'

6.13. Er bod y dystiolaeth a dderbyniwyd yn cadarnhau y dylai cryfhau arweinyddiaeth fod yn flaenoriaeth ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, mae hefyd yn pwysleisio bod angen i bobl â phrofiad bywyd neu 'arbenigwyr yn ôl profiad' lywio arweinyddiaeth ac mai 'cyd-gynhyrchu yw'r ffordd

ymlaen' (gweithdai). Mae'r dystiolaeth hon yn dangos bod pobl yn teimlo nad yw sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gwrando arnynt, a bod hyn yn gwaethgu anghydraddoldeb. Roedd y rhai â phrofiad bywyd yn teimlo bod ymgynghori yn aml yn rhy hwyr ac nad yw'n galluogi i gymunedau eu hunain ddylunio syniadau ac atebion newydd. Fe wnaethant bwysleisio'r angen i gynnwys cymunedau'n uniongyrchol, 'sicrhau bod amrywiaeth lawn Cymru'n cymryd rhan weithredol' gydag ymagweddau hyblyg at ymgysylltu 'gan ganolbwyntio ar brofiadau bywyd pobl', ac argymhell y dylid amlinellu cydgynhyrchu mewn canllawiau a dylai fod yn ofyniad pan fydd awdurdodau cyhoeddus yn 'datblygu a gweithredu'r holl ddeddfwriaeth, polisïau, strategaethau, cyllidebau, rhaglenni, cynlluniau gweithredu, gwasanaethau ac asesu effaith ym mhob sefydliad sector cyhoeddus, adran a maes polisi yng Nghymru.' Argymhellwyd hefyd y dylid cynnig hyfforddiant a gwybodaeth i'r rhai sy'n ymwneud â chydgyhyrchu fel y gallant gymryd rhan lawn wrth ddylunio a darparu polisi a gwasanaethau.

6.14. Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn awgrymu y gallai canllawiau cliriach, gan ganolbwyntio ar enghreifftiau mwy penodol yn hytrach nag egwyddorion cyffredinol, weithredu cyfraniad yn fwy effeithiol. Roedd sylwadau'r rhai a gyfwelwyd yn cynnwys:

'Rwy'n credu bod yr ymarfer diweddar gan yr (EHRC) yng Nghymru, lle buont yn edrych ar weithredu'r (PSED) a sut, roedd y dargyfeiriad oedd yn bodoli yn y sector cyhoeddus wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen canllaw llawer mwy penodol i wneud i hyn ddigwydd mewn ffordd gydlynol. Oherwydd mae hynny wedi dangos, os cofiaf yn iawn, y barnwyd nad oedd mwyafrif llethol y cyrff yn cydymffurfio'n llwyr â'r ddyletswydd yn ei hysbryd a'i geiriau. Ac nid o reidrwydd trwy ddiffyg ewyllys, dim ond trwy ddargyfeirio dehongliad.' (IV20)

'nid yw'r codau ymarfer yn ddigon clir wrth ddod allan o Lywodraeth Cymru, ac nid ydyn nhw mewn gwirionedd yn tynnu sylw at y Ddeddf Hawliau Dynol, y Ddeddf Cydraddoldeb ac amryw o bethau eraill, felly pan fydd awdurdodau cyhoeddus yn defnyddio'r cod ymarfer hwnnw a'r amrywiol becynnau cymorth eraill, dwi ddim yn credu bod digon o wybodaeth yno.' (IV10)

'Rwy'n credu efallai bod angen arweiniad mwy penodol yn hytrach nag egwyddorion lefel uchel mewn rhai agweddau.' (IV20)

'cydgrynhoi rhywfaint o'r canllawiau a dod â'r cyfan at ei gilydd rwy'n credu a fyddai'n ddefnyddiol.' (IV5)

6.15. Yn ychwanegol at yr her o ennyn diddordeb pobl â phrofiad bywyd, a'r angen am ganllawiau, nododd cyfranogwyr y gweithdy ac ymatebwyr yr arolwg (rhanddeiliaid proffesiynol) adnoddau, neu ddiffyg adnoddau yn fwy penodol, fel her allweddol ar gyfer gweithredu. Roedd sylwadau ymatebwyr yr arolwg ar-lein yn cynnwys:

'Dylai awdurdodau cyhoeddus gael eu cefnogi yn eu hymdrechion i sicrhau newid trwy gymorth ariannol a darpariaeth adnoddau dynol gan Lywodraeth Cymru.'

'Yr her allweddol ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru yw parhad cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb a hawliau dynol, gan fethu ar yr un pryd i danategu addewidion a fynegwyd gyda'r seilwaith a'r adnoddau angenrheidiol i'w cefnogi.'

6.16. Mae'r ymchwil a wnaed gyda phobl â phrofiad bywyd yn nodi'r angen i bob sefydliad sector cyhoeddus gael ei annog i fuddsoddi mwy mewn cydraddoldeb a hawliau dynol. Dadleuodd cyfranogwyr ymchwil y dylid ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sector cyhoeddus fuddsoddi mewn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol ym mhob adran, gwasanaeth a maes ac i ddangos canlyniadau'r buddsoddiad hwn.

6.17. Mae'r dystiolaeth gan bobl ifanc yn dangos eu bod yn poeni am 'symbolaeth' ac 'arwynebolrwydd' ac na wrandawir arnynt, a dim ond ar ôl i benderfyniadau allweddol gael eu gwneud yr ymgynghorir â hwy. Roedd y grwpiau ffocws yn teimlo'n gryf iawn bod angen i hyn newid. Rydym yn trafod cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn adran nesaf yr adroddiad hwn. Y dystiolaeth gan y grwpiau ffocws gyda phobl ifanc yw y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Cymru fel gwlad

sy'n gyfeillgar i blant gan ymgorffori hawliau plant a phobl ifanc er mwyn llywio polisïau a deddfwriaeth trwy 'reoleiddio effeithiol' i sicrhau cydymffurfiaeth a chyflawniad.

Prif ffrydio

6.18. Mae'r dystiolaeth yn nodi'r angen am arweinyddiaeth gref i yrru gweithredu cydraddoldeb a hawliau dynol ymlaen. Rhesymodd y GER/WG y gallai 'gweledigaeth gyfun' ar gyfer cydraddoldeb, llesiant a hawliau dynol fod yn sbardun newid a chanlyniadau gwell a nododd brif ffrydio cydraddoldeb fel mecanwaith i ymgorffori gweithredu cadarnhaol ar gydraddoldeb (Parken 2019: 10; Chwarae Teg 2019 a 2018). Dadl yr EHRC (Yr Alban) yw bod prif ffrydio cydraddoldeb yn arwain at gydraddoldeb yn dod yn rhan o strwythurau, ymddygiadau a diwylliant awdurdodau cyhoeddus, ac yn cyfrannu at welliant parhaus a pherfformiad gwell (EHRC 2016).

6.19. Byddai prif ffrydio cydraddoldeb yn helpu sicrhau bod datblygu polisi yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei lywio gan ddata wedi'i ddadgyfuno sy'n berthnasol i grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys data ansoddol gan bobl â nodweddion gwarchodedig, a bod polisi'n cael ei gefnogi gan adnoddau i gefnogi gweithredu (Rees 1998; Parken a Rees 2003; EHRC 2016; Parken 2018, 2019; Chwarae Teg 2018, 2019;). Mae'r WSEDs yn gyfle i hyrwyddo prif ffrydio cydraddoldeb. Daeth adroddiad gan EHRC Cymru yn 2014 i'r casgliad bod y WSEDs cyfredol yn dod ag eglurder i'r PSED gan gynnwys trwy gysylltu'r broses â chanlyniadau (EHRC 2014a). Fodd bynnag, disgrifiodd y GER/WG y PSED fel 'fersiwn wan o'r cysyniad o brif ffrydio rhyw' a daeth i'r casgliad nad oedd y WSEDs cyfredol 'wedi arwain at amcanion neu gynlluniau uchelgeisiol, ac wedi hynny nad (oeddent) wedi cynhyrchu'r gwelliant a ragwelwyd mewn canlyniadau', yn rhannol o ganlyniad i'r defnydd o'r fformweiddiad 'sylw dyledus' i osod dyletswyddau ar awdurdodau perthnasol (Parken 2019: 24 a 4).

6.20. Yn yr Alban, mae Llywodraeth yr Alban yn hyrwyddo gweledigaeth ar gyfer gweithredu cydraddoldeb trwy annog awdurdodau cyhoeddus i ddefnyddio'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol (Rhan 1, adran 1, EA 2010) i brif ffrydio cydraddoldeb ym mhob penderfyniad (Llywodraeth yr Alban 2018). Mae'r GER/WG

wedi nodi'r WSEDs a chyflwyniad y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru fel cyfleoedd i gryfhau prif ffrydio cydraddoldeb (Parken 2019).

6.21. Gall prif ffrydio hefyd gefnogi gweithredu hawliau dynol (UNCRC 2003: para. 64; UNCRDP 2018: para.14). Ymhlith y prosesau sy'n gysylltiedig â phrif ffrydio hawliau dynol mae: hyrwyddo a chydlynu hyfforddiant hawliau dynol, meithrin gallu, a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau sy'n hyrwyddo hawliau dynol (OHCHR 2002; Grŵp Datblygiad Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig 2003; DIHR 2007). Mae cynllun gweithredu hawliau dynol yn gyfraniad tuag at brif ffrydio (ibid). Hefyd yn gysylltiedig â phrif ffrydio mae 'dull hawliau dynol' fel ffordd o weithio i sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau polisi (OHCHR 2002; DIHR 2007; SHRC n.d.).

6.22. Sylfaen 'dull hawliau dynol' yw y dylai safonau hawliau dynol arwain pob rhaglennu ym mhob sector ac ym mhob cam o'r broses raglennu, ac y dylai holl raglenni'r llywodraeth hyrwyddo gwireddu hawliau dynol ymhellach (ibid). Er bod 'dull hawliau dynol' y cytunwyd arno'n gyffredinol, mae gwahanol fodelau wedi'u datblygu (SHRC n.d.; OHCHR 2002; Grŵp Datblygiad Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig 2003; UNICEF 2004: atodiad B; DIHR 2007; OPC 2015; CPC 2016; Y Comisiwn Ansawdd Gofal 2019). Mae elfennau allweddol 'dull hawliau dynol' yn cynnwys:

- Arweinyddiaeth ar y lefel uchaf.
 - Cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu.
 - Cyfranogiad gan bobl sydd â diddordeb.
 - Monitro a gwerthuso canlyniadau, gan gynnwys data wedi'i ddadgyfuno i fesur cynnydd ar gyfer gwahanol grwpiau.
 - Asesiad Effaith Hawliau Dynol (HRIA).
 - Sicrhau adnoddau digonol i ddatblygu gallu ymysg swyddogion i ymgymryd â pholisi ar hawliau dynol.
 - Sicrhau bod cyllidebau'n ddigonol i gefnogi gweithredu a sicrhau canlyniadau hawliau dynol.
- (ibid)

6.23. Mae gan brif ffrydio cydraddoldeb a hawliau dynol nodweddion cyffredin, sef: blaenoriaethu arweinyddiaeth: cefnogi gallu; sicrhau adnoddau digonol: monitro gan ddefnyddio data wedi'i ddadgyfuno; cynnwys pobl sydd â diddordeb, a ffocws ar ganlyniadau. Felly mae prif ffrydio yn gyfle i alinio cydraddoldeb a hawliau dynol wrth datblygu polisi i gefnogi gweithredu a gwella canlyniadau.

Cynnwys pobl

6.24. Nodwedd allweddol o brif ffrydio (cydraddoldeb a hawliau dynol) yw cynnwys pobl. Mae'r WSEDs yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus rhestredig gynnwys y rhai sy'n cynrychioli buddiannau pobl ag un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig wrth osod amcanion cydraddoldeb (Rheoliad 4). Mae canllawiau ar WFGA 2015 yn nodi y dylai awdurdodau cyhoeddus a PSBs 'gynnwys pobl a chymunedau' mewn penderfyniadau sy'n newid y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt (Llywodraeth Cymru 2016a:19). Mae'r canllawiau mwyaf manwl yn y Cod Ymarfer ar SSWA 2014 sy'n nodi'r angen i gynnwys pobl ar bob cam o ddylunio a gweithredu gwasanaethau ac ar gyfer 'trefniadau cadarn' i sicrhau ffocws ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau (Llywodraeth Cymru 2015: 12). Mae'r Cod yn nodi bod dull 'cyd-gynhyrchu' yn cefnogi ac yn grymuso pobl i gymryd rhan, gan gynnwys cymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain a chyfrannu atynt (llesiant yn y cyd-destun hwn yw llesiant unigol); a sicrhau bod ymarferwyr yn gweithio mewn partneriaeth â phobl i gyflawni canlyniadau personol ar lefel unigolyn a gwasanaeth (ibid: 52).

6.25. Er bod arweiniad i gefnogi awdurdodau cyhoeddus i gynnwys pobl, mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn nodi'r angen i wybodaeth fanylach fod ar gael ar 'gyd-gynhyrchu' a chynnwys pobl. Mae'r canllawiau cyfredol yn fwyaf manwl mewn perthynas â deddfwriaeth (SSWA 2014) sy'n blaenoriaethu llesiant unigolion. Rydym yn gweld yr angen i ganllaw fynd ymhellach i fynnu a chefnogi awdurdodau cyhoeddus i gynnwys pobl mewn datblygu polisi.

6.26. Mae canllawiau, statudol neu anstatudol, yn rhan o'r fframwaith sy'n cyfarwyddo ac yn dylanwadu ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn nodi canllawiau fel cyfle i gryfhau gweithredu cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae arweiniad sylweddol ar gydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant ar

gael i awdurdodau cyhoeddus. Rydym wedi crynhoi'r hyn yr ydym wedi'i nodi fel y canllawiau mwyaf arwyddocaol isod.

Canllaw ar gydraddoldeb

6.27. Mae'r EHRC wedi cyhoeddi nifer o ganllawiau ar y PSED a'r WSEDs. Mae'r rhain yn cynnwys: canllawiau technegol ar y PSED, sy'n egluro pwrpas a chymhwysiad y PSED i gynnwys canllawiau ar yr hyn y mae'n ei olygu i gael 'sylw dyledus' (EHRC 2014b); ar EIA (EHRC 2014c); ac, ar ymgysylltu â phobl sy'n cynrychioli'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol (EHRC 2014d). Mae'r canllawiau technegol yn cydnabod y cysylltiad rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol, ond mae'n methu â darparu arweiniad ar sut y gellir defnyddio'r cysyniadau hyn gyda'i gilydd wrth gynllunio polisi, gan nodi:

'Oherwydd y berthynas agos rhwng hawliau dynol a chydraddoldeb, mae'n arfer da i'r rhai sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus i ystyried cydraddoldeb a hawliau dynol gyda'i gilydd wrth lunio polisiâu cydraddoldeb neu hawliau dynol. **Mae'r canllaw hwn yn mynd i'r afael â rhwymedigaethau cydraddoldeb yn unig.**'

(EHRC 2014b: 10; ychwanegwyd y pwyslais)

6.28. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw ymlaen llaw ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mae canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020 yn cyfeirio at 'Fframwaith Mesur ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol' (EHRC 2017) yr EHRC fel sail ar gyfer nodi ardaloedd anfantais economaidd-gymdeithasol, ond nid yw'n darparu unrhyw wybodaeth bellach ar sut mae hawliau dynol yn berthnasol na sut gellir eu defnyddio i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol (Llywodraeth Cymru 2020b). Mae canllawiau anstatudol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021 yn egluro (yn gryno) HRA 1998 (Llywodraeth Cymru 2021b). Nid yw hyn yn cynnwys canllawiau penodol ar sut y dylid gweithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i gefnogi neu ddatblygu hawliau dynol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi fframwaith craffu ar gyfer y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol (Llywodraeth Cymru 2020c). Mae hyn yn cyfeirio at y PSED ond mae'n gyfyngedig i egluro y dylai'r ddyletswydd 'sylw dyledus' sy'n berthnasol i'r

ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fod yn gyfarwydd i awdurdodau cyhoeddus fel y safon a ddefnyddir yn y PSED.

6.29. Mae 'canllawiau mapio' ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, y PSED a WFGA 2015 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021 yn nodi bod llawer o'r 46 o ddangosyddion llesiant a ddefnyddir i fesur cynnydd yn erbyn nodau llesiant WFGA 2015 'yn mesur agweddau sy'n ymwneud â Chymru sy'n fwy cyfartal' (Llywodraeth Cymru 2021a: 4). Mae'r canllaw hwn yn trafod cyfleoedd i alinio prosesau sefydliadol cyffredin mewn perthynas â chynllunio llesiant, y PSED, a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, sef: gosod amcanion; ystyried cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau; ymgysylltu, cymryd rhan ac ymgynghori; atebolrwydd a chraffu; ac olrhain ac adrodd ar effaith (ibid). Mae'r canllawiau'n awgrymu bod cyrff cyhoeddus yn sefydlu amcanion a chynlluniau gweithredu ar y cyd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i gyflawni'r dyletswyddau PSED a llesiant sy'n canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau ac yn adlewyrchu'r rhain mewn cynlluniau corfforaethol a blynyddol (Llywodraeth Cymru 2021a). Mae hefyd yn argymhell bod cyrff cyhoeddus yn sefydlu'r un llinell amser ar gyfer gosod amcanion cydraddoldeb ac amcanion llesiant PSED (ibid). Mae'r canllaw yn awgrymu camau i integreiddio cydraddoldeb wrth roi'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar waith, mae'r rhain yn cynnwys ystyried 'Fframwaith Mesur Cydraddoldeb a Hawliau Dynol' yr EHRC i sefydlu blaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gwell (ibid). Mae'r canllawiau'n pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu ac ymgynghori ag aelodau o'r gymuned, a chynnwys aelodau o'r broses wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys trwy gymhwyso canllawiau EHRC ar y PSED a chymhwyso'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (ibid).

6.30. Er bod y canllawiau mapio yn cyfeirio sylw at gytuniadau rhyngwladol 'ynghylch' hawliau economaidd-gymdeithasol, nid yw'n ymhelaethu ar sut y dylid defnyddio'r rhain i lywio'r broses o weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol (ibid: 11). Yn ogystal, mae'r canllawiau dros dro yn cyfeirio awdurdodau cyhoeddus at Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar sut i ystyried llesiant wrth sefydlu amcanion i gyflawni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol (FGC (a), n.d.). Mae Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod y 'pum ffordd o weithio' a argymhellir gan yr FGC i helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni nodau llesiant

WFGA 2015 (o ran: cydbwysu anghenion tymor byr a thymor hir mewn ffordd gynaliadwy; gweithio mewn ffordd integredig; pobl; cydweithredu i gyflawni amcanion llesiant, a, gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu (ibid). Mae Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol yn argymhell bod cyrff cyhoeddus yn meddwl am sut mae prosiectau'n cefnogi'r PSED ac yn cynnig rhywfaint o fewnwelediad i effaith bosibl anghydraddoldeb ar nodau llesiant a nodwyd, ond nid yw'n trafod sut mae hawliau dynol allai gael eu heffeithio (FGC (b), n.d.).

6.31. Cyhoeddwyd y canllawiau diweddaraf ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru ym mis Mawrth 2021 (Llywodraeth Cymru 2021d). Mae'r canllaw statudol hwn yn cyfeirio'n uniongyrchol at y cysylltiad rhwng hawliau dynol a chydraddoldeb:

'Mae cysylltiad annatod rhwng cydraddoldeb a gwahaniaethu â hawliau dynol. Mae gan anfantais economaidd-gymdeithasol y potensial i ddifetha gallu rhywun i gyrchu a mwynhau'r hawliau dynol sydd ar gael iddynt yn y DU...' (ibid 14)

6.32. Mae'r canllaw hwn yn ei gwneud yn glir y bydd deddfwriaeth cydraddoldeb ac egwyddorion hawliau dynol yn 'cefnogi cyrff cyhoeddus i ddeall yn well sut mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn rhyngweithio â nodweddion gwarchodedig pobl' (ibid),. Mae'r canllawiau'n canolbwyntio'n bennaf ar nodi ffynonellau hawliau dynol (cytuniadau) ac egluro sut mae gwrthod hawliau yn arwain at anfantais economaidd-gymdeithasol. Unwaith eto, nid oes gan y canllaw gyfeiriad na chyfarwyddyd ar fecanweithiau (prif ffrydio, HRIA, dull hawliau dynol), a allai gyfrannu'n gadarnhaol tuag at hawliau dynol fel sylfaen ar gyfer gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

Canllaw ar hawliau dynol

6.33. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ganllawiau 'dalenni ffeithiau' esboniadol a chanllawiau 'sut i' ar ALNA 2018 (er enghraifft Llywodraeth Cymru 2018a, 2018b). Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am weithdrefnau y gellid eu cyflwyno, na chymau y gellir eu cymryd i weithredu'r hawliau

dynol y mae'n ofynnol eu hystyried pan fydd awdurdodau perthnasol yn cymryd camau i weithredu eu dyletswyddau statudol o dan y ddeddfwriaeth.

6.34. Mae Cod Ymarfer 2014 SSWA (Llywodraeth Cymru 2015), yn cyfeirio at y CRC ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig, ac yn darparu dolenni i ddarllenwyr i'r dogfennau hyn. Mae'n nodi lle mae'r term 'rhaid' yn cael ei ddefnyddio mae'r canllaw yn ofyniad (ibid: para.5). Mae'r canllaw yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol 'hyrwyddo hawliau dynol pobl' trwy roi sylw dyledus i'r CRC ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig (ibid: para. 347) ac mae'n ychwanegu bod yn rhaid i awdurdodau hefyd roi sylw dyledus i'r CRDP (ibid: para 65-67). Effaith hyn yw ychwanegu'r hawliau a nodir yn y CRDP at yr hawliau dynol sy'n berthnasol o dan SSWA 2014. Mae'r Cod yn egluro bod ystyr sylw dyledus a ddefnyddir yn adran 7 o SSWA 2014 yr un peth ag 'ystyried' yn adran 6 o'r ddeddfwriaeth a darperir dolen i wybodaeth esboniadol am ofynion sylw dyledus (ibid: para. 64). Mae hyn yn anghywir. Mae ychwanegu'r gair 'dyledus' yn gwneud gwahaniaeth i natur y rhwymedigaeth, gan bwysleisio ansawdd yr ystyriaeth y mae'n rhaid ei rhoi i unrhyw fater y mae angen ei ystyried (*R (MS) v Cyngor Metropolitan Oldham* (2010) EWHC(Admin) 802). Er bod y Cod yn cynnwys cyfeiriad at y CRC ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig wrth drafod EIA, nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol fynd i'r afael â'r hawliau a warantir gan y cytuniadau hynny pan gynhelir EIA.

6.35. Mae codau ymarfer eraill a gyhoeddwyd mewn perthynas â SSWA 2014 yn cyfeirio'n anghyson at sut mae hawliau dynol yn berthnasol i wahanol feysydd ymarfer gofal cymdeithasol ac i EIA. Er enghraifft, mae canllawiau statudol ar ddiogelu yn atgoffa awdurdodau perthnasol o'r dyletswyddau sylw dyledus o dan SSWA 2014 (Llywodraeth Cymru 2016b). Mae'r canllaw hwn hefyd yn cyfeirio sylw at hawliau dynol penodol o dan yr ECHR fel enghreifftiau o hawliau a ddefnyddir gan SSWA 2014 (h.y. erthyglau 2, 3, 5, 6 ac 8 ECHR), ond heb esbonio pam mae'r rhain yn cael eu dewis a hepgor cyfeiriad at hawliau a nodir yn y cytuniadau hawliau dynol eraill sy'n berthnasol i arfer swyddogaethau o dan SSWA 2014 (ibid).

Canllaw ar lesiant

6.36. Mae canllawiau statudol ar WFGA 2015 yn awgrymu bod y ffocws ar amcanion tymor hir (fel sail llesiant) yn cefnogi ymrwymïadau a wnaed yn y PSED ac i hawliau plant (Llywodraeth Cymru 2016a). Nid yw'r canllawiau'n manylu ar sut y gallai'r PSEDs neu'r hawliau dynol yn gyffredinol gael eu hintegreiddio i brosesau cynllunio neu adrodd sy'n ofynnol gan WFGA 2015. Fodd bynnag, mae canllawiau ar WFGA 2015 sydd wedi'u hanelu at gyrff cyhoeddus yn canolbwyntio ar hawliau plant ac yn nodi bod cyrff cyhoeddus:

'yn cael eich annog yn gryf i ystyried sut y gallwch chi gefnogi plant a phobl ifanc i wireddu eu hawliau, a sut y gallant gymryd rhan a chyfranogi, wrth osod eich amcanion llesiant a sut mae'r agweddau hyn yn cysylltu â'r nodau llesiant.' (Llywodraeth Cymru 2016c: 12)

6.37. Mae'r canllaw hwn hefyd yn archwilio cysylltiadau rhwng cydraddoldeb a gosod amcanion llesiant. Yma mae'r canllawiau'n fwy penodol am y mecanwaith (EIA) a allai hwyluso'r aliniad hwn, yn ogystal ag wrth adrodd o dan WFGA 2015, gan argymhell bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio dull 'integredig' i ystyried sut mae eu hamcanion cydraddoldeb yn cefnogi cyflawni eu hamcanion Llesiant (ibid: 11). Mae'r canllawiau ar WFGA 2015 a gyhoeddwyd ar gyfer PSBs yn nodi y gallai'r amcanion cydraddoldeb a nodir yn SEP Llywodraeth Cymru helpu byrddau i nodi gweithredoedd ac amcanion i'w 'helpu i ddiogelu hawliau'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig' (Llywodraeth Cymru 2016d: 22,). Fodd bynnag, y ffocws 'hawliau' yw hawliau plant, gan gyfeirio at ddistyllu hawliau dynol plant fel y'u nodir yn y CRC yn 'Saith Nod Craidd' (ibid: 23) gan gyfeirio at: blynyddoedd cynnar; addysg, iechyd a rhyddid rhag camdriniaeth; chwaraeon a hamdden; cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau; cartref a chymuned ddiogel; a sicrhau nad yw plant dan anfantais oherwydd tlodi.

Dogfennau cyflawni, cynlluniau ac ati

6.38. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno fframweithiau eraill y gellir eu hystyried yn cefnogi cydraddoldeb a gweithredu hawliau dynol. Gwnaethom adolygu nifer fawr o'r rhain yn ystod yr adolygiad llenyddiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru sy'n gwneud nifer o

ymrwymiadau cryf i gryfhau a datblygu hawliau dynol, ac sy'n nodi nifer o feysydd anghydraddoldeb blaenoriaeth y mae angen mynd i'r afael â hwy (Llywodraeth Cymru 2020L: 4 a 40). Mae nifer o'r rhain yn faterion a godwyd fel diffygion mewn cydraddoldeb a hawliau dynol gan yr EHRC yn 'Ai yw Cymru'n Decach?' (EHRC 2018a). Er bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynrychioli ymrwymiad cadarn i gysylltu cydraddoldeb a hawliau dynol trwy weithredu ar faterion anghydraddoldeb yng Nghymru, mae'n gadael i'r manylion gael eu gweithio allan trwy fframweithiau cynllunio a chyflawni parhaus.

6.39. Byddai'n anymarferol trafod yr holl bolisïau, strategaethau neu gynlluniau gweithredu perthnasol y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio arnynt ar y pwynt hwn. Yn hytrach, mae'r rhan hon yn canolbwyntio ar ddetholiad o ddogfennau fframwaith presennol ac 'mewn datblygiad' yr ydym wedi'u nodi fel cyfleoedd i flaenoriaethu cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r rhain yn cynnwys Cynllun Plant 2014 (Llywodraeth Cymru 2014) sy'n nodi CRIA fel math o HRIA, sy'n gyson â phrif ffrydio. Mae'r cynllun hefyd yn cefnogi meithrin gallu trwy hyfforddiant i swyddogion, ac atebolrwydd trwy fecanwaith cwynion (Llywodraeth Cymru 2014). Fodd bynnag, nododd adroddiad ar gyfer EHRC Cymru yn 2018 wendidau wrth weithredu CRIA a'r diffyg ymgysylltiad â'r mecanwaith cwynion gan blant neu eu cynrychiolwyr (Hoffman ac O'Neill 2018). Mae'r Cynllun yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a gellid ei ddiweddarau i ganolbwyntio'n fwy cadarn ar brif ffrydio hawliau dynol (Llywodraeth Cymru 2021b).

6.40. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni 'Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol' (Llywodraeth Cymru 2021c). Mae papur paratoadol yn cyfeirio at Gynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru fel canoli cydraddoldeb a hawliau dynol yng 'ngweledigaeth a gwaith' Llywodraeth Cymru (ibid: para. 8), ond nid yw'n cyfeirio at y CERD fel fframwaith ar gyfer cydnabod hawliau dynol yng nghyd-destun gweithredu ar gydraddoldeb hiliol, ac nid yw ychwaith yn ymrwymo i ddefnyddio CERD i fynd i'r afael â'r bwlch gweithredu neu i sicrhau cyd-ddealltwriaeth o sut mae hiliaeth yn effeithio ar gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau fodd bynnag y cyfeirir at CERD yn y cynllun gweithredu drafft: sylwadau ar adroddiad drafft, derbyniwyd 5 Mawrth 2021. Fodd bynnag, mae'r papur yn ymrwymo

Gweinidogion Cymru i ddull o gynllunio camau gweithredu sy'n adlewyrchu cydraddoldeb a hawliau dynol prif-ffrydio, gan gynnwys trwy: dynnu ar arbenigedd y rhai sydd â phrofiad bywyd i lywio'r cynllun, gan ystyried unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r cynllun wrth ei gyllidebu, datblygu dangosyddion i fesur perfformiad, a defnyddio tystiolaeth berthnasol i lywio ei weithredoedd.

6.41. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni Cynllun Gweithredu LGBTQ+ (Welsh Government 2020d; Stonewall Cymru 2020). Ymhlith y blaenoriaethau a nodwyd mewn papur ar y cynllun mae: ffocws drwyddo draw ar ddiwallu anghenion grwpiau yn y gymuned LGBTQ+ sy'n profi ymyleiddio ar sawl ochr; diddordebau hunaniaethau fel pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol LGBTQ+, menywod LGBTQ+ a phobl anabl LGBTQ+; a, mynd i'r afael â sut y gallai anghydraddoldebau sefydlog a phresennol a brofir gan grwpiau ymylol (gan gynnwys pobl LGBTQ+) effeithio ar brofiadau'r grwpiau hyn wrth gynllunio adferiad o COVID-19 (ibid). Er nad yw'r cynllun wedi'i gyhoeddi eto, mae gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau y bydd yn mynd i'r afael â materion troseddau casineb homoffobig, deuffobig a thrawsffobig yng Nghymru, a bydd yn ceisio sicrhau bod pobl LGBTQ+ yn cymryd rhan lawn mewn addysg, ac yn y gweithle, a bod iechyd a gofal cymdeithasol yn gwbl gynhwysol (e-bost 29^{ain} Ebrill 2021).

6.42. Mae 'Gweithredu ar Anabledd: yr hawl i fyw'n annibynnol a chynllun gweithredu' Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n uniongyrchol at y CRDP, ac at y CRC a'r PSED (Llywodraeth Cymru 2019b). Fodd bynnag, mae'r cyfeiriadau hyn yn aml yn ddisgrifiadol gydag esboniad cyfyngedig o sut y dylai gweithredoedd o dan y cynllun ystyried hawliau dynol, neu sut y gellid defnyddio hawliau dynol fel targedau canlyniadau. Mae'r fframwaith yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i 'welliant parhaus yn y modd y mae Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau mewn perthynas â'r (CRDP)', gan gynnwys 'gweithio'n weithredol' i ystyried sut y gallai'r CRDP a chonfensiynau eraill y Cenhedloedd Unedig gael eu hymgorffori yn fwyaf effeithiol yng nghyfraith Cymru' (ibid: 29). Mae hefyd yn nodi pwysigrwydd canllawiau, gan gynnwys canllawiau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth, i wella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o faterion a hawliau pobl anabl (ibid: 33).

Synthesis: Y bwlch cyflawni

6.43. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn dangos yn glir bod gweithrediad gwan cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael ei ystyried i fod yn broblemus, ac mae awydd am arweinyddiaeth gryfach, gwell adnoddau, mwy o gyfranogiad gan bobl, a mwy o arweiniad i gefnogi gweithredu. Mae'r adran hon wedi trafod mecanweithiau cydnabyddedig i gefnogi gweithredu, gan gynnwys trwy nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a chanlyniadau, a chynnwys pobl. Yn hyn o beth, mae arweiniad a chynllunio strategol yn gyfle i gydlynu, integreiddio ac ymgorffori, h.y. prif ffrydio cydraddoldeb a hawliau dynol. Maent hefyd yn gyfle i ddangos arweinyddiaeth yn y meysydd hyn.

6.44. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau a'r strategaethau cyfredol yr ydym wedi'u hadolygu yn cynorthwyo i ddeall y berthynas rhwng y cysyniadau hyn, neu â llesiant. Problem fwy dyrys yw er bod y canllawiau'n cydnabod cysylltiadau rhwng cydraddoldeb, hawliau dynol a Llesiant, dim ond arweiniad cyfyngedig iawn y mae'n ei ddarparu ar sut y gallai awdurdodau cyhoeddus alinio neu integreiddio cynllunio a darparu ar draws y tri maes. Rydym yn nodi tueddiad i gyfeirio at, yn hytrach na gofyn am ddull cyfannol o ymgorffori cydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys ochr yn ochr â llesiant. Mae tuedd hefyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru i gyfeirio at hawliau dynol ar lefel gyffredinol, neu i gyfeirio at hawliau plant yn unig (o ganlyniad i RCYPM 2011 yn ôl pob tebyg) heb ei gwneud yn ofynnol i hawliau penodol gael eu blaenoriaethu nac egluro sut y gallai'r rhain fod yn berthnasol i gynllunio a chyflawni.

6.45. Mae Comisiynydd Plant Cymru (CPC) wedi cynhyrchu canllaw i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru ar 'ddull hawliau plant' (is-set o 'ddull hawliau dynol' (CPC 2016). Mae hyn yn nodi pum egwyddor i arwain awdurdodau cyhoeddus wrth arfer eu swyddogaethau cynllunio a darparu gwasanaeth, sef: ymgorffori hawliau plant, cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu, grymuso plant, cyfranogi ac atebolrwydd. Mae'r un dull egwyddorol wedi'i fabwysiadu mewn canllaw, unwaith eto ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, a gynhyrchwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru (OPC) (OPC 2015). Mae'r OPC a CPC wedi cyhoeddi canllawiau sy'n rhoi enghreifftiau ymarferol o sut y gellir rhoi'r egwyddorion ar waith (OPC 2015; CPC 2016, 2017). Defnyddiodd yr FGC a CPC yr egwyddorion i ddatblygu canllawiau ar y cyd ar y

berthynas rhwng llesiant a hawliau plant (FGC a CPC, n.d.). Mae'r dull o integreiddio hawliau dynol a ddatblygwyd gan CPC a'r OPC, ac a fabwysiadwyd gan yr FGC mewn canllawiau ar lesiant, yn darparu ar gyfer a blaenoriaethu cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu ac felly mae'n gyfle i ddod â hawliau dynol, cydraddoldeb a llesiant ynghyd wrth ddatblygu a darparu polisi cyhoeddus.

6.46. Mae argymhellion perthnasol o dan: 'Cynnwys pobl â diddordeb' a 'Chanllawiau' (gweler Tabl 1 isod). Mae'r adran nesaf yn trafod mecanwaith arall a nodwyd yn y llenyddiaeth fel allwedd i weithredu cydraddoldeb a hawliau dynol yn llwyddiannus, h.y. asesu effaith.

7. Casgliadau: Asesiad effaith

Cyd-destun

7.1. Mae asesiad effaith yn nodwedd sefydledig o ddatblygu polisi yng Nghymru, a daeth i'r amlwg fel mater allweddol i'w drafod ymhlith cyfranogwyr ymchwil. Fel agwedd ar brif ffrydio, mae EIA yn fecanweithiau allweddol i gefnogi gweithredu cydraddoldeb a hawliau dynol (Harrison a Goler 2008; SHRC 2010; Harrison 2011; EHRC 2014c; Chwarae Teg 2018, 2019; DIHR 2016; Parken 2018, 2019; Hoffman 2020). Mae'r llenyddiaeth yn disgrifio asesiad effaith fel proses ailadroddol i lywio datblygiad polisi trwy ystyried tystiolaeth berthnasol, gan gynnwys o'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio gan bolisi, a thrwy fynnu dadansoddiad myfyriol o effaith debygol cynnig polisi ar grwpiau, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig (Harrison 2011; DIHR 2016; Payne 2019; UN HRC 2019; Hoffman 2020). Mae HRIA ac EIA yn helpu i ragfynegi effaith cynnig ar gyfer deddfwriaeth, polisi neu gamau gweithredu ar wahanol grwpiau, gan gynnwys grwpiau gwarchodedig, ac yn darparu sylfaen dystiolaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau i gefnogi prif ffrydio cydraddoldeb a hawliau dynol (ibid). Os caiff ei ddefnyddio'n iawn, gall HRIA ac EIA fod yn drawsnewidiol trwy hyrwyddo hawliau dynol a chydaddoldeb yn rhagweithiol wrth ddatblygu polisi (OECD 2018; Payne 2019; Hoffman 2020).

7.2. Tra gall dulliau amrywio, mae'r llenyddiaeth yn cadarnhau nifer o gamau craidd ar gyfer EIA a HRIA (Ruggie 2007; SHRC 2010; De Schutter 2011; DIHR 2016; UN HRC 2019; Hoffman 2020). Mae'r rhain yn cynnwys: cychwyn yn gynnar yn y cylch polisi i ganiatáu amser ar gyfer gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i bolisi; adnoddau digonol (gan gynnwys meithrin gallu); asesiad wedi'i lywio gan dystiolaeth berthnasol, gan gynnwys data ansoddol a meintiol; cynnwys pobl sydd â diddordeb a phrofiad bywyd; dadansoddiad gwybodus ac arbenigol; a chyhoeddi canlyniadau (ibid).

7.3. Disgrifiwyd asesiad effaith gan Lywodraeth Cymru fel 'ffordd strwythuredig i ystyried y ffactorau sy'n golygu bod ein polisïau'n effeithio ar fywydau gwahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd' (Llywodraeth Cymru n.d.) Mae'r WSEDs yn gwneud EIA yn orfodol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru. Rhaid i awdurdod cyhoeddus rhestredig:

- Asesu effaith debygol polisïau ac arferion arfaethedig ar ei allu i gydymffurfio â'r PSEDs.
- Asesu effaith unrhyw bolisi sy'n cael ei adolygu ac unrhyw adolygiad arfaethedig.
- Cyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau hyn lle maent yn dangos effaith sylweddol (neu effaith debygol) ar allu awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.
- Monitro effaith polisïau ac arferion ar ei allu i gyflawni'r ddyletswydd honno. (Rheoliad 8, WSED)

7.4. Wrth asesu effaith unrhyw gynnig ar grwpiau gwarchodedig, rhaid i awdurdodau cyhoeddus rhestredig roi 'sylw dyledus' i unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ganddynt a chydymffurfio â 'darpariaethau ymgysylltu' trwy gynnwys y cyfryw bersonau y mae'r awdurdod yn ystyried sy'n cynrychioli buddiannau'r personau sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig sydd â buddiant yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau; a chaiff yr awdurdod hefyd gynnwys neu ymgynghori â phersonau eraill fel y gwêl yn briodol (Rheoliad 5, WSEDs).

7.5. Mae'r WSEDs yn nodi gofynion ar gyfer EIA sy'n adlewyrchu arfer da wrth asesu effaith ac felly'n darparu man cychwyn cadarn ar gyfer EIA, yn ogystal â

fframwaith enghreifftiol ar gyfer HRIA. Er gwaethaf hyn, cododd y GER bryderon bod EIAs:

'ddim yn cael eu cyflawni mewn ffordd ystyrlon, yn digwydd ar ddiwedd y broses datblygu polisi yn hytrach na'r dechrau ac yn gyffredinol nid oedd ganddynt ddadansoddiad beirniadol trwy lens cydraddoldeb.' (Chwarae Teg 2019: 34)

7.6. Er mewn theori, dylid cymhwyso EIA ar bob cam o'r cylch polisi, a dylai weithredu fel ysgogiad i swyddogion goladu tystiolaeth, gan gynnwys trwy ymgynghori â rhanddeiliaid, canfu'r GER fod EIAs:

'wedi bod â thuedd, o fewn y Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, i ddod yn ymarferion blwch ticio; ymarfer yn seiliedig ar gydymffurfiaeth nad oes ganddo ddadansoddiad manwl, (ac) nad yw'n cydymffurfio â gofynion y dyletswyddau penodol ar wybodaeth neu ymgysylltu cydraddoldeb ac nad yw'n cael ei wneud ar yr adeg briodol i ddylanwadu a llywio polisi a deddfwriaeth yn ystyrlon.' (ibid: 38)

7.7. Mae canllawiau interim anstatudol ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn awgrymu y dylid defnyddio asesiad effaith (ymhlith gweithdrefnau eraill) i gadarnhau sut y bodlonwyd y gofyniad i roi sylw dyledus i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol (Llywodraeth Cymru 2020e), ac y bydd awdurdodau perthnasol angen:

'integreiddio ystyriaeth ar gyfer anghydraddoldeb canlyniad a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol i'r prosesau presennol ar gyfer deall a dangos tystiolaeth o effaith debygol penderfyniadau strategol.'(ibid: 13)

7.8. Yn wahanol i EIA, nid oes unrhyw ofyniad gorfodol ar gyfer HRIA yng Nghymru, ac nid oes fframwaith manwl ar gyfer HRIA ychwaith. Y cyfatebiad agosaf yw'r gofyniad am CRIA o dan Gynllun Hawliau Plant 2014 (Llywodraeth Cymru 2014). Mae'r Cynllun yn cynnwys gweithdrefn a thempled ar gyfer CRIA sy'n nodi

nifer o gamau yn y weithdrefn, mae'r rhain yn cynnwys casglu tystiolaeth, ymgynghori â rhanddeiliaid gan gynnwys plant, a dadansoddi. Mae crynodeb o unrhyw CRIA a gwblhawyd ar gael pan fydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi Asesiad Effaith Integredig (IIA) (a drafodir ymhellach isod). Fel sy'n wir ar gyfer EIA, mae'r templed CRIA yn adlewyrchu arfer da wrth asesu effaith. Er gwaethaf hyn, canfu ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru yn 2015 nad oedd CRIA yn cael ei weithredu'n gyson ar draws pob adran ac yn aml fe'i cychwynnwyd yn rhy hwyr yn y cylch polisi i wneud unrhyw wahaniaeth i allbwn polisi, ac weithiau fe'i cwblhawyd gan swyddogion heb wybodaeth ddigonol am hawliau plant (Hoffman a Morse 2015). Cadarnhawyd rhywbeth tebyg gan ymchwil ar yr RCYPM 2011 a gynhaliwyd ar gyfer yr EHRC yn 2018 (Hoffman ac O'Neill 2018).

7.9. Gwneir ystod o asesiadau effaith ar ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yng Nghymru, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i EIA a HRIA. Archwiliodd ymchwil a gynhaliwyd yn 2019 ffyrdd i wneud asesiad effaith a gynhaliwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn fwy effeithlon (Grace 2019); o ganlyniad, symleiddiodd Llywodraeth Cymru nifer o asesiadau effaith i mewn i IIA. Mae'r templed IIA a'i ganllaw cysylltiedig yn canolbwyntio ar les cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a sut mae cynnig yn cyfrannu at gyflawni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru n.d.). Mae EIA yn rhan o'r asesiad, yn ogystal â CRIA. Nid oes unrhyw ofyniad o dan IIA i gyflawni HRIA, a dim ond fel rhan o'r 'wybodaeth' y dylid ystyried hawliau dynol (heblaw hawliau plant) fel agwedd ar EIA. Er y gall asesiad effaith integredig helpu i leihau'r baich asesu effaith (Hoffman 2021), nododd ymchwil ar RCYPM 2011 a gynhaliwyd ar gyfer yr EHRC yn 2018 y risg bod IIA yn lleihau'r blaenoriaethu a roddir i CRIA yn y broses asesu effaith (Hoffman ac O'Neill 2018; gweler hefyd, *ibid*). Canfu'r GER:

'yn gynyddol, mae asesiad effaith yn cael ei weld trwy lens (y WFGA 2015)' a bod hyn 'yn fwyaf amlwg o fewn Llywodraeth Cymru, trwy ddatblygiad Offeryn Asesu Effaith Integredig newydd' (Chwarae Teg 2019: 8).

7.10. Canfu'r GER hefyd fod IIA yn aml yn cael ei ostwng i flwch ticio a'i symud i ddiwedd y broses bolisi (Chwarae Teg 2018, 2019; gweler hefyd, Parken 2019). Mae'r GER a'r GERWG yn argymhell y dylai'r WSEDs gryfhau'r defnydd o EI

'ar y dechrau a thrwy gydol datblygu polisi' (Parken 2019: 13; Chwarae Teg 2019). Mae'r GER/WG hefyd yn argymhell arweiniad ar sut y gall cyrff cyhoeddus ddefnyddio ymchwil ehangach i ddeall ysgogwyr anghydraddoldebau a llesiant diffygiol i lywio asesiadau effaith, ac ar yr angen i sicrhau tystiolaeth yn seiliedig ar brofiad pobl (Parken 2019). Mae'r GER yn argymhell y dylai dadansoddiad cydraddoldebau lywio IIA ar bob cam, ac y dylai IIA gymryd dull croestoriadol i fyfyrion ar effaith gwahanol fathau o wahaniaethu ac anfantais ar gydraddoldeb ar draws ystod o feysydd polisi (Chwarae Teg 2019).

7.11. Mae'n amlwg mai bwriad asesiad effaith yw llywio'r broses o wneud penderfyniadau a gweithredu polisi ar bob lefel o lywodraeth yng Nghymru. Mae rhai canllawiau yn gynhwysfawr ac yn cynnwys gwybodaeth ar sut i gael cyngor a chefnogaeth ychwanegol. Er enghraifft, wrth ymgymryd â HIA fel rhan o IIA, rhoddir cyfarwyddiadau i swyddogion Llywodraeth Cymru ar y camau i'w dilyn sy'n cyfateb i'r camau craidd a nodwyd ar gyfer asesiad effaith effeithiol (uchod) ynghyd â chysylltiadau ag adnoddau allanol i gefnogi'r dadansoddiad, er enghraifft Uned Cymorth Asesu Effaith Iechyd Cymru (Llywodraeth Cymru n.d.). Fodd bynnag, yn gyffredinol prin yw'r canllawiau ar sut i gynnal EIA neu HRIA effeithiol ac ystyrlon ar gyfer awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.

Tystiolaeth gan rhanddeiliaid: Asesiad effaith

7.12. Yn ein harolwg gyda rhanddeiliaid proffesiynol cytunodd 86 y cant, h.y. 83 o 97 o ymatebwyr, fod angen cryfhau asesiad effaith, nid oedd 13 y cant (13 ymatebydd) yn gwybod a dim ond 1 y cant (1 ymatebydd) anghytuno.

7.13. Mae tystiolaeth a dderbyniwyd gan gyfweleion yn cadarnhau potensial asesu effaith i wella datblygiad polisi, er y nodwyd pryderon o ran a ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan awdurdodau cyhoeddus, er enghraifft:

'ar bapur os yw (IA) wedi'i wneud yn dda, wedi'i wneud ar yr adeg iawn, yn cael ei wneud gan y bobl iawn sydd â'r arbenigedd cywir, ac os yw wedi cychwyn o'r dechrau ac os yw'n cael ei adolygu'n rheolaidd a'i ... ystyried yn offeryn gweithio gweithredol yna rwy'n credu ei fod yn rhywbeth sydd â lle ac rwy'n credu ei fod yn rhywbeth mae angen ei gadw'n bendant.' (IV4)

'mae'n un o'r offer sydd gennym ac rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y gallwn ddysgu ohono a'i ddatblygu ... os gallwn hyfforddi'r bobl iawn i allu cyflawni (IA) yna credaf mai dim ond ei weld i wneud gwahaniaeth mawr.' (IV4)

'Rwy'n credu mewn egwyddor eu bod nhw (IA) yn dda iawn ond efallai na fydd y ffordd maen nhw'n cael eu gweithredu cystal.' (IV17)

7.14. Cododd sawl cyfwelai bryderon tebyg gan gyfeirio'n benodol at Covid-19 a diffyg asesiad effaith priodol (neu o gwbl) ar fesurau argyfwng. Pryder mwy cyffredinol, gan adlewyrchu canfyddiadau'r GER, oedd bod asesiad effaith yn cael ei leihau i ymarfer 'blwch ticio'. Er enghraifft:

'mae'n ymddangos i mi fel petai rhaid iddynt riportio a llenwi eu math o flwch ticio, eu ffurflenni, a, 'iawn, gallwn ni dicio hynny, maen nhw wedi'i wneud, felly mae'r datblygiad hwn yn gallu bwrw ymlaen ', neu, 'gallan nhw wneud hyn oherwydd eu bod wedi gwneud asesiad', ac nid yw wedi'i ddadansoddi'n iawn mewn gwirionedd ac nid oes unrhyw sancsiynau...' (IV7)

'mae angen i chi gael ffurflen templed, wyddoch chi? Ac yna beth sy'n tueddu i ddigwydd, ac mae hynny'n iawn oherwydd mae'n dda cael awgrymiadau i bobl fod yn ymwybodol o'r pethau y mae angen iddyn nhw eu cynnwys a beth sydd angen iddyn nhw ei gofio. Ond y demtasiwn wedyn yw ei fod yn wirioneddol yn dod yn ymarfer blwch ticio ac nid yw'n offeryn ystyrlon yn y ffordd honno.' (IV20)

'Rwy'n credu ar hyn o bryd ei bod yn ymddangos bod y ffocws, mae'n ymddangos bod y pwyslais ar ofyniad cyrff cyhoeddus i gynnal cryn dipyn o asesiadau effaith cydraddoldeb, sy'n ymddangos yn ofyniad sy'n canolbwyntio ar brosesau yn hytrach na chanolbwyntio ar y canlyniad.' (IV1)

7.15. Roedd hyn hefyd yn bryder a godwyd yn fforymau Llywodraeth Cymru, ac yn y gweithdai. Daw hyn o gofnodion y fforwm ar Heneiddio:

'Ni ddefnyddir Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn effeithiol – dim ond ymarfer blwch ticio ydyn nhw.'

A hyn o un o'r gweithdai:

'Offeryn yw asesiadau effaith, nid blwch ticio ar y diwedd, ond yn aml nid yw hyn yn digwydd mewn gwirionedd.'

7.16. Mater arall a godwyd gan y cyfweleion oedd amseriad yr asesiad effaith, a bod y weithdrefn yn cael ei chyflwyno yn rhy hwyr yn y cylch polisi. Er enghraifft:

'dylai'r broses asesu effaith fod yn ddefnyddiol ond nid yw'r Llywodraeth yn ei defnyddio'n iawn ac mae yna hefyd ddigon o enghreifftiau lle mae'r asesiad effaith, wrth gwrs, yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y broses, sydd yn naturiol yn llawer rhy hwyr. Felly mae'r asesiad effaith ar hawliau plant ar y cwricwlwm newydd, er enghraifft, newydd gael ei gyhoeddi ar ddiwedd pedair blynedd o ymgynghori ar y cwricwlwm... yn y diwedd mae'r Gweision Sifil sydd wedi gwneud y gwaith o baratoi'r asesiad effaith wedi gwastraffu eu hamser, ac rydw i'n teimlo drostyn nhw. Felly, na, dyma un o'r gwendidau mwyaf sylfaenol yn ein proses.' (IV22)

7.17. Codwyd y mater o ddiffyg ymgynghori â rhanddeiliaid gan gyfweleion, ond hefyd yn fforymau Llywodraeth Cymru a'r gweithdai. Mae cofnodion fforwm Cydraddoldeb Anabledd yn nodi:

'(P)rin y mae dyletswydd cyfranogiad EIA yn digwydd. Bydd Awdurdodau Lleol yn aml yn dweud nad oes ganddyn nhw'r amser i siarad â phobl ac o ganlyniad yn cynhyrchu asesiad eu hunain heb ymgynghori. Dylai'r rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt gymryd rhan cyn iddynt wneud y penderfyniad hwnnw.'

Adlewyrchir hyn mewn tystiolaeth o'r gweithdai, er enghraifft:

'Ar gyfer asesiadau effaith mae diffyg ymgysylltu â phobl ar lawr gwlad a phrofiad o sut y bydd penderfyniadau yn effeithio ar gymunedau a phobl y maent yn gweithio gyda nhw mewn gwirionedd. Mae angen arweiniad i awdurdodau lleol ar sut i wneud hyn. Angen ymgysylltu â phobl sy'n gwrthio'r polisiâu drwodd. Cefnogaeth gan reolwyr. Fel arall ymarfer blwch ticio.'

7.18. Mater arall a godwyd yn y cyfweiliadau oedd yr angen i asesiadau effaith arwain at ganlyniadau:

'byddant yn gwneud yr asesiadau effaith cydraddoldeb hyn ac yn sylweddoli ei fod yn cael effaith niweidiol ar un grŵp, ond yna bydd y darlun cyffredinol yn gadarnhaol ac felly rydych chi'n gwybod bydd y polisi'n mynd yn ei flaen, ac mae angen atebolrwydd ar gyfer y bobl sy'n cael eu heffeithio'n niweidiol.'

(IV11)

7.19. Rhoddwyd amryw resymau yn y dystiolaeth dros weithredu asesiad effaith yn wael, gan gynnwys cynnal asesiad effaith yn aml yn rhy hwyr, pan mae penderfyniadau eisoes wedi eu gwneud. Nododd cyfweleion fod toriadau cyllidebol a 'chyni' wedi cael effaith ar ansawdd asesiadau effaith, gan fod y rhain yn aml yn cael eu rhuthro ac yn brin o fanylion. Awgrymwyd bod disgwyl gormod gan staff mewn cyrff cyhoeddus a fydd yn aml yn gweithio mewn 'seilos' felly nid yw gwybodaeth bob amser yn cael ei rhannu, gan arwain at ddyblygu ac asesiadau effaith o ansawdd gwael. Roedd awgrymiadau ar sut y gellid gwella asesiad effeithiau, er enghraifft:

'Mae'n rhaid i (asesiad effaith) fod yn ystyrlon ac yn rhywbeth sydd wedi'i ymgorffori eto mewn sefydliadau. ... rhywfaint o ganllawiau efallai ar beth yw asesiad effaith o ansawdd da.' (IV15)

A hyn o'r gweithdai:

'Mae pawb yn gwneud rhywbeth gwahanol - prin yw'r arweiniad ynghylch dyletswydd economaidd-gymdeithasol, ond fel arall mater i sefydliadau a

chyrrff unigol yw penderfynu a dehongli'r offeryn. Mae angen mwy o arweiniad, hyfforddiant i helpu cyrrff i ddatblygu'r offer hyn ac i gynorthwyo staff unigol i gyflawni'r maes gwaith hwn.'

7.20. Sylwer: cynhaliwyd y gweithdai cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chanllawiau statudol ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, gweler uchod 'Y blwch cyflawni' a 'Canllaw ar gydraddoldeb'. Yn ogystal â'r angen am fwy o ganllawiau ar asesu effaith, cododd y rhai a gyfwelwyd yr angen i sicrhau bod asesiad effaith yn cael ei flaenoriaethu'n iawn, gan gynnwys ar ddechrau datblygu polisi. Er enghraifft:

'Mae'n gas gen i ddefnyddio'r term ymarfer blwch ticio, ond dyna ydi o i lawer o sefydliadau, ac felly dyna pam rydyn ni'n siarad am fod angen fflipio'r model cyfan hwnnw ar ei ben a dweud, "A dweud y gwir, fe ddylech chi fod yn meddwl am yr asesiad effaith hwnnw ar y cychwyn cyntaf,"...' (IV 9)

7.21. Tynnodd y rhai a gyfwelwyd sylw hefyd at yr angen i gefnogi swyddogion sy'n ymgymryd â IIA, yn enwedig oherwydd y gellir ei ystyried i fod yn faich. Yn hyn o beth, nododd y rhai a gyfwelwyd fuddion IIA:

'(F)e gredwn fod yr asesiad effaith integreiddio yn syniad da oherwydd ei fod yn arbed, wyddoch chi, yn fath o, yn cwtogi ar fiwrocratiaeth mewn gwirionedd ac yn arbed cyrrff cyhoeddus rhag gorfod gwneud... faint bynnag o asesiadau ar wahân, y byddai llawer ohonynt, wyddoch chi, yr un cwestiynau ac weithiau'n cael eu gwneud gan wahanol bobl, weithiau'n cael eu gwneud gan yr un person sawl gwaith. Ond yn amlwg mae risg y bydd rhai o'r dyletswyddau'n cael eu gwanhau...' (IV19)

'O ran yr asesiad effaith strategol ehangach, rydych chi'n gwybod y gallem weld gwerth yn y ddadl bod llawer o asesiadau effaith i gyd yn cael eu gwneud ar wahân, heb siarad â'i gilydd, gallaf weld gwerth dod â hynny i gyd at ei gilydd. Rwy'n credu yn amlwg mai'r gwendid yw bod gennych chi asesiad effaith gwannach, llawn ar bob un ohonyn nhw felly un llai ar gydraddoldeb, llai ar y Gymraeg, un llai ar hawliau plant.' (IV4)

7.22. Gwnaeth nifer o gyfweleion sylwadau ar IIA Llywodraeth Cymru gan gynnwys yr angen i ganolbwyntio ar asesu effaith mewn perthynas â grwpiau penodol (er enghraifft, plant) i leihau'r risg o golli ffocws. Gwnaeth un cyfweiliad sylwadau ar EIA fel rhan o IIA:

'Mae'r newid y maent wedi'i wneud tua dwy flynedd yn ôl o asesiadau effaith yn mynd trwy bob nodwedd i asesiad effaith integredig, wedi gwanhau'r broses yn rhyfeddol. Oherwydd mae'n rhoi caniatâd iddynt gyflwyno rhywbeth maen nhw'n ei alw'n asesiad effaith nad yw'n asesiad effaith o gwbl. Dim ond rhestr o'r pethau y gwnaethon ni feddwl amdany'n nhw... sy'n ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig penodol hyn.' (IV22)

7.23. Awgrymodd cyfweleion eraill fod diffyg eglurder a didwylledd ynghylch pryd mae IIA yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, er bod pryderon ynghylch asesu effaith ac IIA, awgrymwyd, os cânt eu hymgorffori a'u cynnal yn iawn, y gallant arwain at well penderfyniadau.

7.24. Teimlai sawl cyfranogwr ymchwil â phrofiad bywyd fod asesiadau effaith cydraddoldeb yn cael eu hystyried yn ymarfer blwch ticio (wedi'i waethygu gan Covid-19). Dywedodd cyfranogwyr fod angen i asesiad effaith gynnwys pobl a chymunedau amrywiol yn uniongyrchol (cyd-gynhyrchu), ac y dylai'r asesiad sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu hintegreiddio. Teimlai cyfranwyr hefyd fod angen i asesiad effaith fynd i'r afael â phob cymuned ac nid dim ond 'grŵp(iau) nodweddion gwarchodedig eang', yn ogystal â bod angen defnyddio tystiolaeth a phrofiadau ansoddol i gydnabod effeithiau cronus.

Synthesis: Asesiad effaith

7.25. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu cefnogaeth ar gyfer asesu effaith fel offeryn polisi, ond mae hefyd yn codi nifer o bryderon cyffredinol ynghylch sut y cwblheir y rhain yn ymarferol, gan gynnwys bod y weithdrefn wedi'i lleihau i ymarfer 'blwch ticio', ei fod yn cael ei gyflwyno'n rhy hwyr yn y broses bolisi, a'i fod yn methu â chynnwys pobl sydd â diddordeb.

7.26. Rydym yn gweld yr angen am arweiniad i gefnogi asesu effaith, ac i sicrhau ei flaenoriaethu yn y cylch datblygu polisi. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran 'Casgliadau' isod ac mae ein hargymhellion 17-22 yn delio â nhw.

8. Casgliadau: Monitro

Cyd-destun

8.1. Mae monitro yn galluogi awdurdodau cyhoeddus i 'asesu cydymffurfiaid â'r safonau cydraddoldeb a hawliau dynol, a gweithredir ohonynt, sy'n cael eu cydnabod o fewn y fframwaith hawliau dynol rhyngwladol ac sy'n cael eu codeiddio mewn cyfraith... ddomestig' (EHRC 2017: 42; DIHR 2007). Mae'r EHRC yn gweld pwrpas monitro fel a ganlyn:

- Sicrhau 'tystiolaeth wrthrychol, annibynnol a dibynadwy ar droseddau cydraddoldeb a hawliau dynol ac ar amddiffyn, hyrwyddo a chyflawni safonau cydraddoldeb a hawliau dynol'.
 - Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o faterion cydraddoldeb a hawliau dynol.
 - Hyrwyddo atebolrwydd cyfreithiol trwy dynnu sylw at fethiannau polisi sefydliadol a chyhoeddus.
- (EHRC 2017)

8.2. Er mwyn deall yn well sut mae polisi a gweithredu yn cael effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol mae'n hanfodol bod data perthnasol ar gael, a bod hyn wedi'i ddadgyfuno i'r graddau ei fod yn cefnogi asesu mewn perthynas â gwahanol grwpiau (EHRC 2017; OHCHR 2012). Er mwyn cefnogi monitro effeithiol, mae angen datblygu a chymhwyso dangosyddion i asesu cynnydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol (ibid). Fodd bynnag, mae angen dull gofalus gan fod risg y byddant yn arwain at 'ddull rheolaethol' lle mae'r ffocws ar ddata meintiol, gan arwain at 'or-bwyslais ar yr hyn sy'n fesuradwy' (EHRC 2017: 43; Rosga a Satterthwaite 2012; McGrogan 2016). Y pryder yw bod defnyddio dangosyddion meintiol yn cyfeirio sylw oddi wrth sut mae pobl yn profi cydraddoldeb a hawliau dynol yn unigol (ibid; Parken 2019). Er gwaethaf hyn, mae gwerth cydnabyddedig i ddangosyddion meintiol ac

ansoddol i fesur a gwerthuso cynnydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol, ac i lywio polisi a helpu sefydlu'r amcanion ar gyfer gweithredu ar gydraddoldeb a hawliau dynol (OHCHR 2012; EHRC 2017).

8.3. Gellir asesu cynnydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru trwy gyfeirio at ddata o amrywiaeth o ffynonellau (EHRC 2018a; Parken 2019). Fodd bynnag, mae ein hymchwil wedi datgelu, er bod amrywiaeth o fecanweithiau monitro a dangosyddion sydd â'r potensial i gyfrannu at asesiad o gynnydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol, nid ydym wedi gallu dod o hyd i unrhyw ddangosyddion a ddatblygwyd i fesur cydraddoldeb a hawliau dynol, yn benodol mewn meysydd lle mae'r angen am weithredu ar frys wedi'i nodi. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi 'dangosyddion cenedlaethol' llesiant (adran 10, WFGA 2015; Llywodraeth Cymru 2016e). Mae'r gyfres gyfredol o ddangosyddion cenedlaethol yn cynnwys 46 dangosydd a ddatblygwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r rhain yn darparu 'tystiolaeth ddefnyddiol i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddeall y prif feysydd lle dylid gwneud cynnydd mewn perthynas â'r nodau llesiant' (Llywodraeth Cymru 2020f: dim rhif tudalen). Bydd llawer o'r dangosyddion hefyd yn cefnogi asesiad o gynnydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol, ond nid oes yr un ohonynt wedi'u cysylltu'n benodol â'r PSED na hawliau dynol, er bod 27 dangosydd wedi'u halinio'n uniongyrchol â'r nod llesiant 'Cymru sy'n fwy cyfartal'. Nid yw'n ymddangos bod hawliau dynol wedi dylanwadu ar ddatblygiad y 46 dangosydd llesiant cenedlaethol: nid oes unrhyw awgrym bod y dangosyddion yn adlewyrchu unrhyw argymhellion a wnaed gan Gyrff Cytuniad y Cenhedloedd Unedig ar feysydd i'w gwella i hawliau dynol yng Nghymru (gweler 'Hawliau Dynol' uchod), ac mae cydnabyddiaeth gyfyngedig o rai materion cydraddoldeb, er enghraifft: gwahaniaethu, aflonyddu, troseddau casineb, a godwyd fel heriau allweddol mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn (Llywodraeth Cymru 2016e). Fodd bynnag, mae adroddiad llesiant blynyddol Cymru yn darparu data a dadansoddiad pellach ar faterion yn ymwneud â hawliau dynol a chydraddoldeb, gan gynnwys materion nad ydyn nhw wedi'u cynnwys yn benodol yn y 46 dangosydd, er enghraifft, digwyddiadau troseddau casineb (Llywodraeth Cymru 2020f).

8.4. Mater a nodwyd gan yr EHRC yn ogystal â'r GER/WG yw nad yw data yng Nghymru yn cael ei ddadgyfuno fel mater o drefn trwy gyfeirio at nodweddion gwarchodedig EA 2010 (EHRC 2018a; Parken 2019). Er bod llawer iawn o ddata y

gellir ei ddefnyddio i asesu a gwerthuso cynnydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, nid oes unrhyw ddangosyddion penodol i Gymru sy'n cyfateb i 'Fframwaith Mesur Cydraddoldeb a Hawliau Dynol' yr EHRC (EHRC 2017).

8.5. Mae Deddf Cydraddoldeb 2006 (EA 2006) yn ei gwneud yn ofynnol i'r EHRC fonitro cydraddoldeb a hawliau dynol (adran 12). Yng Nghymru mae'r EHRC yn cyhoeddi adroddiad 'Ai yw Cymru'n Decach' sy'n asesiad o gynnydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol gan ddefnyddio ei 'Fframwaith Mesur' a gymhwysir i bolisi cyhoeddus ar draws 6 maes: addysg, gwaith, safonau byw, iechyd, cyfiawnder a diogelwch personol, a chyfranogiad (EHRC 2018a). Mae gan bob un o'r parthau hyn set o ddangosyddion (EHRC 2017). Mae adroddiad 'Ai yw Cymru'n Decach' EHRC Cymru yn asesu cynnydd yn erbyn y dangosyddion hyn ar sail tystiolaeth a gasglwyd o'r setiau data sydd ar gael i ganolbwyntio ar 'heriau cydraddoldeb a hawliau dynol allweddol yng Nghymru' (EHRC 2018a: 3). Mae'r adroddiad yn gwneud cysylltiadau rhwng cydraddoldeb ac amcanion hawliau dynol, gan gynnwys safonau hawliau dynol rhyngwladol, yn ogystal â chanlyniadau ar gyfer grwpiau gwarchodedig yng Nghymru (EHRC 2018a: 30). Mae 'Ai yw Cymru'n Decach' hefyd yn defnyddio 18 'dangosydd craidd' ym mhob un o'r 6 pharth, ac yn cysylltu'r rhain â'r ffynonellau data sydd ar gael yn ogystal â'r dangosyddion llesiant cenedlaethol a nodau llesiant WFGA 2015: mae 50 mesur ystadegol yn cyd-fynd â'r dangosyddion craidd yn ymwneud â phroses neu ganlyniadau (EHRC 2017: 66). Mae 'Fframwaith Mesur' yr EHRC yn cydnabod cyfyngiadau dangosyddion meintiol yn unig fel rhai 'rhy gul', ac felly mae 'Ai yw Cymru'n Decach' yn tynnu ar ffynonellau data ansoddol a phrofiad bywyd pobl (EHRC 2017: 43, 63). Mae 'Fframwaith Mesur' yr EHRC yn tynnu sylw at ddiffyg data wedi'i ddadgyfuno, a bylchau data sylweddol yng Nghymru, er enghraifft mewn perthynas ag anabledd a rhyw, ac yn codi pryderon ynghylch ansawdd y data sydd ar gael i'w fonitro a'i ddadansoddi (EHRC 2017: 67). Nodir y diffyg hwn hefyd yn 'Ai yw Cymru'n Decach', sy'n dod i'r casgliad bod y diffyg data cydraddoldeb ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau cyhoeddus yn golygu na all awdurdodau ddangos bod eu gwasanaethau'r un mor hygyrch ac ar gael i bawb (EHRC 2018a). Er bod y fframwaith EHRC yn fframwaith monitro cymharol soffistigedig, mae'n generig ac yn amhenodol i flaenoriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

8.6. Er mwyn monitro perfformiad awdurdodau cyhoeddus, mae'r WSEDs yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau rhestredig fonitro effaith eu polisiau ar eu gallu i gydymffurfio â'r WSEDs (rheoliad 8), ac i adrodd ar y cynnydd a wnaed i gydymffurfio â'r WSEDs (rheoliadau 16 a 17). Er bod y WSEDs yn rhoi cyfle i gasglu data ac i ddadansoddi ac adrodd ar y cynnydd tuag at gyflawni'r PSED, mae'r trefniadau cyfredol wedi cael eu beirniadu gan y GER/WG fel mesur 'cydymffurfiad â'r broses yn hytrach na chanlyniadau' (Parken 2019: 33).

8.7. Mae'r GER/WG yn gwneud nifer o argymhellion i wella casglu data, mae'r rhain yn cynnwys argymhellion ar alinio amserlenni casglu data yn ogystal â sicrhau 'darlleniad ar draws' rhwng y gwahanol setiau dangosyddion, gan gynnwys fframwaith mesur yr EHRC a'r dangosyddion llesiant cenedlaethol (Parken 2019). Mae'r GER/WG yn nodi'r angen i ddata meintiol gyfarwyddo gweithredu, yn ogystal â'r angen am ddata ansoddol i helpu 'deall pam bod yna ganlyniadau gwael, a sut mae ffactorau'n rhyngweithio' ac yn mynd ymlaen i bwysleisio pwysigrwydd 'ymholiad ansoddol' i helpu nodi atebion polisi a rhaglen (ibid: 45). Daw'r GER/WG i'r casgliad bod data meintiol ac ansoddol yn 'hanfodol ar gyfer cynllunio gweithredoedd newid uchelgeisiol' ac ar gyfer data gan 'arbenigwyr yn ôl profiad' a'r grwpiau cymdeithas sifil sy'n eu cynrychioli i lywio dyluniad deddfwriaethol, gosod amcanion ac atebion polisi. (ibid).

Tystiolaeth gan randdeiliaid: Monitro

8.8. Mae'r ymatebion i'n harolwg gyda rhanddeiliaid proffesiynol yn awgrymu rhywfaint o amwysedd ynghylch pa mor effeithiol yw mecanweithiau monitro cyfredol wrth adlewyrchu cynnydd (neu ddiffyg) cydraddoldeb. Roedd 39 y cant, h.y. 45 o 116 o ymatebwyr, o'r farn nad yw mecanweithiau monitro cydraddoldeb yn effeithiol, tra mai dim ond 9 y cant (1 ymatebydd) a oedd o'r farn eu bod yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd mwyafrif clir o blaid gwella dangosyddion cydraddoldeb. Cytunodd 73 y cant, h.y. 84 o 115 o ymatebwyr, fod angen gwella dangosyddion i fesur cydymffurfiad â dyletswyddau cydraddoldeb, tra bod cyfran debyg, 75 y cant, h.y. 86 o 115 o ymatebwyr, yn cytuno bod angen i Gymru wella dangosyddion canlyniadau cydraddoldeb. Roedd cefnogaeth uchel hefyd i ddata mwy dadgyfunol ar ganlyniadau cydraddoldeb (72 y cant, h.y. 83 o 115 o ymatebwyr), ac i dystiolaeth gael ei choladu ar brofiad byw pobl o gydraddoldeb (77 y cant, h.y. 88 o 114 o

ymatebwyr). Cytunodd 71 y cant o 111 o ymatebwyr fod angen i awdurdodau cyhoeddus adrodd 'yn fwy manwl' ar ganlyniadau cydraddoldeb, ac roedd 78 y cant, h.y. 87 o 112 o ymatebwyr o'r farn bod angen adrodd 'yn fwy manwl' ar bobl profiad bywyd o gydraddoldeb.

8.9. O ran mecanweithiau i fonitro cynnydd (neu ddiffyg) ar hawliau dynol, unwaith eto roedd rhywfaint o amwysedd: roedd 37 y cant, h.y. 43 o 115 o ymatebwyr, o'r farn nad yw mecanweithiau monitro yn effeithiol, tra bod tua 13 y cant, h.y. 15 o 115 ymatebwyr, yn meddwl eu bod, ac nid oedd tua 50 y cant (57 ymatebydd) yn gwybod. O ran cydraddoldeb, cytunodd cyfran uchel o ymatebwyr, 71 y cant, h.y. 81 o 114 o ymatebwyr, fod angen gwella dangosyddion i fesur cydymffurfiaid â dyletswyddau hawliau dynol, tra bod 71 y cant, h.y. 81 o 114 o ymatebwyr, yn cytuno bod angen i Gymru wella dangosyddion canlyniadau hawliau dynol. Cytunodd 73 y cant, h.y. 82 o 113 o ymatebwyr, fod angen mwy o ddata wedi'i ddadgyfuno ar ganlyniadau hawliau dynol, a 73 y cant, h.y. 82 o 113 o ymatebwyr, bod angen mwy o ddata ar brofiad bywyd pobl o hawliau dynol. Cytunodd 70 y cant, h.y. 81 o 115 o ymatebwyr, bod angen i awdurdodau cyhoeddus adrodd 'yn fwy manwl' ar ganlyniadau hawliau dynol a chytunodd 75 y cant, h.y. 85 o 113 o ymatebwyr, bod angen adrodd ar brofiad bywyd pobl o hawliau dynol.

8.10. Nododd pobl ifanc yr angen i sicrhau bod fframweithiau polisi a statudol yn cael eu gweithredu'n effeithiol trwy roi strwythurau atebolrwydd a monitro effeithiol ar waith, gyda phobl ifanc fel rhan o'r broses graffu a monitro hon wrth symud ymlaen. Maent yn argymhell y dylid diwygio a chryfhau rheoleiddio statudol gan gynnwys monitro, ond hefyd adrodd ac arolygu, ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Roedd cyfranogwyr grwpiau ffocws o blaid ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gwblhau adroddiadau monitro rheolaidd gan awgrymu y gellid defnyddio Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol plant a phobl ifanc fel offeryn monitro ac archwilio posibl. Yn gyffredinol, roedd pobl ifanc yn teimlo bod angen rheoleiddio a monitro mwy effeithlon i wella ac ymgorffori arferion hawliau dynol a chydraddoldeb ledled Cymru.

8.11. Mae'r dystiolaeth o gyfweiliadau yn cadarnhau cefnogaeth i welliannau i fonitro cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, er enghraifft:

'mae gennym lawer o strategaethau a chynlluniau gweithredu a llawer o eiriau ar bapur ond o ran gallu monitro cynnydd neu beidio'r bwriadau da hynny a'r gweithrediadau yn llwyddiannus ar ganlyniadau i bobl, mae yna fwlch.' (IV18)

'Rwy'n credu ein bod wedi gweld bod yna fath o wahaniaethau rhanbarthol yn y broses o gynnal hawliau dynol a chydraddoldebau ac, wyddoch chi, yn y gwaith rydyn ni'n ei wneud, mae fyny i'r Awdurdod Lleol ac efallai o bosibl fwy o fecanweithiau goruchwyllo a monitro y gellid eu cryfhau.' (IV8)

8.12. Mae sylwadau rhai cyfweleion yn awgrymu nad yw'r trefniadau monitro presennol yn ddigon cadarn i gadarnhau os, ac os felly, sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â dyletswyddau cydraddoldeb a hawliau dynol perthnasol, er enghraifft:

'Rwy'n credu bod deddfwriaeth yn wych, ond os na chaiff ei fonitro, ni allwch ddeall lefel ei weithrediad... dim ond i adleisio'r hyn yr ydym wedi'i ddweud felly, mae'r diffyg data weithiau'n ysgytwol os ydw i'n onest. Dwi ddim yn deall pam nad yw data y mae'n ofynnol ei gasglu yn cael ei gasglu ar sail cydraddoldeb. Felly, wyddoch chi, o ran cydymffurfio, nid oes y math hwnnw o dystiolaeth yno i, wel mae'n anodd iawn, mae'r diffyg tystiolaeth yn ei gwneud hi'n anodd iawn dwyn cyrff i gyfrif ... rwy'n credu bod croeso i ddata gwell bob amser, ond byddai rhaid iddo fod yn ddata a ddangosodd gydymffurfiaeth neu ddiffyg cydymffurfio.' (IV15)

8.13. Pan ofynnwyd yn uniongyrchol a yw'r trefniadau monitro presennol yn ddigonol, atebodd y cyfwelai hyn:

'Na yw'r ateb byr. Wel, wyddoch chi, mae angen i ni gael y cydbwysedd yn iawn, yn does, gan ei fod yn beth diwylliannol mae pobl eisiau ei wneud. Yn hytrach na blwch ticio y mae pobl yn ei wneud oherwydd bod yn rhaid iddynt ei wneud. Ond yn sicr, hyd y gwelaf i, ychydig iawn o fonitro.' (IV16)

8.14. Mae'r cyfwelai uchod yn codi mater y gwnaeth eraill sylwadau arno hefyd, sef y risg bod monitro'n cael ei drin fel ymarfer 'blwch ticio' mecanistig neu 'broses fiwrocrataidd' (IV3), yn hytrach na phroses y gellir dysgu ohoni a chymryd camau:

'Rwy'n credu bod rhywfaint o hynny yn arwain yn ôl ar bwyntiau a wnes i'n gynharach ynglŷn â bod mecanweithiau atebolrwydd ar waith a mecanweithiau adrodd, oherwydd os nad oes unrhyw ofyniad i adrodd neu os oes gofyniad i adrodd ond nid oes unrhyw gamau neu atebolrwydd neu ddeialog barhaus yn seiliedig ar yr adroddiad hwnnw yna mae'n dod yn dipyn o ymarfer blwch ticio ac mi allem gael y canllawiau a'r ddeddfwriaeth orau ar waith ond os nad yw hynny'n ddigonol ac fe welsom gyda'r deddfau llesiant, o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, y cynlluniau llesiant, llawer o fwriadau da, lefel uchel yno ond mae'n anodd iawn ymgysylltu, i ddad-bigo hynny a dweud pa union wahaniaethau go iawn mae'n eu gwneud ar lawr gwlad.' (IV4)

8.15. Roedd yr angen i fonitro arwain at weithredu yn bryder i sawl cyfwelai, er enghraifft, y cyfwelai hwn, gan roi sylw ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau:

'Felly er enghraifft, y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, felly mae'n rhaid i bobl adrodd, rhaid i sefydliadau dros faint penodol adrodd ar eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau ond, sy'n wych ond yna pwy sy'n bwrw ymlaen â hynny ac yn monitro ac yn gweld hynny, fel eu bod nhw'n ei gyhoeddi ac efallai eu bod nhw'n cyhoeddi cynllun gweithredu hefyd ond pwy sy'n mynd i ddilyn hynny a gwirio ei fod wedi'i wneud, ac a fydd sancsiynau os na fyddant yn gwella'r sefyllfa?' (IV7)

8.16. Gwnaeth rhai o'r cyfweleion, gan gydnabod gwendid yn y trefniadau monitro presennol, gan gynnwys y ffocws ar ddangosyddion llesiant, awgrymiadau ar gyfer gwelliant. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen am fecanweithiau monitro arbenigol:

'Gall gweld hawliau dynol trwy lens llesiant arwain at wanhau'r ffocws ar gyflawni canlyniadau hawliau dynol. Mae hawliau dynol yn gofyn am fecanweithiau arbenigol ar gyfer monitro a gorfodi.' (IV2)

8.17. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd y gallai mecanweithiau presennol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer monitro llesiant, gael eu defnyddio'n fwy effeithiol i fonitro cydraddoldeb a hawliau dynol trwy alinio prosesau. Gwnaeth y cyfwelai hwn sylwadau penodol ar ddangosyddion canlyniadau ar gyfer cydraddoldeb a'r posibilrwydd o alinio'r rhain â dangosyddion llesiant:

'Felly rwy'n credu mai llwyddiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw bod gennych ddangosyddion cenedlaethol, mae pawb yn gweithio yn ôl hynny, mae gennych chi fecanwaith atebolrwydd gwirioneddol dda ar amcanion llesiant ac nid oes gennych chi hwnnw wedi'i ailadrodd ar gyfer y Ddeddf Cydraddoldeb, ac mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb. ... byddai gennych anghydraddoldebau canlyniad yn gysylltiedig i anfantais economaidd-gymdeithasol a hybir yn genedlaethol fel y byddai awdurdodau lleol a phob corff cyhoeddus arall wedyn yn cyflawni i'r canlyniadau hynny ac yn adrodd ac yn tystio i'r canlyniadau hynny. Efallai bod aliniad rhwng beth yw'r canlyniadau economaidd-gymdeithasol hynny â beth yw amcanion y canlyniad llesiant hefyd (IV18)

8.18. Mae tystiolaeth o'r gweithdai yn nodi'r angen i fonitro gael ei ystyried yn agwedd bwysig ar asesu effaith, er bod cyfranogwyr yn fforymau Llywodraeth Cymru wedi gwneud sylwadau cyffredinol ar yr angen am fonitro a gwerthuso mwy cadarn. Yn Fforwm Hil Cymru, amlygodd cyfranogwyr bwysigrwydd egluro pwy sy'n gyfrifol am fonitro a gwerthuso, tra nododd y Fforwm ar Heneiddio nad oes gan awdurdodau lleol yr adnoddau i wneud popeth sydd ei angen. Yng nghyfarfod y Fforwm Cydraddoldeb Anabledd, amlygwyd bod diffyg prosesau monitro yn benodol ar gyfer effeithiau ar hawliau dynol a chydraddoldeb pobl anabl. Arweiniodd hyn at yr awgrym bod angen Comisiynydd Pobl Anabl, gyda mwy o bwerau, adnoddau a chylch gwaith clir ar gyfer amddiffyn hawliau pobl anabl.

8.19. Nododd pobl â phrofiad bywyd yr angen am 'ddangosyddion a mesurau' sy'n ymwneud â dyfnder ac amrywiaeth cyfranogiad pobl i fod yn rhan o fesurau'r sector cyhoeddus ym mhob gwasanaeth a maes polisi, ac i'r rhain gael eu gwella ac i gael adrodd mwy hygrych. Fe wnaethant hefyd alw am fesurau a dangosyddion ym mhob

gwasanaeth, agweddau ar gyflogaeth, adrannau a meysydd polisi a oedd yn canolbwyntio ar werthoedd, canlyniadau a'r gwahaniaeth a wnaed i brofiadau bywyd pobl, gan gynnwys yr holl gymunedau amrywiol a heb gynrychiolaeth ddigonol. Maent yn mynd ymlaen i alw am ystyried dangosyddion ansoddol fel rhywbeth pwysig, os nad yn bwysicach, na dangosyddion meintiol.

8.20. Yn gysylltiedig â monitro, mae pobl sydd â phrofiad bywyd hefyd yn argymhell bod 'systemau achredu allanol, cynhwysfawr, annibynnol mewn perthynas â phob cymuned amrywiol' yn cael eu hariannu a'u hyrwyddo i bob sefydliad sector cyhoeddus ac y dylai holl reoleiddwyr Cymru gynnwys mesurau a safonau cydraddoldeb a hawliau dynol a ddylai fod yn agwedd graidd ar brosesau arolygu, archwilio a rheoleiddio; dylai hysbysïadau gwella a gorfodi ddilyn yn benodol mewn perthynas â chydaddoldeb a hawliau dynol. Maent hefyd yn argymhell y dylai adborth defnyddwyr gwasanaeth ar wasanaethau a dderbynnir fod yn rhan greiddiol o'r holl fesurau, archwiliadau ac arolygiadau. Galwodd pobl â phrofiad bywyd am alinio adroddiadau rhwng WFGA 2015, cydraddoldeb, a hawliau dynol yn ogystal â'r Gymraeg.

Synthesis: Monitro

8.21. Ar fater monitro, mae'r GER/WG wedi gwneud nifer o argymhellion i wella'r data sydd ar gael i'w fonitro, gan gynnwys yr angen am ddata wedi'i ddadgyfuno, ar alinio amserlenni casglu data, gan sicrhau eu bod yn 'ddarllenadwy' rhwng dangosyddion, yn ogystal â'r angen am ddata ansoddol. Mae'r awduron yn cymeradwyo'r argymhellion hyn yn llawn, a gefnogir gan y dystiolaeth a dderbyniwyd, sydd hefyd yn awgrymu diffyg hyder yn y mecanweithiau monitro cyfredol a chefnogaeth ar gyfer gwella dangosyddion i fesur cydymffurfiaid â chydaddoldeb a hawliau dynol. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran 'Casgliadau' isod. Rydym yn delio â monitro yn ein hargymhelliad 25, ond mae hefyd yn berthnasol i'r argymhellion ar 'Ganllaw', 'Asesu effaith' ac 'Atebolrwydd a gorfodi' (gweler Tabl 1 isod).

9. Casgliadau: Atebolrwydd a gorfodi

Cyd-destun

9.1. Mae atebolrwydd yn agwedd ar brif ffrydio cydraddoldeb a hawliau dynol ac mae'n elfen allweddol o 'ddull hawliau dynol'. Mae astudiaethau wedi archwilio corfforiad mewn gwahanol awdurdodaethau, ac mae ein hadolygiad o lenyddiaeth yn cadarnhau'r ffurf gryfaf o atebolrwydd ar gyfer hawliau dynol, gan gynnwys hawliau economaidd a chymdeithasol, trwy lysoedd domestig (Boyle 2020; Daly *et al* 2018; King 2012). Fel y nodwyd eisoes, mae pob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, wedi'u gwahardd rhag gweithredu heblaw mewn cydymffurfiaid â'r hawliau dynol a nodir yn yr ECHR a'u hymgorffori yng nghyfraith y DU gan HRA 1998. Mae'r cyfyngiadau hyn yn gosod rhywfaint o atebolrwydd dros hawliau dynol. Mae'r rhwymedigaeth (i bob pwrpas) i weithredu yn unol â'r ECHR yn orfodadwy gan lysoedd y DU o dan HRA 1998 (adrannau 6-9).

9.54. Corff allweddol ar gyfer atebolrwydd cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru yw'r EHRC. Yn ein harolwg gyda rhanddeiliaid proffesiynol, roedd 38 y cant, h.y. 41 o 107 o ymatebwyr, o'r farn nad oedd yr EHRC yn effeithiol iawn, neu ddim yn effeithiol o gwbl, i ddwyn awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, i gyfrif yng Nghymru am faterion cydraddoldeb. Roedd 32 y cant (34 ymatebydd) o'r farn bod yr EHRC naill ai'n eithaf effeithiol neu'n effeithiol iawn (gyda 30 y cant ddim yn siŵr). Mewn perthynas â materion hawliau dynol, roedd 36 y cant, h.y. 41 o 113 o ymatebwyr, o'r farn bod yr EHRC naill ai'n ddim effeithiol iawn neu ddim o gwbl fel sefydliad atebolrwydd, roedd 34 y cant (38 o ymatebwyr) o'r farn ei fod naill ai'n eithaf effeithiol neu'n effeithiol iawn, ac nid oedd 30 y cant yn siŵr. Yn gyffredinol, gallwn ddweud bod tua thraean yr ymatebwyr yn ystyried bod yr EHRC naill ai'n effeithiol iawn neu'n eithaf effeithiol fel sefydliad atebolrwydd cydraddoldeb a hawliau dynol, dywed traean naill ai nad yw 'n effeithiol iawn neu ddim o gwbl, ac mae traean ddim yn siŵr. Roedd rhai ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod yr EHRC yn gymharol effeithiol o ystyried ei gyfyngiadau adnoddau, ac awgrymodd rhai bod angen mwy o arian arno i gynyddu capasiti.

9.55. Thema gyffredinol oedd bod gweithgaredd monitro gan gyrrff fel yr EHRC yn arwain at gynhyrchu gwybodaeth sydd wedi'i hymchwilio'n dda, ond nid oes llawer o eglurder ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio hyn mewn gwirionedd. Roedd rhai ymatebwyr i'r arolwg (rhanddeiliaid proffesiynol) o'r farn bod strategaethau a chynlluniau gweithredu yn gyffredin, ond mae bwlch atebolrwydd oherwydd nad yw effeithiau tymor canolig i dymor hwy'r strategaethau a'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro'n effeithiol. Fel y dywedodd un ymatebydd, mae prosiectau 'yn colli momentwm ac mae unrhyw gamau cadarnhaol yn cael eu dadwneud', a nododd un arall, er bod cyfrifoldeb am gydraddoldeb a hawliau dynol yn bodoli mewn egwyddor mewn deddfwriaeth, mae pwyslais ar adrodd (na chaiff ei ddilyn yn aml) yn hytrach na 'dal sefydliadau'n atebol am ganlyniadau.'

9.56. Roedd llawer o'r cyfweleion yn canmol yr adroddiadau a gynhyrchir gan yr EHRC mewn perthynas â Chymru, er enghraifft:

'Mae'r adroddiadau maen nhw'n eu cyhoeddi yn hynod bwysig i ni i gyd dwi'n meddwl o ran deall beth sy'n digwydd a beth sydd ddim yn digwydd yng Nghymru.' (IV22)

9.57. Roedd y rhai a gyfwelwyd wedi cydnabod bod yr EHRC wedi cynyddu ei waith yn ddiweddar yng Nghymru, ond yn gyffredinol roedd pryderon ynghylch pwerau, cyllid ac effeithiolrwydd:

'Ac wrth gwrs mae'r EHRC yn fath o ddynwarediad gwelw o'i hunan blaenorol. Hynny yw, wyddoch chi, 'slawer dydd roedd ganddon ni dri chomisiwn ac yna daeth yn un ac yna dros y blynnyddoedd, rydych chi'n gwybod mae wedi cael ei wneud yn llai ac yn llai ac mae ei bwerau wedi'u dileu. Felly, ie, does dim gorfodaeth naill ai yn y corff rheoleiddio nac mewn asiantaethau eraill, trwy asiantaethau eraill.' (IV3)

9.58. Codwyd y ffaith bod yr EHRC yn gyfuniad o gyrff atebolrwydd mwy penodol ar draws y dystiolaeth fel rheswm dros rywfaint o'i ddiffyg effeithiolrwydd canfyddedig. Fel yr amlygodd un cyfwelai:

'byddwch yn gweld llawer llai yn dod allan o'r EHRC na'r hyn a arferai ddod allan o'r sefydliadau penodol oherwydd eu bod, mewn gwirionedd, roedd ganddynt un dasg ond nawr maen nhw wedi cael nifer o dasgau...' (IV10)

9.59. Cysylltodd y rhai a gyfwelwyd ddiffyg effaith yr EHRC yng Nghymru â'r hyn a ystyrid fel ei bŵer cyfyngedig i 'orfodi' argymhellion a wnaed mewn adroddiadau, un enghraifft a roddwyd oedd ei adroddiad ar 'Hiliaeth mewn Addysg Uwch' lle dywedodd un cyfwelai:

'beth fu'r effaith o hynny, bron iawn dim oherwydd ni fu unrhyw rym deddfwriaethol y tu ôl iddo i ddweud, dal funud, mae'n rhaid i chi weithredu

rhywfaint ynglŷn â hyn, mae angen system unioni arnoch chi, mae angen llinellau amser arnoch chi...' (IV12).

9.60. Roedd rhai ymatebwyr i'r arolwg (rhanddeiliaid proffesiynol) o'r farn y dylai'r EHRC fod â phwerau gorfodi cynyddol. Mae'r dystiolaeth gan bobl sydd â phrofiad bywyd hefyd yn argymhell cryfhau rolau gorfodi'r EHRC ac yn datgelu pryderon ynghylch digonolrwydd cyllid ar gyfer yr EHRC yng Nghymru a rannwyd ar draws y dystiolaeth. Er enghraifft, gan gyfweleion:

'y toriadau cyllid y maen nhw wedi'u dioddef dros yr, wel, wn i ddim, 10, 15 mlynedd diwethaf neu fwy, maen nhw wedi cael ergyd enfawr sydd wedyn yn erydu eu gallu i wir gymryd yr achosion hyn a dwyn pobl i gyfrif, felly mae angen iddynt fod yn ddetholus iawn o ran pa frwydr maent yn ei ddewis mewn gwirionedd.' (IV10)

9.61. Fodd bynnag, ymddengys bod canfyddiad o ddiffyg defnydd a / neu ddiffyg gwelededd y swyddogaeth hon, ac roedd nifer o gyfweleion a chyfranogwyr gweithdy o'r farn ei bod yn anodd cael mynediad at gefnogaeth gan yr EHRC ar gyfer 'achosion prawf'.

'Rwy'n credu, pe byddech chi'n cynnal pŵl gwelltyn a gofyn i bobl eraill (sydd â chyfrifoldeb am atebolrwydd), byddai pawb, y rhan fwyaf o bobl, yn dweud ar unwaith, "O, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, mae'n debyg", oherwydd dyna beth sydd yn eu teitl felly mae'n naturiol meddwl efallai mai nhw yw'r rhai. Ond, unwaith eto, wyddoch chi, rydyn ni'n gwybod nad ydyn nhw'n gwneud gwaith achos gweithredol, yn sicr yng Nghymru, felly i ble mae rhywun i fod i fynd, er mwyn cael rhywun i edrych ar eu cwyn dim ond o ran a fu toriad hawliau dynol?' (IV20)

9.62. Roedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd, felly, o'r farn mai'r EHRC yw'r corff amlwg ar gyfer atebolrwydd cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, ond y gellid gwella ymwybyddiaeth o hyn yn enwedig ymhlith y cyhoedd. Trafododd nifer o gyfweleion y berthynas rhwng yr EHRC a'r trydydd sector, gan awgrymu bod gan sefydliadau'r trydydd sector rôl allweddol wrth ddwyn achosion posibl i sylw'r EHRC, ond roedd

cwestiynau wedyn ynghylch a oes gan yr EHRC ddigon o adnoddau i symud ymlaen â'r hawliadau hyn i sicrhau gorfodaeth fwy ffurfiol.

9.63. Ystyriodd rhai ymatebwyr i'r arolwg (rhanddeiliaid proffesiynol) a chyfweleion a ellid datganoli agweddau ar rôl yr EHRC. Mae'r ymateb hwn i'r arolwg yn enghraifft o hyn:

'Mae angen datganoli'r EHRC neu o leiaf mae angen rhoi mwy o ymreolaeth i Bwyllgor Cymru dros faterion Cymru yn unig fel y gall weithredu yng Nghymru.'

9.64. Ond mynegodd tystiolaeth arall bryderon ynghylch sut y gellid cyflawni hyn o ystyried y cyd-destun datganoli, a nodwyd gair o rybudd o ran cymhlethdod cael gwahanol brosesau atebolrwydd ar gyfer cyrff neu faterion datganoledig a heb eu datganoli, yn seiliedig ar y profiad o atebolrwydd am Safonau Iaith Gymraeg (dyletswyddau ar y mwyafrif o gyrff datganoledig) a Chynlluniau Iaith Gymraeg (dyletswyddau ar gyrff heb eu datganoli). Awgrymwyd hefyd bod natur yr EHRC ledled y DU yn gryfder, gan ddarparu statws mwy awdurdodol iddo, gan gynnwys ar y llwyfan rhyngwladol, tra hefyd yn caniatáu gwahaniaethau, gan rannu arfer gorau a dysgu, ledled Cymru, yr Alban a Lloegr.

Synthesis: Atebolrwydd a gorfodi

9.65. Yn hon, ac adrannau eraill yr adroddiad hwn, mae'r dystiolaeth yn glir bod angen cymryd camau i gryfhau atebolrwydd am gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, gan gynnwys trwy orfodi. Mae'r adran hon wedi tynnu sylw at botensial cyfiawnder gweinyddol i gefnogi atebolrwydd. Er bod angen cryfhau atebolrwydd am gydraddoldeb a hawliau dynol, mae hyn yn dibynnu ar bobl yn gallu cyrchu gwasanaethau cyngor, hyd at a chan gynnwys gwasanaethau cyngor a ariennir gan gymorth cyfreithiol. O'n tystiolaeth ni, mae'n ymddangos nad oes llawer o awydd yn gyffredinol ar gyfer cyrff atebolrwydd newydd, ond yn hytrach i wella mynediad pobl i'r iawn presennol, yn enwedig eu mynediad at fecanweithiau cwyno unigol. Trafodir y materion hyn ymhellach yn yr adran 'Casgliadau'. Mae'r argymhellion yma yn bennaf o dan 'Atebolrwydd a gorfodi' (gweler Tabl 1 isod), ond mae argymhelliad 1 hefyd yn berthnasol.

10. Casgliadau: Codi ymwybyddiaeth

Cyd-destun

10.1. Mae codi ymwybyddiaeth, a datblygu dealltwriaeth yn agwedd allweddol ar adeiladu cefnogaeth ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol (Equally Ours (a) a (b) n.d; OHCHR 2002). Mae addysg a hyfforddiant yn dylanwadu ar agweddau tuag at gydraddoldeb a hawliau dynol, a gallant sicrhau gwelliannau trwy well arsylwi a newid diwylliannol (OHCHR 2002: 8). Nid yw'n syndod felly bod mecanweithiau'r Cenhedloedd Unedig wedi nodi addysg a hyfforddiant fel mecanweithiau allweddol i gefnogi gwireddu cydraddoldeb a hawliau dynol, a bu galwadau ar Wladwriaethau i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Addysg Hawliau Dynol (OHCHR 2002). Er enghraifft, mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig CEDAW:

'Yn annog pob plaid Gwladwriaeth yn effeithiol i fabwysiadu rhaglenni addysg a gwybodaeth gyhoeddus, a fydd yn helpu dileu rhagfarnau ac arferion cyfredol sy'n rhwystro gweithrediad llawn yr egwyddor o gydraddoldeb cymdeithasol i fenywod.' (UN CEDAW 1987: argymhelliad cyffredinol 3)

10.2. Gellir ystyried bod addysg ar hawliau dynol ymhlith rhwymedigaethau hawliau dynol allweddol Gwladwriaethau, ac mae wedi ei nodi felly gan y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn sydd wedi nodi bod rhwymedigaeth i 'datblygu hyfforddiant a meithrin gallu i bawb sy'n ymwneud â'r broses weithredu - swyddogion y llywodraeth, seneddwyr ac aelodau'r farnwriaeth' (CRC y Cenhedloedd Unedig 2003: para. 53). Mae'r Pwyllgor yn mynd ymlaen i argymhell hyfforddiant i bawb sy'n gweithio gyda phlant ac ar eu cyfer, gan gynnwys, er enghraifft, arweinwyr cymunedol a chrefyddol, athrawon, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill, yn cynnwys y rhai sy'n gweithio gyda phlant mewn sefydliadau a lleoedd cadw, yr heddlu (ibid: 12-13). Er bod sylwadau'r Pwyllgor yn ymwneud yn uniongyrchol â hawliau plant, mae pwysigrwydd addysg ar gydraddoldeb a hawliau dynol yn cael ei gydnabod yn eang fel allwedd i weithredu trwy adeiladu gallu a grymuso unigolion i fanteisio ar eu hawliau (DIHR 2007; CPC 2016; OPC 2015). Mae addysg (a hyfforddiant) hefyd yn grymuso unigolion i ymgysylltu â phrosesau sy'n effeithio arnyn nhw a'u hawliau (megis cyfranogi, asesu effaith neu gydgynghyrchu) (ibid). Y gwrthwyneb yw bod diffyg ymwybyddiaeth o'r cysyniadau hyn yn rheswm sylweddol pam nad yw pobl yn

herio neu'n ei chael hi'n anodd herio penderfyniadau corff cyhoeddus sy'n effeithio ar eu hawliau a'u hawliau dynol ac yn cyflwyno rhwystr ychwanegol rhag cyrchu unioniad (Nason *et al* 2020a).

10.3. Mae'r llenyddiaeth yn rhoi mewnwelediadau i sut y gellir darparu addysg cydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys trwy ddatblygu llawlyfrau, cyfarwyddiaduron neu ddeunyddiau hyfforddi, addysg, gweithgareddau codi ymwybyddiaeth (DIHR 2007; OHCHR 2002). Ni ddylid cyfyngu addysg ar gydraddoldeb a hawliau dynol i ysgolion. Dylai Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus (PLE) fod yn agwedd annatod o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cyfarfodydd cyhoeddus, ymgyrchoedd cyfryngau, cefnogaeth i grwpiau hunan-fyddino, codi ymwybyddiaeth, addysg y gweithlu, a gweithgareddau addysgol wedi'u targedu sydd hefyd yn hwyluso cynhwysiant (DIHR 2007). Mae PLE yn agwedd ar rymuso (ibid). Mae'n helpu'r cyhoedd i ddeall materion cyfreithiol ac i fod yn ymwybodol o'u hawliau. Mae PLE yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau gyda'r nod o 'rymuso cyfranogwyr, a chynyddu eu hyder a'u gallu i ddelio â'u problemau sy'n gysylltiedig â'r gyfraith' (Pwyllgor y Cyfreithiwr Cyffredinol ar PLE n.d., dim rhif tudalen). Mae gwell gwybodaeth am hawliau a materion cyfreithiol yn grymuso unigolion a chymunedau, gan eu galluogi i gymryd mwy o reolaeth dros eu bywydau, delio â'u problemau, cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, a chymryd rhan wrth lunio'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw (ibid). Dadleuodd Comisiwn Low: 'Mae PLE yr un mor bwysig wrth sicrhau cyfiawnder cyfartal ag y mae addysg iechyd cyhoeddus wrth fynd i'r afael ag iechyd y genedl' ac y dylid rhoi blaenoriaeth uwch i PLE (Comisiwn Low 2014: Atodiad 6).

10.4. Amlygodd y GER addysg fel offeryn hanfodol wrth yrru'r newid diwylliant sydd ei angen i ddarparu Cymru sy'n fwy cyfartal trwy herio ystrydebau, a chanfu fod diwygiadau addysg yn cynnig cyfle i wreiddio cydraddoldeb a chefnogi datblygiad dinasyddion cyflawn a hyddysg (Chwarae Teg 2019). Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod rôl addysg wrth hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae wedi nodi:

‘...mae gan wasanaethau gwybodaeth a chyingor dibynadwy, sydd wedi'u hintegreiddio'n dda, ran bwysig i'w chwarae wrth addysgu pobl am eu hawliau

a'u helpu i wneud dewisiadau gwybodus. Gall hyn hefyd gyfrannu at lesiant trwy helpu pobl i helpu eu hunain, a gall atal problemau rhag gwaethygu.' (Llywodraeth Cymru 2019b: 24)

10.5. Argymhellodd y CoJ, gan gydnabod gwerth PLE, y dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu i hyrwyddo a chefnogi PLE, yn enwedig i blant a phobl ifanc (CoJa 2019). Er na ddylid cyfyngu ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol a PLE i blant a phobl ifanc a lleoliad yr ysgol, cydnabyddir bod y system addysg yn cyfrannu'n bwysig at ddatblygu cymdeithas sy'n parchu'r cysyniadau hyn. Mae'r EHRC wedi dadlau y gall addysgu am gydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys sut y gwarantir amddiffyniad rhag gwahaniaethu yn EA 2010 helpu ysgolion a Llywodraeth Cymru i gyflawni eu PSED a'u rhwymedigaethau mewn perthynas â'r SED (EHRC n.d., tystiolaeth ar fil cwricwlwm yng Nghymru.). Gellir ystyried addysg fel agwedd ar rymuso plant, yn gyson â dull hawliau dynol plant, gan y bydd addysg yn darparu gwybodaeth a hyfforddiant hygyrch i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hawliau dynol (CPC 2016, 2017).

10.6. Gwnaeth y CoJ nifer o argymhellion ar addysg seiliedig ar fframweithiau cyfreithiol penodol Cymru, a daeth i'r casgliad y dylid sefydlu Cyngor y Gyfraith i hyrwyddo buddiannau addysg gyfreithiol ac ymwybyddiaeth o gyfraith Cymru (CoJ 2019a). Yn ddiweddar, argymhellodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod addysg hawliau dynol, gan gynnwys hawliau plant gan gyfeirio at y CRC, yn cael ei haddysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru newydd (CYPEC 2020: argymhelliad 9). Byddai hyn yn adeiladu ar ddyfarniad 'Ysgolion sy'n Parchu Hawliau' UNICEF sy'n cydnabod addysg ar hawliau dynol, a diwylliant o hawliau dynol yn yr ysgol. Mae'r Wobr Ysgol sy'n Parchu Hawliau yn helpu ysgolion i ddefnyddio'r CRC fel eu fframwaith gwerthoedd er mwyn bod yn le sy'n 'parchu hawliau' (UNICEF 2010).

10.7. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn At the time of writing this report, mae Llywodraeth Cymru yn y broses o dreialu ei Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) trwy broses ddeddfwriaethol y Senedd. Cytunodd bord gron o randdeiliaid a gynullwyd o flaen llaw i'r Bil ar bwysigrwydd bod plant a phobl ifanc yn gwybod am eu hawliau

dynol (CYPEC, 2020). Er gwaethaf hyn, nid yw'r Bil yn cynnwys gofyniad gorfodol ar gyfer hyfforddiant ar gydraddoldeb a hawliau dynol, ond yn hytrach mae'n ei gwneud yn ofynnol i 'feysydd dysgu a phrofiad' y cwricwlwm gynnwys 'crefydd, gwerthoedd a moeseg' (adran 3). Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i addysgu o dan y penawdau hyn adlewyrchu'r ffaith y cynhelir safbwyntiau athronyddol anghrefyddol ym Mhrydain Fawr ac y gallai'r safbwyntiau hyn gynnwys cydraddoldeb a hawliau dynol. Er na fydd y Bil Cwricwlwm, os caiff ei ddeddfu, yn atal addysgu ar gydraddoldeb a hawliau dynol, nid oes unrhyw ofyniad i hyn ddigwydd. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar y Bil yn egluro bod dealltwriaeth o hawliau dynol yn helpu plentyn i ddatblygu parch at eraill a'i hunain, ac yn nodi bod dysgu trwy hawliau dynol yn cyfrannu at ddatblygu gwerthoedd, agweddau ac ymddygiadau sy'n adlewyrchu hawliau dynol sy'n sail i ddinasyddiaeth weithredol i hybu parch tuag at hawliau pawb (Llywodraeth Cymru 2020g: para. 9.12). Mae'r canllaw Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 (Llywodraeth Cymru 2020h), yn tynnu sylw at fuddion cwricwlwm sy'n cydnabod diwylliant amrywiol cymdeithas a sut mae hyn yn hyrwyddo cydraddoldeb, a chynhwysiant, ac yn 'galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o bobl â gwahanol gredoau a safbwyntiau ac i herio ystrydebau' (ibid: 42). Mae'r canllaw hefyd yn nodi perthnasedd cydraddoldeb a hawliau i wahanol rannau o'r cwricwlwm ac yn nodi y gall 'profiadau' ym maes hawliau dynol helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau a'u hawliau eu hunain (ibid: 125), ond nid oes canllaw penodol i ddysgwyr gael eu dysgu am gydraddoldeb neu hawliau dynol fel pynciau craidd.

Tystiolaeth gan randdeiliaid: Codi ymwybyddiaeth

10.8. Mae ein harolwg gyda rhanddeiliaid proffesiynol yn dangos bod 93 y cant, h.y. 108 o 116 o ymatebwyr, yn cytuno bod gwella addysg ar gydraddoldeb yn her allweddol i Gymru, tra bod 92 y cant, h.y. 106 o 115 o ymatebwyr, yn meddwl yr un peth am addysg hawliau dynol. Roedd 83 y cant, h.y. 95 o 114 o ymatebwyr, yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o gydraddoldeb a hawliau dynol, ac roedd 86 y cant, h.y. 89 o 103 o ymatebwyr, yn teimlo y gallai awdurdodau cyhoeddus wneud mwy yn y maes hwn yn lefel leol. Ar sut i sicrhau gwell ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol, roedd 83 y cant, h.y. 89 o 107 o ymatebwyr, yn teimlo bod angen canolbwyntio mwy ar y pynciau hyn yn y cwricwlwm, tra bod 86 y cant, h.y. 91 o 106 o ymatebwyr, yn teimlo bod angen hynny i fod yn fwy PLE. Roedd 87 y cant, h.y. 92 o 106 o ymatebwyr, hefyd yn teimlo

bod angen mwy o ymgyrchoedd gwybodaeth, tra bod 78 y cant, h.y. 83 o 106 o ymatebwyr, yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru wneud mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol gydag 84 y cant, 88 o 105 o ymatebwyr, yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r cyfryngau cyffredinol yn fwy effeithiol at y diben hwn.

10.9. Cyfeiriodd y rhai a gyfwelwyd at ddiffyg dealltwriaeth y cyhoedd o gydraddoldeb a hawliau dynol fel her allweddol a'r angen i wneud mwy i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys trwy PLE a chan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn. Er enghraifft:

'Na, dydyn nhw ddim yn gwneud digon. ... mae'n beth ymylol iawn felly (mae yna) sôn amdano mewn rhai cyfarfodydd ond nid mewn cyfarfodydd eraill ac mae'n absennol iawn o, wyddoch chi, unrhyw fath o drafodaeth am blant ac addysg a'r cwricwlwm newydd lle rwy'n credu bod angen iddo fod yn anad dim.' (IV1)

'wyddoch chi, rhywun oddi ar y stryd, pe bawn i'n eu stopio a gofyn iddynt am gydraddoldeb a hawliau dynol, rwy'n 99 y cant yn siŵr na fyddent yn siŵr iawn am beth dwi'n gofyn amdano. Felly mae lle bob amser i fwy, ac i gael mwy o eglurder. Ac rwy'n credu, wyddoch chi, y gall Llywodraeth Cymru wneud mwy i hyrwyddo ac, wyddoch chi, i'w gwneud ychydig yn haws i'w ddeall i bawb. Ac i'w wneud ychydig yn glir p'un a yw'n rhywbeth hawdd i'w ddarllen neu'n fideo yn egluro popeth mewn ffordd glir, syml.' (IV19)

10.10. Roedd hwn hefyd yn fater a godwyd mewn gweithdai. Awgrymodd cyfranogwyr mai her allweddol i gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru yw'r diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd, a nodwyd yr angen i godi ymwybyddiaeth o sut mae hawliau dynol a chydaddoldeb yn gysylltiedig â bywyd bob dydd a sut y gall pobl arfer eu hawliau.

10.11. Amlygodd nifer o'r cyfweleion effaith gadarnhaol bosibl adeiladu ymwybyddiaeth ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus glir gan ddefnyddio

enghreifftiau bywyd go iawn sy'n atseinio gyda phobl gyffredin. Trafodwyd nifer o fecanweithiau ar gyfer codi ymwybyddiaeth:

'yr hyn sydd ei angen arnom yw mwy o ymgyrch o amgylch yr hyfforddiant ymwybyddiaeth hwnnw i ymarferwyr ac mae'n debyg rhywfaint o ymgyrchu ymwybyddiaeth y cyhoedd.' (IV5)

'ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus ynghylch beth yw hawliau dynol, beth maen nhw'n ei olygu yng Nghymru, i ble allwch chi fynd os tramgwyddir ar eich hawliau dynol, rydych chi'n teimlo bod eich hawliau dynol wedi'u torri, yn enwedig o ran hunaniaethau ymylol, wyddoch chi, dwi'n teimlo fel petai'r wybodaeth honno'n brin.' (IV8)

'gellid mynd i'r afael â hyn trwy, pwynt rhif un, addysg orfodol, briodol a chyson ar gydraddoldeb a hawliau dynol mewn ysgolion... addysgu plant a phobl ifanc am y diffiniad cywir o dermau a ddefnyddir yn aml yng nghydestun cydraddoldeb a hawliau dynol fel hil, crefydd, hawliau dynol, ceisiwr lloches, ethnigrwydd, cywirdeb gwleidyddol. ... hyfforddiant i athrawon a staff cymorth i gydnabod a mynd i'r afael â materion fel hiliaeth ac aflonyddu er enghraifft. ... (ar y) peryglon a achosir gan sylw ymfflamychol a hynod negyddol yn y wasg i gymunedau lleiafrifol, ac ystyried a oes unrhyw gwmpas i gryfhau llais y cymunedau hyn yn erbyn sylw o'r fath... (ac) ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus gadarnhaol i fynd i'r afael ag iaith amhriodol a hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o hawliau dynol (IV2)

10.12. Cydnabuwyd hefyd, er y gallai fod heriau i godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol, serch hynny, dylai hyn fod yn rôl bwysig i'r llywodraeth:

'Rwy'n credu ei bod yn anodd iawn i lywodraethau redeg hyn, anodd iawn ac a yw'n effeithiol i lywodraethau redeg ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, felly rhaid aros cyn llunio barn ar hynny, ond rwy'n teimlo mai ffordd dda o godi ymwybyddiaeth fyddai trwy ddefnyddio rhai enghreifftiau a thrwy ei gwneud yn glir beth yw hawliau pobl a defnyddio rhai enghreifftiau.' (IV7)

'Mae codi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn un pwysig. Rwy'n credu mai un o'r rhwystrau i ddod drosodd yw nad yw rhywfaint o'r iaith gydraddoldeb yn addas ar gyfer sgwrs bob dydd. Er enghraifft, effaith andwyol, nodweddion gwarchodedig. Y foment y mae'n rhaid i chi egluro beth mae'n ei olygu, yw'r foment rydych chi wedi colli'r gynulleidfa. Rwy'n derbyn bod hyn yn wir hefyd am ddarnau eraill o ddeddfwriaeth, ond dylai rhywbeth a allai effeithio ar bawb - waeth pwy ydych chi - fod yn fwy 'hawdd i'w ddarllen'. Byddai hyn nid yn unig o fudd i grwpiau penodol fel y rhai ag anabledd dysgu, ond byddai'n fuddiol i bawb. Hyd yn oed os oedd hyn yn ymwneud â chael y prif negeseuon pennawd allan yna.' (IV13)

10.13. Roedd y rhai a gyfwelwyd hefyd yn cydnabod yr her i addysg ar gydraddoldeb a hawliau dynol yn erbyn cefndir gelyniaeth y cyfryngau, er enghraifft:

'ond wyddoch chi daw ymwybyddiaeth y cyhoedd wrth fynd i'r afael â'r diwylliant sy'n caniatáu i hawliau dynol gael eu pardduo hefyd ac felly mae'r cyfryngau wedi rhan fawr i'w chwarae yma. ... mae wedi creu diwylliant lle mae pobl yn teimlo bod hawliau dynol yn rhywbeth i'w ddilorni, ei fod yn rhywbeth a allai fod, nad yw'n gyffredinol, y dylid ei roi o'r neilltu os ydych chi wedi gwneud rhywbeth sy'n cael ei ystyried yn ddadleuol yn llys barn y cyhoedd, ac mae'r diwylliant hwnnw yn wirioneddol niweidiol, ac mae'n atal pobl rhag cyrchu hawliau dynol sylfaenol ac mae'n ychwanegu stigma at hawliau dynol ac at faterion cydraddoldeb.' (IV11)

10.14. Adleisiwyd y thema hon yn y sylw gan gyfwelai arall a bwysleisiodd y dylid ymdrechu i wrthsefyll camddealltwriaeth ynghylch hawliau dynol yn benodol:

'Ond hefyd rwy'n credu, gallai fod ymwybyddiaeth gryfach o bethau cadarnhaol cydraddoldeb a hawliau dynol. Wyddoch chi, mae wedi cael ei draflyncu i gael eich ystyried fel, wyddoch chi, mae bod yn PC neu hawliau dynol yn ymwneud â hawliau terfysgwyr neu beth bynnag. Felly does yna ddim diwylliant o gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, wyddoch chi. A dwi'n credu y gallai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill osod yr agenda.' (IV3)

10.15. Gwnaeth nifer o gyfweleion sylwadau ar yr angen i addysgu pobl yng Nghymru ar fframweithiau cyfreithiol penodol, er enghraifft:

'Rwy'n credu nad yw pobl yn glir ynghylch pa ddeddfwriaeth sy'n bodoli, beth yw eu hawliau cyfreithiol gwirioneddol mewn perthynas â chydraddoldeb neu hawliau dynol, mae yna ddryswch gwirioneddol ynglŷn â pha systemau cyfreithiol sy'n gallu cynnal yr hawliau hynny, p'un a ydyn nhw, p'un a yw'n addysg benodol yng Nghymru neu'n ddeddfwriaeth y DU neu Ewrop.' (IV1)

10.16. Nododd nifer o gyfweleion wahanol feysydd ar gyfer addysg hawliau dynol, gan gynnwys y gweithle ac ysgolion, er enghraifft:

'Rwy'n credu bod y llywodraeth yn llafar ar hyn, ond mae ymwybyddiaeth yn y gweithle yn dal i fod yn isel. Rwy'n credu nad yw ysgolion o reidrwydd yn dysgu hyn yn ddigonol ac yn sicr fe ellid cryfhau'r cwricwlwm.' (IV11)

10.17. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd hefyd fod angen mynd i'r afael â chydraddoldeb a hawliau dynol trwy'r cwricwlwm, ac y dylai hyn ymgorffori addysg am y system cyfiawnder gweinyddol i ddeall llwybrau i heriau, unioniad ac atebolrwydd:

'fe wyddom y bydd yr ysgolion gorau yn parhau i fod yn dda iawn am ddysgu hawliau dynol ac na fydd yr ysgolion gwannach. Rydym wedi llwyddo i'w gynnwys trwy gydol y cwricwlwm ar hyn o bryd, sy'n wych, ond oni bai ei fod wedi'i danategu gan y ddeddfwriaeth, gallai ddisgyn allan o'r cynnwys hwnnw'n eithaf hawdd.' (IV16)

10.18. Yn yr un modd, dangosodd canfyddiadau'r gweithdy gydnabyddiaeth gref o bwysigrwydd adeiladu ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol. Er enghraifft, mae'r dyfyniad hwn o un nodyn gweithdy:

'Nid oes gan lawer o bobl ddealltwriaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol ac nid yw sylw negyddol yn y cyfryngau yn helpu', a bod 'angen adnoddau helaeth i newid diwylliant ac ymddygiad dros amser'

10.19. Awgrymodd cyfranogwyr eraill y gweithdy efallai y '(g)allai canllawiau defnyddwyr sy'n tybio lefel sylfaenol o addysg a chodi ymwybyddiaeth sy'n gwneud deiliaid hawliau yn ganolog yn hytrach na chyflawnwyr hawliau' fod yn werthfawr. Mae tystiolaeth o'r gweithdai yn nodi'r angen i gynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig mewn unrhyw ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus.

10.20. Ar draws pob un o'r fforymau, nododd cyfranogwyr angen i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o gydraddoldeb a hawliau dynol a gwneud gwybodaeth yn hygyrch i bawb. Yn Fforwm Hil Cymru, nododd cyfranogwyr angen cryf i fynd i'r afael â'r diffyg ymwybyddiaeth eang a'r farn negyddol am gydraddoldebau a hawliau dynol yng Nghymru (fel yng ngweddill y DU) oherwydd gall canfyddiad y cyhoedd o'r cysyniadau hyn fod yn gul a chenedlaetholgar iawn. Teimlai'r cyfranogwyr y dylid dyrannu mwy o adnoddau tuag at godi ymwybyddiaeth a grymuso pobl i ddeall bod cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb. Yn y Fforwm Ffydd, nododd cyfranogwyr angen dybryd i bobl fod yn fwy ymwybodol o'u hawliau, gan gynnwys trwy wybodaeth am gydraddoldeb a hawliau dynol sy'n hygyrch i'r 'dinesydd cyffredin'.

10.21. Mae'r dystiolaeth gan blant a phobl ifanc yn tynnu sylw at bryderon nad oes gan bobl ifanc lawer o ymwybyddiaeth o'u hawliau na ble i ddod o hyd i'r wybodaeth hon. Roedd y grwpiau ffocws yn glir iawn bod angen codi ymwybyddiaeth mewn perthynas â'r CRC, ond hefyd hawliau dynol a chydaddoldeb yn ehangach, gan gynnwys sut i weithredu os torrir hawliau a sut y gellir cefnogi pobl ifanc i herio torri eu hawliau. Mae'r dystiolaeth hon yn tynnu sylw at ddiffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r CRC a hawliau dynol ond mae hefyd yn nodi bod hyn yn berthnasol i rai gweithwyr proffesiynol mewn sectorau penodol, ac yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'u hawliau. Mae'r dystiolaeth gan grwpiau ffocws Young Wales hefyd yn awgrymu y byddai gwell ymwybyddiaeth o faterion penodol yn golygu y byddai plant a phobl ifanc yn teimlo mwy o rym i 'sefyll i fyny, codi llais a cheisio cefnogaeth', ond mae'n mynd ymlaen i nodi nad yw pob ysgol yng Nghymru yn dysgu plant a phobl ifanc am hawliau dynol a chydaddoldeb, sy'n rhoi pobl ifanc mewn rhai ardaloedd dan anfantais. Mae plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil yn argymhell gwersi gorfodol ar y CRC, hawliau dynol ac EA 2010 fel rhan o gyrsiau hyfforddi athrawon ledled Cymru, a darparu cyfleoedd

hyfforddi rheolaidd i'r holl athrawon. Mae argymhellion eraill yn cynnwys: ymyrraeth ar unwaith a gweithredu sesiynau ymwybyddiaeth hawliau ar gyfer plant hŷn; mewnosod sesiynau rheolaidd ar gyfer plant iau yn y cwricwlwm; a chodi ymwybyddiaeth o hawliau ymhlith holl blant a phobl ifanc Cymru.

10.22. Thema allweddol a godwyd gan bobl â phrofiad bywyd oedd yr angen am addysg, hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar gydraddoldeb a hawliau dynol, ym mhob sefydliad. Nododd y grŵp hwn o gyfranogwyr ymchwil yr angen am wybodaeth mewn iaith glir, hygyrch a syml, ac i ymgyrchoedd cyfryngau herio sylw negyddol. Maent yn argymhell y dylai addysg mewn ysgolion ymgorffori ymwybyddiaeth o wahanol grwpiau mewn cymdeithas yn llawn a dylent fynd i'r afael â chamdybiaethau, rhagfarn, rhagfarn ddarwybod a labelu sarhaus, ac argymhell ymhellach y dylid cynnwys pobl o grwpiau amrywiol mewn sesiynau mewn ysgolion. Mae argymhellion eraill yn cynnwys: sicrhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn agweddau craidd o'r cwricwlwm ar draws pob pwnc, a darparu hyfforddiant cydraddoldeb a hawliau dynol cynhwysfawr i athrawon a staff cymorth ysgolion.

10.23. Mae'r dystiolaeth gan bobl sydd â phrofiad bywyd hefyd yn tynnu sylw at yr angen i wella cydraddoldeb a hyfforddiant hawliau dynol i sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mae'n nodi'r angen i sefydliadau preifat a'r trydydd sector weithredu hyfforddiant a datblygiad parhaus mewn cydraddoldeb a hawliau dynol i'w darparu gan grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector.

Synthesis: Codi ymwybyddiaeth

10.24. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y dylai sefydliadau'r sector cyhoeddus ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd am wasanaethau a chefnogaeth i wahanol gymunedau a grwpiau mewn fformat hygyrch, ac y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ymgynghrair addysg gyhoeddus barhaus ar raddfa fawr ar hawliau pobl ac i daclo rhagfarn a chamsyniadau yn erbyn grwpiau amrywiol yng nghymdeithas Cymru. Mae pobl sydd â phrofiad bywyd yn cyflwyno nifer o syniadau i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol, mae'r rhain yn cynnwys: ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ar y teledu a'r radio, mewn papurau newydd, trwy'r cyfryngau cymdeithasol a phosteri i sicrhau eu bod yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl; straeon cadarnhaol a hyrwyddir yn y cyfryngau

Cymreig i sefyll yn erbyn sylw negyddol; taflen ffeithiau cydraddoldeb a hawliau dynol i'w hanfon at bob cartref yng Nghymru mewn nifer o ieithoedd cymunedol a fformatau hygyrch; ac aelodau etholedig ar bob lefel i hyrwyddo gweithredoedd lleol i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol. Adlewyrchir yr awgrymiadau hyn yn ein hargymhellion 34-39.

11. Casgliadau: Covid-19

Cyd-destun

11.1. Mae corff cynyddol o lenyddiaeth yn dangos bod y pandemig wedi datgelu a gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol mewn cymdeithas, ac wedi codi llawer o faterion yn ymwneud â chydbwysio hawliau unigolion, a hawliau a diddordebau eraill a chymdeithas yn gyffredinol. Mae'r llenyddiaeth hefyd yn datgelu effaith anghymesur a niweidiol y pandemig ar fenywod (Chwarae Teg 2020; WEN Cymru 2020b); ar blant a phobl ifanc (Plant yng Nghymru 2020; Senedd CYPEC 2021); ar bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol (Ogbonna 2020); pobl anabl (Anabledd Cymru ac eraill, 2020); pobl hŷn (OPC 2020); a gofalwyr (Gofalwyr Cymru 2020). Mae 'polisi a strategaeth' Llywodraeth Cymru ar gyfer ailadeiladu ôl-bandemig yn nodi nifer o feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, tai, addysg, cyflogaeth a'r amgylchedd (Llywodraeth Cymru 2020m). Mae'n nodi mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chefnogi llesiant fel materion y dylid mynd i'r afael â hwy wrth i Gymru adfer o'r pandemig. Nid yw'r polisi'n adlewyrchu sut mae pandemig wedi effeithio ar hawliau dynol.

11.2. Fel y nodir yn y dystiolaeth a drafodir isod, arweiniodd y pandemig hefyd at nifer o fentrau blaengar gyda'r potensial i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol. Ymhlith y rhain mae sefydlu 'Grŵp Cyngori Moesol a Moesegol Covid' (Llywodraeth Cymru 2020i). Er bod y grŵp yn cynnwys arbenigwyr o'r sectorau cydraddoldeb a hawliau dynol, mae ei gylch gorchwyl yn cyfeirio at ei rôl i:

'gasglu a chydlynu materion sy'n ymwneud ag ystyriaethau moesol, moesegol, diwylliannol a ffydd, a darparu ffynhonnell cyngor i wasanaethau

cyhoeddus ar faterion. yn deillio o'r ymateb argyfwng iechyd a gofal cymdeithasol i bandemig Covid-19' (ibid.)

11.3. Mae'r cylch gorchwyl hefyd yn nodi y bydd y cyngor yn arwain at 'reolaeth deg a chyfiawn' o 'ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd ledled Cymru, gan gynnwys y pandemig.' Fodd bynnag, nid ydynt yn cyfeirio'n benodol at yr angen i ddarparu cyngor ac arweiniad ar faterion cydraddoldeb neu hawliau dynol.

11.4. Yn ogystal â'r grŵp cynghori mae nifer o is-grwpiau wedi'u sefydlu i ymchwilio a gwneud argymhellion ar effaith Covid-19 ar bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Er enghraifft, ar effaith economaidd-gymdeithasol y pandemig ar bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol (Llywodraeth Cymru 2020j). Mae'r adroddiad hwn yn amlwg wedi ystyried materion cydraddoldeb a hawliau dynol, ac mae'n nodi'n benodol hawliau dynol y mae'r pandemig yn effeithio arnynt (gan gynnwys hawliau iechyd, a hawliau cyflogaeth) (ibid: para.53 a 63). Mae yna hefyd waith yn mynd rhagddo ar effaith Covid-19 ar bobl anabl ac i gwmpasu gofynion data mewn perthynas â hil a chydaddoldeb (gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, 6^{ed} Mawrth 2021, e-bost).

Tystiolaeth gan randdeiliaid: Covid-19

11.5. Amlygodd cyfweleion sut mae Covid-19 wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol ac wedi datgelu rhai bylchau mewn amddiffyniad ar gyfer hawliau dynol. Er enghraifft:

'fe wyddom ei fod wedi datgelu anghydraddoldebau strwythurol, systemig enfawr a oedd yno eisoes ond sydd wedi'u gwaethygu gan y pandemig coronafeirws, o ran y coronafeirws ei hun ond hefyd yr ymateb i'r pandemig a'r hyn sydd wedi digwydd.' (IV18)

'mae wedi tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â chydaddoldeb rhywiol yn aruthrol...' (IV7)

'Felly rwy'n credu mai dyna'r hyn y mae'r pandemig wedi'i amlygu yw ehangder mawr yr hiliaeth strwythurol yma sy'n croestorri bob cam o fywyd person...' (IV12)

'Mae'n debyg mai beth mae wedi ei wneud yw datgelu'r hyn a oedd yno eisoes. Hynny yw, yn amlwg mae hyn yn dilyn deng mlynedd o gyni ac mae wedi dinoethi'r gwendid mewn bywyd cyhoeddus yn gyffredinol, rwy'n credu. Ond hefyd, wyddoch chi, y diffyg sylw sydd wedi'i dalu i faterion cydraddoldeb a materion penodol pobl sydd â nodweddion gwarchodedig.' (IV3)

11.6. Ar draws yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd roedd materion penodol yn cynnwys effaith y pandemig ar bobl anabl, gofalwyr, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, plant a phobl ifanc, menywod a phobl hŷn.

11.7. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu cefnogaeth i ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig yn gyffredinol, gan gynnwys yr ymgysylltiad â sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau yr effeithir arnynt yn anghymesur. Er enghraifft:

'mewn rhai ffyrdd, byddwn i'n dweud bod Llywodraeth Cymru wedi dangos, fel y gellid disgwyl o'i hanes, ychydig mwy o ymwybyddiaeth mewn rhai ffyrdd o gydraddoldeb a materion hawliau dynol na rhai o'n llywodraethau eraill, yn fyd-eang ddim dim ond yn y Deyrnas Unedig.' (IV16)

'felly mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio cryn dipyn ar yr effaith anghymesur ar bobl BAME (sic), sydd wedi bod yn gadarnhaol, rwy'n credu ei fod, ac mae'r ffocws hwnnw wedi arwain at awydd o'r newydd i gymryd camau mwy penodol a brys ar gydraddoldeb.' (IV1)

11.8. Serch hynny, roedd nifer o feysydd pryder, ac roedd llawer ohonynt, er eu bod yn derbyn ei bod yn sefyllfa ddigynsail, yn ymwneud â diffyg parodrwydd. Roedd yna ymdeimlad clir hefyd bod y pandemig wedi datgelu gwendidau sylfaenol, aneffeithlonrwydd ac aneffeithiolrwydd mewn perthynas â chydraddoldeb a diogelu hawliau dynol. Er enghraifft:

'fe gymerodd amser maith i ddod allan gydag unrhyw ganllawiau o ran Deddf y Coronafeirws yng Nghymru, a oedd yn hwyr iawn yn dod, roeddem yn teimlo nad oedd yn adlewyrchu llawer o'r hyn y byddem wedi hoffi ei weld ynddo o amgylch amddiffyn hawliau gofalwr yn benodol, ac yna maen nhw wedi bod yn araf iawn i ymateb i bethau fel PPE i ofalwyr a phrofion i ofalwyr ac ati.' (IV10)

'y peth cyntaf i'w ddweud yw yn amlwg, nid oedd unrhyw un yn barod am hyn ac nid oedd y llywodraeth chwaith a dwi'n credu bod y llywodraeth wedi rhoi eu dwylo i fyny a chydabod yn gynnar iawn na ddilynwyd y broses gystal ag y dylid bod wedi'i gwneud... Rwy'n credu ei bod yn dangos mai'r gwendid yn y system eisoes yw'r diffyg capasiti yn y system, ac mae yna ddiffyg arbenigedd, felly pan fydd rhywbeth fel hyn yn digwydd, pwy sy'n gyfrifol a gwaith pwy ydi hyn?' (IV4)

11.9. Roedd hyn yn ymestyn i'r diffyg asesiadau effaith, er enghraifft:

'Felly er enghraifft, asesiadau effaith, ai dyna'r peth cyntaf i bobl feddwl amdano? Yn ôl pob tebyg na, ac eto os edrychwch ar y ddeddfwriaeth felly y dylai fod, oherwydd dylai fod, ond dangosodd yn glir beth ydym wedi bod yn ei ddweud ers nifer o flynyddoedd, nid yw'n cael ei ystyried yn rhan annatod o'r llywodraeth a dwi'n credu bod Covid wedi arddangos y gwendid yn y system.' (IV4)

'Felly yn amlwg mae gan y Ddeddf Cydraddoldeb y gofyniad cyfreithiol i gyhoeddi asesiadau effaith cydraddoldeb... rydyn ni wedi bod yn ysgrifennu'n rheolaidd i adrannau Llywodraeth Cymru ynglŷn â lle mae'r asesiadau effaith cydraddoldeb cyhoeddedig a lle mae'r dystiolaeth... mae'n ddigon posib eu bod nhw wedi ystyried asesiad effaith cydraddoldeb, cydraddoldeb a hawliau dynol ac wir wedi archwilio cyfiawnhad hawliau dynol wrth ddatblygu polisi, ond nid yw'n glir, mae'r diffyg tystiolaeth ar hynny yn aneglur.' (IV18)

11.10. Roedd y materion a godwyd yn y gweithdai yn cynnwys pryder bod '(p)rinder dealltwriaeth o sut mae deddfwriaeth Covid yn effeithio ar ddeddfwriaeth

cydraddoldeb a hawliau dynol'. Roedd materion penodol a godwyd ar draws y dystiolaeth yn cynnwys mynediad amrywiol i dechnoleg, effeithiau allgáu digidol a diffyg gallu digidol, a gwendidau'r diwylliant o 'ddigidol yn ddiofyn' fel y prif fodd o ymgysylltu â phobl ar draws cymdeithas. Hefyd yn amlwg yn y dystiolaeth roedd pryderon ynghylch hawliau pobl hŷn, y sefyllfa mewn cartrefi gofal, ac yn enwedig PPE ar gyfer preswylwyr a staff cartrefi gofal, ac ar gyfer pobl anabl a gofalwyr. Ar draws y cyfweiliadau, y gweithdai a'r fforymau, roedd dystiolaeth fod: 'gofalwyr yn teimlo'n anweledig yn ystod y pandemig' a 'bod pobl anabl yn teimlo bod eu hawliau wedi'u hepgor'. Er enghraifft:

'mae gennym bryderon gwirioneddol am beth wedi digwydd mewn cartrefi gofal. Ni thrafodwyd y mater yn gyffredinol am fis cyntaf y pandemig fwy na thebyg, a brwydr cartrefi gofal i gael mynediad at bethau fel PPE a phroffion am gyfnodau eithaf hir... Y maes arall i ni oedd o ran colli rhyddid.' (IV5)

Ac o Fforwm Llywodraeth Cymru ar Heneiddio:

'Mae'r naratif cyffredinol ynghylch pobl hŷn wedi bod yn negyddol. Mae'r pandemig wedi crisialu rhagfarn radlon ar draws cymdeithas ac mae angen mynd i'r afael â hyn ar frys oherwydd y ffordd y mae'n effeithio ar agweddau mewn cymdeithas.'

11.11. Mater penodol a godwyd oedd addasiadau i SSWA 2014 o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020. Fel y nodwyd mewn un gweithdy: 'Mae dyletswyddau Awdurdodau Lleol wedi'u hatal – yn cyfyngu ar hawl unigolyn i fyw'n annibynnol'; ac o un arall, 'dylai llacio'r ddyletswydd gofal fod y cyntaf i gael ei rollo'n ôl'. Roedd y rhai a gyfwelwyd hefyd yn poeni am, er enghraifft:

'Ac, wyddoch chi, cyflwynodd Llywodraeth Cymru, fel Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Ddeddf y Coronafeirws a dileu dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, a oedd yn tynnu oddi ar bobl anabl a phobl eraill a fyddai â'r lefel uchaf o anghenion cymorth, ac a fyddai gyda'r risg fwyaf o'r firws, wedi tynnu eu hawliau oddi arnyn nhw... mae wedi bod yn siom i ddweud y gwir, y peth cyntaf a wnaethant oedd cymryd hawliau

oddi wrth bobl oedd eu hangen fwyaf a rhoi carte blanche i awdurdod lleol.’
(IV3)

11.12. Cydnabuwyd gan wahanol gyfranogwyr fod Covid-19 wedi rhoi cipolwg i ni ar faterion yn y dyfodol i ni, fel dywedodd un cyfwelai:

‘Mae’r pandemig presennol yn rhyw fath o ddelweddu mater sydd wedi bod yn mudlosgi yn ein cymdeithas ers blynyddoedd a blynyddoedd... nid dim ond Covid-19, ond rydym yn amlwg, rydym wedi gweld bod effaith anghymesur Covid-19 ar gymunedau du ac Asiaidd a lleiafrifol. Ond mae’n mynd i fod yr un peth â newid yn yr hinsawdd, rydyn ni’n mynd i gael ffoaduriaid newid hinsawdd a does ganddon ni ddim syniad sut bydd hynny’n cael ei daclo o hyd. Ond mae’n mynd i fod y cymunedau tlotaf yn cael eu taro eto... Mae’n mynd i fod yr un peth â’r boblogaeth sy’n heneiddio. Ac mae Covid-19 newydd roi cipolwg i ni, o fath, cipolwg ar fyrder o’r holl bethau sydd wedi bod yn araf stiwio sydd wedi bod yn digwydd yn y cefndir ers blynyddoedd a blynyddoedd ac maen nhw’n mynd i barhau i ddigwydd.’ (IV19)

11.13. Ar gyfer y dyfodol, pwysleisiodd cyfranogwyr ymchwil y gellid ystyried bod hawliau dynol yn benodol yn helpu arwain yr ymateb i sefyllfaoedd brys yn hytrach nag fel rhywbeth i’w gyfyngu neu ei atal, gyda’r un pwynt yn cael ei wneud am asesiadau effaith hawliau a chydaddoldeb fel offer i gyflawni hyn. Er enghraifft:

‘nid dim ond Cymru, ar draws y Deyrnas Unedig. A gweld, wyddoch chi, gweld pethau fel cydraddoldeb a hawliau dynol fel, “O, rydyn ni mewn argyfwng, does dim amser ar gyfer hynny,” yn hytrach na’i weld fel rhywbeth a fyddai’n helpu, yn helpu corff cyhoeddus i ddelio ag argyfwng a delio â phobl sy’n mynd i fod ar flaen y gad yn hynny.’ (IV3)

11.14. Ar draws y dystiolaeth, cydnabuwyd arfer da yn ystod y gwersi pandemig a gwersi i’w dysgu ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft:

‘Rwy’n credu ei bod yn deg dweud bod hyn wedi rhoi pwysau aruthrol ar y sector cyhoeddus a rhai o’r sectorau sydd efallai’n destun nifer enfawr o’n

cwynion, iechyd a gofal cymdeithasol. Byddem yn disgwyl gweld rhyw fath o atchweliad o hyn ymhellach i lawr y lein. Ond yna, yn yr un modd, wyddoch chi, efallai y bydd rhai arferion da arloesol iawn yn dod i law a byddem yn eithaf awyddus i bwysleisio'r rheini hefyd, i roi cyhoeddusrwydd i hynny hefyd, maes o law.' (IV20)

11.15. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd bod yn rhaid cyfuno'r ysgogiad hwn, ac arferion da cysylltiedig sy'n datblygu, ag atebolrwydd.

'rhywbeth sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i'r math rhyfedd iawn hwn o drindod o gyfnod cloi, Covid a George Floyd a'r mudiad BLM dilynol sydd wedi codi a denu sylw pobl, cymerwch yr holl ddatganiadau hynny y mae pobl yn eu gwneud am hynny ac mae angen i rywun eu dal ar gyfer gweithredu ac atebolrwydd ...' (IV12)

11.16. Roedd enghraifft ingol o'r ymchwil am yr hyn y gellir ei wneud wrth sicrhau 'calonnau a meddyliau' oedd mater digartrefedd:

'Mewn gwirionedd wrth gwrs yr eironi yw iddi gymryd pandemig i ni ddarparu cartrefi, ac fe wnaethom ni hynny dri mis yn ôl. Nid newid yn y gyfraith a achosodd hyn, ond newid yn yr amgylchiadau, ac mae hynny wedi gwneud i mi feddwl bod gwers yno i ddweud y gwir, nid oes gan bobl ddigartref fwy o hawliau cyfreithiol heddiw nag oedd ganddyn nhw ddechrau mis Chwefror, ond mae gan bawb a oedd yn ddigartref ddechrau mis Mawrth gartref. Efallai ei fod yn gartref dros dro, ond maent y tu fewn ar hyn o bryd. Felly, nid yw'n ymwneud â newid y strwythur cyfreithiol ond newid yr ewyllys ddynol sydd ei hangen mewn gwirionedd. A gall ddigwydd oherwydd mae wedi digwydd eleni.' (IV22)

11.17. Mae'r dystiolaeth gan bobl ifanc yn cadarnhau bod Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar eu bywydau, fel y mae'r darn hwn o'r crynodeb o dystiolaeth yn adroddiad Young Wales yn dangos:

'mynegodd cyfranogwyr bryderon bod y pandemig wedi gwaethygu'r materion presennol ymhellach a rhwystro datblygiadau ar hawliau a chyfranogiad plant.

Roeddent yn teimlo nad oedd rhwydweithiau cymorth yn ddigon i'w hamddiffyn ac fe wnaethant argymhell bod angen dod o hyd i atebion i fynd i'r afael â hyn. Nodwyd hefyd bod llawer o grwpiau cymorth bugeiliol ysgolion wedi'u colli yn ystod y pandemig er y credir bod y sesiynau bugeiliol hyn o fudd mawr i lawer o unigolion.'

11.18. Mynegodd y mwyafrif o'r rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws bryderon ynghylch hawliau plant yn ystod pandemig Covid-19, yn benodol roedd pryderon ynghylch nodweddion gwarchodedig a phobl ifanc agored i niwed ac yn benodol ynghylch pobl ifanc o'r gymuned LGBTQ+. Mae'r dystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at y modd y mae angen llawer mwy o gefnogaeth ac arweiniad ar bobl ifanc ar yr ymylon o ran codi ymwybyddiaeth o'u hawliau a'u grymuso i arfer hawliau yn ystod y pandemig.

11.19. Mae'r dystiolaeth gan bobl sydd â phrofiad bywyd yn cadarnhau bod Covid-19 wedi tynnu sylw at a gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol, er enghraifft trwy: leihau pwerau; wanhau lleisiau; ac ymlacio amddiffyniadau hawliau. Ymhlith y materion allweddol eraill a godwyd gan gyfranogwyr yn yr ymchwil hon roedd: diffyg cynllunio; diffyg gwybodaeth all-lein a hygyrch; ynysu; effeithiau ar iechyd meddwl; gwaethygu anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol; rhwystrau i fynediad at ofal iechyd a chymdeithasol; effeithiau ar gyflogaeth ac addysg; mynediad at angenrheidiau sylfaenol; cam-drin domestig; a chydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu hanwybyddu.

Synthesis: Covid-19

11.20. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod y pandemig wedi datgelu a gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol, a bylchau mewn amddiffyn hawliau dynol. Er bod y sefyllfa yn ddigynsail i raddau helaeth, fe dynnodd sylw at wendidau sylfaenol, llawer ohonynt yn ymwneud â'r materion ehangach a godwyd yn yr ymchwil hwn, o ran addysg ac ymwybyddiaeth, hyfforddiant ar gydraddoldeb a hawliau dynol i swyddogion cyhoeddus ar bob lefel, rheolaeth ac adnoddau a chapasiti yn gyffredinol. Mae wedi dangos sut y gall prosesau i ymgorffori cydraddoldeb a hawliau dynol, megis asesiad effaith, fynd ar chwâl ar yr union adeg pan fydd eu hangen fwyaf. Fodd bynnag, mae hefyd wedi arwain at enghreifftiau o

arfer da, ac yn benodol at ymgysylltiad amserol a helaeth rhwng Llywodraeth Cymru, sefydliadau cynrychiadol, Comisiynwyr, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb. Mae rhai o'r mentrau hyn wedi arwain at ddysgu a fydd yn llywio cynnydd wrth ddelio â'r pandemig, ond hefyd o ran materion ieched eraill yng Nghymru: er enghraifft, gwaith effaith economaidd-gymdeithasol y pandemig ar bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol y soniwyd amdanynt uchod (Llywodraeth Cymru 2020j). Ac mae wedi cynnig mewnwelediadau i sut y gallai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chomisiynwyr, er enghraifft, i gasglu data i lywio gwaith gyda grwpiau penodol i amddiffyn neu hyrwyddo hawliau dynol: er enghraifft, fe gydweithiodd Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru a Senedd Ieuencid Cymru i gasglu data ar effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc (CPC 2020). Mae'r data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig trwy fesurau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

11.21. Mae'n rhy fuan i roi sylwadau ar effaith y mentrau uchod gan nad oes unrhyw ddata annibynnol (yr ydym yn ymwybodol ohono) i gadarnhau hyn, a chasglwyd ein data yn rhy gynnar yn y pandemig i gyfranogwyr fod mewn sefyllfa i wneud sylwadau. Fodd bynnag, teimlwn fod yr ymateb i'r pandemig mewn rhai meysydd yn darparu sylfaen i barhau i weithio i ddatblygu cydraddoldeb a hawliau dynol. Gweler argymhelliad 40.

12. Casgliadau

12.1. Trwy ein hymchwil rydym wedi ceisio datblygu dealltwriaeth glir o'r ddeddfwriaeth bresennol a fframweithiau canllaw statudol, a sut maent yn cyfrannu at amddiffyn a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Rydym hefyd wedi archwilio'r llenyddiaeth, ac wedi myfyrio ar dystiolaeth a dderbyniwyd gan randdeiliaid, i holi p'un, ac os felly, pa newidiadau y gellir eu hargymhell i'r fframweithiau presennol i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae'r drafodaeth isod yn nodi ein canfyddiadau allweddol a'n prif gasgliadau sydd wedi llywio ein hargymhellion.

12.2. Er mwyn cynorthwyo cyflwyniad, ac i helpu gwneud synnwyr o faint o dystiolaeth a adolygwyd ac a gawsom, rydym wedi nodi ein casgliadau dan benawdau arwahanol. Awgrymwyd y rhain fel themâu troswaol gan yr adolygiad llenyddiaeth a chan y dystiolaeth a gawsom. Yn yr un modd, rydym wedi nodi ein hargymhellion o dan benawdau sy'n ymwneud â materion allweddol a godwyd o'r dystiolaeth. Mae Tabl 1 yn dangos sut mae ein hargymhellion yn gysylltiedig â'r adrannau mwyaf perthnasol yn yr adroddiad. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, wrth ddatblygu ein hargymhellion, ein bod wedi ystyried yr holl ganfyddiadau, o bob rhan o'n hadroddiad. O ran ein hargymhellion, dylid edrych ar ein casgliadau yn gyfannol i lywio meddwl ar sut i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

12.3. Dechreuon ni trwy archwilio'r ddeddfwriaeth bresennol ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Nodwn fod GoWA 2006 yn galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu ar gydraddoldeb a hawliau dynol, a llesiant, ac yn gwahardd ymddygiad sy'n groes i'r ECHR neu rwymedigaethau hawliau dynol rhwngwladol y Deyrnas Unedig. Gan ddefnyddio pwerau datganoledig, mae Gweinidogion Cymru yn gallu cyfarwyddo a dylanwadu ar gydraddoldeb a hawliau dynol trwy ddeddfwriaeth, arweiniad a pholisi. Fodd bynnag, mae'r pwerau sydd ar gael yn y meysydd hyn yn anghymesur. Mae deddfwriaeth ar gydraddoldebau i raddau helaeth yn fater a neilltuwyd i lywodraeth a Senedd y Deyrnas Unedig, tra bod gweithredu hawliau dynol yn fater sydd o fewn cymhwysedd datganoledig yn benodol. Mae EA 2010 yn gosod PSED ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng

Nghymru (h.y. 'awdurdodau rhestredig'), i hyrwyddo 'cyfle cyfartal' trwy fynnu bod 'sylw dyledus' i ragnodi amcanion cydraddoldeb. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno WSEDs i hyrwyddo perfformiad gwell y PSED gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus. O fis Mawrth 2021, bydd yn ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru roi 'sylw dyledus' i ddymunoldeb arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

12.4. Mae deddfwriaeth Cymru yn golygu bod hawliau dynol dethol yn berthnasol mewn rhai meysydd polisi cyhoeddus a darparu gwasanaethau yng Nghymru. Mae RCYPM 2011, yr SSWA 2010, a'r ALNA 2018, yn ymgorffori hawliau dynol mewn gwahanol feysydd polisi cyhoeddus yng Nghymru trwy ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid dyletswydd roi 'sylw dyledus' i gytuniadau ac egwyddorion hawliau dynol penodol.

12.5. Mae cysylltiadau cryf rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae peidio â gwahaniaethu yn egwyddor o hawliau dynol rhyngwladol, ac mae wedi hen sefydlu bod anghydraddoldeb yn achos ac yn ganlyniad i fethiannau mewn amddiffyn hawliau dynol. Mae cytuniadau hawliau dynol yn cydnabod yn benodol wahaniaethu ac anfantais a brofir gan wahanol grwpiau cymdeithasol, er enghraifft menywod, pobl anabl, a grwpiau sy'n destun gwahaniaethu ar sail hil, ac yn cyflwyno targedau i'w cyflawni gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus rhestredig. Mae hawliau dynol economaidd-gymdeithasol yn darparu gwarantau mewn meysydd lle gallai pobl brofi gwahaniaethu ac anfantais (er enghraifft, tai, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, cyflogaeth), ac felly maent yn uniongyrchol berthnasol i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a sut y gallai hyn gael ei weithredu trwy bolisi cyhoeddus a gweithredu. Mae hawliau economaidd-gymdeithasol wedi'u halinio'n agos â chymwyseddau datganoledig. Er gwaethaf y cysylltiadau cryf rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol, a photensial hawliau dynol i sefydlu amcanion ar gyfer gweithredu cydraddoldeb, mae ein hymchwil wedi dangos nad yw'r cysylltiadau'n cael eu cydnabod yn y fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru, gyda'r canlyniad yr ymdrinnir â hwy fel agweddau arwahanol i bolisi cyhoeddus.

12.6. Mae WFGA 2015 yn gyflwyniad sylweddol i'r bensaernïaeth gyfreithiol yng Nghymru. Mae'n sefydlu saith nod llesiant i hyrwyddo datblygu cynaliadwy trwy waith cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru. Mae blaenoriaethu datblygu cynaliadwy fel yr egwyddor arweiniol ar gyfer polisi cyhoeddus a gweithredu yng Nghymru, yn gyfle i wneud cysylltiadau â chydaddoldeb a hawliau dynol. Mae 'Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy' y Cenhedloedd Unedig yn disgrifio perthynas rhwng cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant yn seiliedig ar nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Fodd bynnag, dengys ein hymchwil bod WFGA 2015 a'i ganllaw cysylltiedig yn colli pwynt Agenda 2030 i hyrwyddo hawliau dynol a blaenoriaethu anghenion y rhai mwyaf difreintiedig a'r rhai sy'n cael eu gadael ar ôl gan dlodi, allgáu cymdeithasol ac ymyleiddio. Mae ein hymchwil yn cadarnhau canfyddiadau'r GER mai ychydig iawn o aliniad sydd rhwng deddfwriaeth neu ganllawiau ar gydraddoldeb a llesiant, ac mae'n ychwanegu y gellir dweud yr un peth am lesiant a hawliau dynol. Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu canfyddiadau o ddiffyg eglurder ynghylch blaenoriaethau a chyfrifoldebau cydraddoldeb a hawliau dynol o dan y fframwaith deddfwriaethol cyfredol ymhlith rhanddeiliaid proffesiynol a phobl amrywiol. Mater penodol a godwyd yn y dystiolaeth gan gyfranogwyr ymchwil yw bod y ddeddfwriaeth llesiant 'heb ddannedd' sy'n peryglu tanseilio amddiffyniad cydraddoldeb a hawliau dynol os yw'r tri chysyniad yn cael eu dileu.

12.7. Mae hawliau dynol yn gyfle i sefydlu amcanion clir ar gyfer cydraddoldeb a llesiant, ac i sicrhau y gellir gorfodi'r rhain os oes angen. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod awydd i sefydlu amcanion clir a chadarn ar gyfer polisi cyhoeddus a gweithredu ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Gellir ystyried hawliau economaidd-gymdeithasol yn benodol fel cyfle i sefydlu ac ymgorffori canlyniadau sylweddol fel blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gweithredu cydraddoldeb, ac ar gyfer hawliau dynol. Mae'r cysylltiadau rhwng hawliau dynol a datblygu cynaliadwy yn darparu pont i gysylltu â'r agenda llesiant a'r blaenoriaethau a sefydlwyd ar gyfer polisi cyhoeddus gan WFGA 2015. Felly mae hawliau dynol hefyd yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y diffyg eglurder ynghylch y berthynas rhwng cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant, ond hefyd i gadarnhau dyletswyddau llesiant trwy alluogi Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus (cyrff cyhoeddus o dan WFGA 2015), a PSBs i sefydlu amcanion llesiant clir a sylweddol. Adlewyrchir ein casgliadau yma yn bennaf

yn ein hargymhellion ar 'Deddfwriaeth ac arweinyddiaeth', 'Canllawiau' ac 'Alinio prosesau' (gweler Tabl 1 isod).

12.8. Neges glir o'n hymchwil yw y dylai Cymru ymgorffori mwy o hawliau dynol yn ei chyfraith ddomestig. Y ffordd y mae hyn wedi digwydd hyd yma yw trwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion a rhai awdurdodau cyhoeddus eraill penodol roi 'sylw dyledus' i hawliau dynol penodedig wrth arfer rhai swyddogaethau. Disgrifir hyn fel 'corfforiad anuniongyrchol'. Mae'r llenyddiaeth yn sefydlu bod y math hwn o gorffori yn darparu atebolrwydd cyfreithiol cyfyngedig iawn am gydymffurfio â hawliau dynol. Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn dangos cefnogaeth i gorffori i ymestyn amddiffyniadau hawliau dynol i fwy o grwpiau, ond hefyd i gorffori i ddarparu ar gyfer mwy o atebolrwydd cyfreithiol a hawliau dynol y gellir eu gorfodi. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i deddfwriaeth ymgorffori hawliau dynol sy'n mynd ymhellach na'r dull 'sylw dyledus', gan fabwysiadu dull tebyg i HRA 1998. Pe bai Cymru'n symud i gorffori hawliau dynol yn uniongyrchol, byddai angen ystyried a oedd yr hawliau corfforedig yn gyson â chymhwysedd deddfwriaethol yng Nghymru. Mae hyn yn codi'r mater o sut i ddewis pa hawliau dynol sydd wedi'u hymgorffori. Roedd y dystiolaeth yn amhendant ar y mater hwn. Roedd pryderon bod corffori hyd yma yng Nghymru wedi bod yn rhannol ac yn dameidiog, ond roedd galwadau hefyd i hyn barhau mewn perthynas â rhai hawliau (er enghraifft, CEDAW, y CRDP, a'r hawl i dai digonol). Yn yr Alban, lle mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i arweinyddiaeth hawliau dynol, mae Bil yn cael ei ystyried i ymgorffori hawliau dynol rhyngwladol yng nghyfraith yr Alban. Mae'r materion a drafodir yn y paragraff hwn hefyd wedi codi i'w hystyried yn yr Alban lle maent yn cael eu hystyried gan Dasglu Cenedlaethol a sefydlwyd i archwilio opsiynau ar gyfer corffori. Rydym yn gweld y dull hwn fel y ffordd ymlaen yng Nghymru, a adlewyrchir yn argymhelliad 1. Mae argymhelliad 25 hefyd yn berthnasol.

12.9. Mae wedi hen sefydlu bod 'bwlch gweithredu' parhaus rhwng dyheadau polisi yng Nghymru ar gydraddoldeb a hawliau dynol, a phrofiad byw pobl. Mae hyn yn amlwg o'r llenyddiaeth a'r dystiolaeth a gawsom. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen arweinyddiaeth gryfach gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cyfeiriad ac arweiniad clir i awdurdodau cyhoeddus gymryd camau i weithredu amcanion cydraddoldeb a hawliau dynol, ond hefyd gan awdurdodau cyhoeddus eu hunain.

Byddai ymgorffori hawliau dynol a gwneud hawliau yn orfodadwy yn arddangosiad clir o arweinyddiaeth hawliau dynol gan y byddai'n anfon arwydd cryf am bwysigrwydd hawliau dynol mewn polisi cyhoeddus yng Nghymru. Yn ogystal ag ymgorffori, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod prif ffrydio yn allweddol i weithredu cydraddoldeb a hawliau dynol, ac y gall 'dull hawliau dynol' wneud cyfraniad sylweddol tuag at brif ffrydio cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r GER/WG yn argymhell diwygio'r WSEDs i gryfhau prif ffrydio cydraddoldeb, gan gynnwys trwy sefydlu blaenoriaethau clir i gadarnhau'r ddyletswydd 'sylw dyledus'. Rydym yn cytuno y dylid diwygio'r WSEDs, gan gynnwys trwy sefydlu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gweithredu cydraddoldeb trwy gyfeirio at safonau hawliau dynol. Rydym hefyd yn gweld canllawiau a gyhoeddwyd gan yr EHRC ar y PSED a WSEDs, fel canllawiau statudol ac anstatudol ar lesiant ac ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â dogfennau strategol, fel mecanweithiau i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb, ond hefyd prif ffrydio hawliau dynol. Er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol, dylid nodi safonau hawliau dynol yn glir a'u hymgorffori mewn cynllunio strategol fel blaenoriaethau cenedlaethol a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer polisi cyhoeddus. Gellid cyflawni hyn trwy gynnwys blaenoriaethau cenedlaethol yn seiliedig ar safonau hawliau dynol mewn dogfennau strategol fel Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru, a'u cadarnhau fel amcanion i awdurdodau cyhoeddus mewn dogfennau polisi allweddol eraill, canllawiau statudol ac anstatudol. Yn hyn o beth, dylid ystyried y fframwaith cynllunio a gyflwynwyd gan WFGA 2015 fel cyfle i sefydlu amcanion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gyda'r nod o wireddu hawliau dynol a hyrwyddo gweithredu ar gydraddoldeb. Rydym yn gweld cyfle i adeiladu ar 'ganllawiau mapio' ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â chynlluniau gweithredu mewn meysydd eraill, i wneud cysylltiadau cryfach ar draws parthau polisi ac i ddefnyddio hawliau dynol i sefydlu 'gweledigaeth' uchelgeisiol ar gyfer gweithredu a chanlyniadau i'w gyflawni gan Weinidogion Cymru, a thrwy waith awdurdodau cyhoeddus. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion i gryfhau arweinyddiaeth, hyrwyddo prif ffrydio, ac annog uchelgais ar gydraddoldeb a hawliau dynol mewn polisi cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r pryderon hyn yn cael sylw gan ein hargymhellion yn gyffredinol, ond yn benodol 'Cynnwys pobl â diddordeb' a 'Chanllawiau' (gweler Tabl 1 isod).

12.10. Mae'r llenyddiaeth yn sefydlu bod EIA ac HRIA yn fecanweithiau allweddol i gefnogi datblygiad polisi blaengar ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r WSEDs yn cyflwyno gofyniad am EIA, ond nid oes unrhyw ofyniad gorfodol tebyg ar gyfer HRIA ar unrhyw lefel o wneud penderfyniadau polisi yng Nghymru. Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn cadarnhau HRIA fel mecanwaith allweddol i gefnogi gweithredu hawliau dynol, ac yn elfen allweddol o brif ffrydio hawliau dynol. Am y rhesymau hyn gwelwn yr angen i gyflwyno HRIA i bolisi cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhanddeiliaid yn cefnogi asesu effaith fel offeryn polisi, ond mae ganddynt hefyd nifer o bryderon ynghylch sut y cwblheir y rhain yn ymarferol. Argymhellodd y GER/WG y dylid newid y WSEDs i gryfhau EIA. Yn seiliedig ar ein hymchwil, rydym yn llwyr gymeradwyo argymhellion y GER/WG ar wella EIA. Rydym hefyd yn gweld yr angen am ganllaw cynhwysfawr ar weithdrefn asesu effaith ac arfer da, gan dynnu ar ddysgu o ymchwil. Gwnawn nifer o argymhellion i wella asesiad effaith. Mae'r rhain yn argymhellion 17-22.

12.11. Mae ein hymchwil ar ddangosyddion a fframweithiau mesur yn awgrymu bod dangosyddion eisoes ar gael yng Nghymru sy'n cyfrannu at asesiad o gynnydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r rhain yn cynnwys y dangosyddion cenedlaethol ar lesiant a fframwaith mesur EHRC ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Fodd bynnag, nid oes gan Gymru set bwrpasol o ddangosyddion a ddatblygwyd yn bennaf neu'n gyfan gwbl i adlewyrchu ac asesu cynnydd yn erbyn amcanion cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r dystiolaeth yn dangos diffyg hyder cyffredinol yn y trefniadau monitro cyfredol i adlewyrchu cynnydd yn iawn, naill ai ar gydraddoldeb neu hawliau dynol yng Nghymru. Mae cefnogaeth glir ar gyfer gwella dangosyddion i fesur cydymffurfiaeth â chydraddoldeb a hawliau dynol, ac i'r rhain gynnwys dangosyddion sy'n cipio profiad bywyd pobl, gyda ffocws ar ganlyniadau a'r gwahaniaeth a wneir i fywydau pobl, gan gynnwys profiad cymunedau amrywiol a heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r dystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i fonitro arwain at weithredu, ac felly i ddatblygu dangosyddion sy'n sicrhau cydymffurfiaeth ac yn cefnogi atebolrwydd. Adlewyrchir y canfyddiadau hyn yn argymhelliad 24, ond hefyd mewn argymhellion o dan 'Atebolrwydd a gorfodi' (gweler Tabl 1 isod).

12.12. Amlygodd ein hadolygiad llenyddiaeth potensial cyfiawnder gweinyddol i gefnogi atebolrwydd 'i fyny'r afon' wrth ddatblygu polisi, gan gynnwys trwy archwilio

ac arolygu, a thrwy bwerau 'enwi a chodi cywilydd'. Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn cadarnhau'r angen am fframweithiau cyfreithiol ac arweiniad cryfach yng Nghymru i gefnogi sefydliadau fel yr EHRC, y PSOW, a Chomisiynwyr Cymru i ddwyn Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i gyfrif am gamau y maent yn eu cymryd ar gydraddoldeb a hawliau dynol. O ran atebolrwydd 'i lawr yr afon', neu atebolrwydd ar y pwynt lle mae cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu profi ym mywydau pobl, mae ein hymchwil yn cadarnhau gwendid 'sylw dyledus' fel mecanwaith i sicrhau atebolrwydd cyfreithiol, ac awydd cryf i gryfhau atebolrwydd cyfreithiol.

12.13. Er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod angen cryfhau atebolrwydd am gydraddoldeb a hawliau dynol, mae hefyd yn cadarnhau bod yr atebolrwydd yma yn dibynnu ar bobl yn gallu cyrchu gwasanaethau cyngor, hyd at a chan gynnwys gwasanaethau cyngor a ariennir gan gymorth cyfreithiol. Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn dynodi bylchau sylweddol yn y gwasanaethau cynghori, yn enwedig wrth ddarparu cyngor a ariennir gan gymorth cyfreithiol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ariannu ymchwil i anghenion cyfreithiol yng Nghymru, dangos arweinyddiaeth a chydlynu gan gynnwys trwy rwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol, ac y dylai hyn ymestyn i gefnogi eiriolaeth y tu hwnt i gyd-destunau statudol cyfredol gwasanaethau cymdeithasol a chyfrifoldebau tuag at blant a phobl ifanc. Cydnabyddir cymhlethdod cyfiawnder gweinyddol yn y llenyddiaeth, a chaiff yr anawsterau i unigolion o lywio'r system honno, yn enwedig o ran atebolrwydd am gydraddoldeb a hawliau dynol, eu cadarnhau gan y dystiolaeth a dderbyniwyd. Yn y maes hwn rydym yn nodi'r argymhellion a wnaed gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a chan ymchwil ddiweddar a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield. Rydym yn annog bod yr argymhellion hyn yn cael eu gweithredu'n llawn cyn belled ag y bo modd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn awgrymu'r angen i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o leiaf rai o weithrediadau'r Comisiynwyr, gan gynnwys trwy ymyrraeth gynharach, gwell cyfathrebu, rhannu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol, a chydlynu gweithredoedd i ddal Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i gyfrif. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos y gallai cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio fod â rôl ehangach a mwy eglur mewn perthynas ag atebolrwydd am gydraddoldeb a hawliau dynol. Adlewyrchir ein casgliadau ar atebolrwydd,

cyfiawnder gweinyddol a mynediad at gyfiawnder yn ein hargymhellion o dan 'Atebolrwydd a gorfodi' (gweler Tabl 1 isod), ond hefyd yn argymhelliad 1.

12.14. Mae codi ymwybyddiaeth a datblygu dealltwriaeth wedi'i nodi yn y llenyddiaeth fel agwedd allweddol ar adeiladu cefnogaeth ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae pwysigrwydd addysg ar gydraddoldeb a hawliau dynol yn allweddol i'w weithredu gan ei fod yn cefnogi meithrin gallu a grymuso unigolion i fanteisio ar eu hawliau. Mae'r llenyddiaeth a'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn rhoi mewnwelediadau niferus i sut y gellir darparu addysg cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, gan gynnwys trwy ymchwil, datblygu llawlyfrau, cyfarwyddiaduron neu ddeunyddiau hyfforddi, addysg, gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, yn ogystal ag Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus (PLE). Mae'r dystiolaeth yn dangos cefnogaeth glir ar gyfer gwella addysg ar gydraddoldeb a hawliau dynol, ac i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus wneud mwy i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o gydraddoldeb a hawliau dynol. Cafwyd cefnogaeth gref hefyd i ganolbwyntio ar y pynciau hyn yn y cwricwlwm, a thrwy Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus. Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwella yn cynnwys ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus ac addysg cydraddoldeb a hawliau dynol ehangach, gan gynnwys yn y gweithle. Teimlwyd hefyd ei bod yn bwysig gwrthsefyll camddealltwriaeth ynghylch hawliau dynol yn benodol. Adlewyrchir nifer o'r awgrymiadau hyn yn ein hargymhellion o dan 'Codi ymwybyddiaeth' (gweler Tabl 1 isod), ond yn bennaf gan argymhellion 34-39.

12.15. Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn dangos yn glir bod y pandemig Covid-19 wedi amlygu a gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol, a rhai bylchau mewn amddiffyn hawliau dynol yng Nghymru. Er bod y sefyllfa yn ddigynsail, mae wedi tynnu sylw at wendidau sylfaenol, llawer ohonynt yn gysylltiedig i'r materion ehangach a godwyd yn yr ymchwil hwn, gan gynnwys bylchau mewn amddiffyniadau cyfreithiol, sut mae cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu gweithredu, materion capasiti, arweinyddiaeth a rheolaeth hawliau dynol, a materion adnoddau. Mae'r pandemig wedi dangos sut y gall asesu effaith, casglu data, adrodd a rheoleiddio fethu yn union pan fydd eu hangen fwyaf. Fodd bynnag, mae hefyd wedi arwain at enghreifftiau o arfer da, ac yn benodol at ymgysylltiad amserol a helaeth rhwng Llywodraeth Cymru, sefydliadau cynrychiadol, Comisiynwyr, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb. Mae gwersi i'w dysgu o'r pandemig, gan

gynnwys bod angen gwneud mwy i sicrhau bod y bensaernïaeth gyfreithiol yn cael ei chryfhau i sicrhau sylw manwl i gydraddoldeb a hawliau dynol nid yn unig ar adegau o argyfwng, ond bob amser. Yn hyn o beth, mae Covid-19, hefyd wedi arwain at nifer o fentrau sy'n rhoi mewnwediadau i sut y gallai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau allanol i gefnogi ei gwaith i amddiffyn neu hyrwyddo hawliau dynol. Ymdrinnir â'r materion hyn yn ein hargymhellion, ac yn benodol argymhelliad 40.

13. Argymhellion

13.1. Yn yr argymhellion hyn, oni nodir yn wahanol, mae 'awdurdodau cyhoeddus' yn cynnwys 'cyrff cyhoeddus' fel y'u diffinnir gan a.6 ac a.52 WFGA 2015 ac awdurdodau rhestredig fel y'u diffinnir gan a.150 ac Atodlen 19 EA 2010, gan gynnwys unrhyw awdurdodau a ychwanegwyd at Atodlen 19 gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru. Mae pobl sydd â diddordeb yn golygu:

- Pobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan adrannau 4-12, EA 2010.
- Sefydliadau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig.
- Sefydliadau ag arbenigedd cydnabyddedig mewn cydraddoldeb neu hawliau dynol.

13.2. Er mwyn cynorthwyo cyflwyniad, ac i helpu gwneud synnwyr o faint o dystiolaeth a adolygwyd ac a gawsom, rydym wedi nodi ein casgliadau dan benawdau arwahanol. Yn yr un modd, rydym wedi nodi ein hargymhellion o dan benawdau sy'n ymwneud â materion allweddol a godwyd o'r dystiolaeth. Mae Tabl 1 yn dangos sut mae ein hargymhellion yn gysylltiedig â'r adrannau mwyaf perthnasol yn yr adroddiad. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, wrth ddatblygu ein hargymhellion, ein bod wedi ystyried yr holl ganfyddiadau, o bob rhan o'n hadroddiad. Dylid edrych ar ganfyddiadau a chasgliadau ein hymchwil yn gyfannol i lywio meddwl ar sut i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Rydym yn eu cyflwyno fel rhai rhyngddibynnol a rhyng-gysylltiedig.

13.3. Mae ein hargymhellion wedi'u hanelu at Lywodraeth Cymru, awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, yr EHRC, yr FGC, Comisiynwyr Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rheoleiddwyr ac arolygiaethau (a ddiffinnir isod), Cymdeithas y Gyfraith ac unrhyw Gyngor y Gyfraith i Gymru yn y dyfodol. Mae Tabl 2 yn dangos pa argymhellion sydd wedi'u hanelu at ba gorff.

Tabl 1: Argymhellion, a sut maent yn cysylltu ag adrannau yn yr adroddiad hwn

Argymhellion	Dosbarthiad	Adran(nau) mwyaf perthnasol yn yr adroddiad
1-5	Deddfwriaeth ac arweinyddiaeth	Deddfwriaeth Ymgorfforiad hawliau dynol Y bwlch cyflawni Atebolrwydd a gorfodi
6-8	Cynnwys pobl sydd â diddordeb	<i>Y bwlch cyflawni</i> <i>Asesiad effaith</i>
9-16	Canllawiau	<i>Deddfwriaeth</i> <i>Y bwlch cyflawni</i> <i>Asesiad effaith</i>
17-22	Asesiad effaith	<i>Y bwlch cyflawni</i> <i>Asesiad effaith</i>
23	Alinio proses	<i>Deddfwriaeth</i> <i>Y bwlch cyflawni</i> <i>Monitro</i>
24	Monitro	<i>Y bwlch cyflawni</i> <i>Monitro</i>
25-33	Atebolrwydd a gorfodi	<i>Deddfwriaeth</i> <i>Ymgorfforiad hawliau dynol</i> <i>Y bwlch cyflawni</i> <i>Asesiad effaith</i> <i>Monitro</i> <i>Atebolrwydd a gorfodi</i> <i>Codi ymwybyddiaeth</i>
34-39	Codi ymwybyddiaeth	Ymgorfforiad hawliau dynol Y bwlch cyflawni Atebolrwydd a gorfodi Codi ymwybyddiaeth
40	Covid-19	Covid-19

Tabl 2: Argymhellion, a tuag at bwy maent wedi eu hanelu

Anelwyd at	Argymhellion
Llywodraeth Cymru yn unig	1, 6-13, 16-19, 22-30, 34-38, 40
Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus	2-5
Llywodraeth Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	31
Awdurdodau cyhoeddus yn unig	20
Yr EHRC yn unig	14, 15, 21
Yr FGC, yr EHRC a Chomisiynwyr Cymru	32
Rheoleiddwyr ac arolygiaethau	33
Cymdeithas y Gyfraith ac unrhyw Gyngor y Gyfraith Cymru yn y dyfodol	39

Mae'r argymhellion yn cychwyn ar y dudalen nesaf.

Deddfwriaeth ac arweinyddiaeth

1. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i weithredu hawliau dynol rhyngwladol yng nghyfraith Cymru trwy Ddeddf Hawliau Dynol (Cymru) i wneud hawliau dynol rhyngwladol dethol yn rhan o gyfraith Cymru fel eu bod yn rhwymo Gweinidogion Cymru awdurdodau cyhoeddus wrth arfer swyddogaethau datganoledig a gellir eu gorfodi gan lys neu dribiwnlys.

Er mwyn symud ymlaen â'r uchod dylai Llywodraeth Cymru sefydlu tasglu hawliau dynol i archwilio opsiynau a chyflwyno cynigion manwl ar gyfer ymgorffori hawliau dynol yng Nghymru. Dylai'r tasglu fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a mabwysiadu dull cyfranogol o gynnwys pobl sydd â diddordeb.

Dylai'r tasglu ystyried ffurfiau corffori cryfach na'r hyn a gyflwynwyd i gyfraith Cymru trwy'r dull 'sylw dyledus'. Yn benodol, dylai'r Tasglu ystyried opsiynau a fyddai'n arwain at atebolrwydd cyfreithiol cryfach ar gyfer diffyg cydymffurfiaid â hawliau dynol corfforedig nag sydd ar gael wrth fabwysiadu dull 'sylw dyledus'.

Dylai'r tasglu gwblhau ei waith fel y gellir cyflwyno a deddfu deddfwriaeth cyn diddymu'r Senedd.

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i archwilio opsiynau ar gyfer ymgorffori hawliau dynol rhyngwladol trwy deddfwriaeth sectoraidd, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hawl ddynol i dai digonol, yr UNCRPD, CEDAW, CERD, ac ar bobl hŷn, yn ogystal â chryfhau'r ddyletswydd gyfreithiol o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Ni ddylai dilyn deddfwriaeth hawliau dynol gyffredinol danseilio na gohirio'r ymdrechion hyn.

2. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru ddatblygu datganiad cyffredin, sengl, clir a chyson yn nodi ymrwymiad i barchu, amddiffyn a chyflawni hawliau dynol a chydaddoldeb, ac i gymryd camau i atal gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol:

- a. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys y datganiad yn amlwg yn ei strategaeth genedlaethol, ei rhaglen lywodraethu, ei chynllun cydraddoldeb

strategol, a'i datganiad llesiant a'r holl ddogfennau polisi ar draws pob maes ac yn amlwg ar ei gwefan.

b. Dylai awdurdod cyhoeddus gynnwys y datganiad yn ei gynllun corfforaethol, ei gynllun cydraddoldeb strategol, ei gynllun llesiant a'r holl ddogfennau polisi ar draws pob maes cynllunio a darparu gwasanaeth ac yn amlwg ar ei wefan.

Mae'r dogfennau polisi y cyfeirir atynt yn yr argymhelliad hwn i gyd yn bolisiâu sy'n destun Asesiad Effaith Integredig (Llywodraeth Cymru) neu Asesiad Effaith Cydraddoldeb (awdurdodau cyhoeddus).

3. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru integreiddio hawliau dynol fel safonau ar gyfer llunio polisiâu i ddarparu gweledigaeth gryfach i hyrwyddo cydraddoldeb a llesiant. Dylai hawliau dynol gael eu hymgorffori ym mhob proses polisi a chynllunio strategol.

Mae prosesau cynllunio strategol yn cynnwys: gosod amcanion cydraddoldeb strategol, amcanion llesiant, a phenderfyniadau strategol y bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn berthnasol iddynt.

4. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru ymgorffori hawliau dynol trwy gynllunio gweithredu hawliau dynol.

Dylai cynllunio gweithredu hawliau dynol gynnwys:

- Cymryd camau i nodi hawliau dynol penodol fel blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.
- Cynnwys pobl sydd â diddordeb i flaenoriaethu'r hawliau dynol mwyaf perthnasol ac yn benodol i sefydlu targedau a dangosyddion canlyniadau i asesu cynnydd.
- Rhoi Asesiad Effaith Hawliau Dynol ar waith.
- Monitro gweithrediad gan ddefnyddio dangosyddion.
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn targedau a dangosyddion canlyniadau.

- Mewn perthynas â Llywodraeth Cymru yn unig, mecanwaith traws-lywodraethol ar gyfer monitro ac adrodd ar weithredu argymhellion sy'n berthnasol i Gymru sy'n deillio o adolygiad cyfnodol o'r Deyrnas Unedig a gynhaliwyd gan Gyrrff Cytuniad y Cenhedloedd Unedig a'r Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol.

5. Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru ei gwneud yn ofynnol i fusnesau neu sefydliadau a ariennir yn llawn neu'n rhannol gan arian cyhoeddus ddangos yn glir sut y byddant yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol trwy eu gwaith (heb fod yn gyfyngedig i waith Llywodraeth Cymru neu awdurdodau cyhoeddus); ac, ystyried yn llawn sut mae dyraniad arian cyhoeddus yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn ystod y prosesau caffael a chomisiynu, gan roi blaenoriaeth i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol fel ffactor sy'n berthnasol i ddyraniad arian cyhoeddus.

Dylid diwygio rheoliad 18 o Reoliadau 2011 i fewnosod yr argymhelliad hwn i'r graddau y mae'n berthnasol i amcanion cydraddoldeb.

Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus ddarparu gwybodaeth i'r rheini sy'n gwneud cais am arian cyhoeddus i gefnogi eu gweithgareddau busnes yn llawn neu'n rhannol, ar y blaenoriaethau allweddol ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol wrth wahodd gwahoddiadau i dendro. Dylai busnesau neu sefydliadau sy'n ceisio am arian gael eu cyfeirio at wybodaeth am gydraddoldeb a hawliau dynol sydd wedi'u hanelu at y sectorau busnes ac anlywodraethol. Gweler isod, 'Gwybodaeth, Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth'.

Dylai fod yn ofynnol i fusnesau neu sefydliadau sy'n gwneud cais am arian cyhoeddus ddarparu'r wybodaeth ymlaen llaw ganlynol:

- Datganiad ar sut y byddant yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol trwy eu gwaith ac yn y gweithle (cyflogwyr).
- Asesiad effaith cydraddoldeb a hawliau dynol.

Dylai'r wybodaeth ymlaen llaw uchod fod yn gyhoeddus pan fydd cyllid wedi'i ddyrannu a dylid ei ymgorffori yn y contract gyda'r busnes neu'r sefydliad dan sylw, a dylid ei ddefnyddio i asesu cydymffurfriad â'r contract.

Cynnwys pobl sydd â diddordeb

6. Dylid diwygio Adran 30(e) WFGA 2015, neu dylid cyhoeddi canllawiau statudol diwygiedig, i'w gwneud yn ofynnol i PSBs wahodd pobl sydd â diddordeb i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r bwrdd, a dangos pa gamau mae wedi cymryd i annog cyfranogiad pobl sydd â diddordeb wrth adrodd dan a.45 WFGA 2015.

Mae gan gyfranogwr yr ystyr a roddir gan a.30(3) a (4) WFGA 2015.

7. Dylai adran 38 WFGA 2015 cael ei ddiwygio, neu dylid cyhoeddi canllawiau statudol diwygiedig, i'w gwneud yn ofynnol i PSBs gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn penderfynu sut gall cydraddoldeb a hawliau dynol fod yn berthnasol i osod a chwrdd ag amcanion llesiant.

8. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ac yn ôl yr angen ddiwygio gofynion rheoliadol a chanllawiau statudol ac anstatudol i alinio gofynion a phrosesau ymgynghori a chynnwys y cyhoedd gan gyfrannu at gynllunio i osod amcanion cydraddoldeb strategol ac amcanion llesiant.

Yn benodol, trwy weithredu argymhellion Gweithgor Llesiant a Chydraddoldeb y GER.

Canllawiau

Mae nifer o'r argymhellion yn yr adran hon ar ganllawiau yn ymddangos fel agweddau ar ganllawiau statudol neu anstatudol cyfredol (a gynhwysir yma er cyflawnrwydd), i'r graddau hyn dylid parhau, neu gryfhau'r canllawiau cyfredol fel y bo'n briodol.

9. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu canllawiau statudol dan a.14 WFGA 2015 i sicrhau bod cyrff cyhoeddus diffiniedig (a.6 ac a.52 WFGA 2015) a PSBs yn ystyried cydraddoldeb a hawliau dynol wrth gyflawni eu rhwymedigaethau dan y WFGA 2015.

Dylai canllawiau diwygiedig:

- Gynnwys datganiad cryf i gadarnhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn rhan annatod o amcanion llesiant.
- Pwysleisio fod hawliau dynol, ac yn benodol hawliau dynol economaidd-gymdeithasol, yn darparu sylfaen gref ar gyfer datblygu cynaliadwy.
- Argymhell y dylai cyrff cyhoeddus gynnal a chyhoeddi Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Asesiad Effaith Hawliau Dynol ar eu cynllun llesiant ac unrhyw bolisi sy'n debygol o gael effaith ar gydraddoldeb neu hawliau dynol yn yr ardal, ac i gyhoeddi eu hasesiadau.

10. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i PSBs sefydlu is-grŵp 'Cydraddoldeb a Hawliau Dynol' i gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn penderfynu sut mae gweithredoedd a nodwyd yn y cynllun llesiant yn cyfrannu tuag at gyflawni'r ymrwymiad i barchu, amddiffyn a chyflawni cydraddoldeb a hawliau dynol. a chatau i gyflawni'r amcan hwn.

Dylai adroddiadau a gyhoeddwyd o dan a.45 WFGA 2015 gynnwys crynodeb o sut y mae cyfranogiad wedi'i hwyluso, a chanlyniadau'r broses hon, gan gynnwys unrhyw argymhellion i gryfhau gweithredoedd yn y cynllun llesiant lleol, a chatau a gymerwyd i roi'r argymhellion hynny ar waith.

11. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r WSEDs i gryfhau'r dyletswyddau penodol ar awdurdodau cyhoeddus (rhestredig) er mwyn sicrhau perfformiad gwell y PSEDs o dan a.149 Deddf Cydraddoldeb 2010.

Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r WSEDs i nodi blaenoriaethau cenedlaethol clir ar gyfer gweithredu ar gydraddoldeb, gan gynnwys trwy:

- Ddefnyddio safonau hawliau dynol i sefydlu targedau canlyniadau clir.
- Nodi dangosyddion i gadarnhau'r canlyniadau.
- Nodi'n glir y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gweithredu ar gydraddoldeb yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol.

Dylai rheoliadau diwygiedig ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol:

- Nodi amcanion cydraddoldeb strategol sy'n cyfrannu at hyrwyddo'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gweithredu.
- Esbonio sut mae ei amcanion cydraddoldeb strategol yn cyfrannu at hyrwyddo'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gweithredu.
- Nodi dangosyddion i gadarnhau canlyniadau i gyd-fynd â'i amcanion cydraddoldeb ynghyd ag esboniad pam y dewiswyd y dangosyddion hynny.
- Dangos sut mae wedi ystyried canllawiau statudol ac anstatudol wrth osod amcanion cydraddoldeb.
- Dangos sut mae wedi ystyried sawl math o wahaniaethu ac anfantais a brofir gan bobl sydd â nodweddion gwarchodedig lluosog wrth osod amcanion cydraddoldeb.
- Dangos sut mae wedi cynnwys pobl sydd â diddordeb ac wedi ystyried eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau.
- Cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar yr holl ddogfennau polisi a defnyddio asesiad effaith i fynd i'r afael â materion croestoriadedd.
- Dangos sut mae wedi ystyried hawliau dynol wrth osod amcanion cydraddoldeb, gan gynnwys y dystiolaeth y dibynnir arni.
- Adrodd ar y camau y mae wedi'u cymryd i gyflawni'r PSED gan ganolbwyntio ar ddangosyddion canlyniadau.
- Rhoi'r holl ddogfennau strategol ar-lein ac mewn lleoliad sy'n gwbl hygyrch a chwiliadwy, ynghyd â'r holl Asesiadau Effaith Cydraddoldeb perthnasol.

12. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau anstatudol ar y camau gweithdrefnol a gofynion sylweddol o dalu sylw dyledus. Dylai hyn bwysleisio pwysigrwydd asesu effaith fel gweithdrefn i helpu sicrhau y telir sylw dyledus wrth arfer swyddogaethau.

13. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu canllawiau statudol i sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu hystyried pan fydd awdurdod cyhoeddus yn rhoi sylw dyledus i sut mae gwneud penderfyniadau strategol ac arfer swyddogaethau yn helpu i leihau anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

(Canllawiau statudol dan a.1(2A) Deddf Cydraddoldeb 2010. Awdurdod perthnasol dan a.1 Deddf Cydraddoldeb 2010.)

Dylai canllawiau statudol:

- Ddisgrifio anfantais economaidd-gymdeithasol i gynnwys effaith incwm isel cymharol ar unigolion a grwpiau n arwain at anghydraddoldeb canlyniad ac anghydraddoldeb mynediad at 'nwyddau a gwasanaethau sy'n sylfaenol i les'.
- Pwysleisio fod 'nwyddau a gwasanaethau sy'n sylfaenol i les' yn cyfeirio at hawliau a warantir gan hawliau dynol.
- Cynnwys datganiad yn hyrwyddo gweithredu cadarnhaol i gefnogi cydraddoldeb canlyniadau i adlewyrchu mabwysiadu hawliau dynol blaengar.
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol ystyried sawl math o wahaniaethu ac anfantais a brofir gan bobl â sawl nodwedd wahanol, wrth wneud penderfyniadau o natur strategol.
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol ystyried hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ac wrth arfer ei swyddogaethau.
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol nodi dangosyddion i gadarnhau canlyniadau ynghyd ag esboniad pam y dewiswyd y dangosyddion hynny.
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol roi'r holl ddogfennau strategol ar-lein ac mewn lleoliad sy'n gwbl hygyrch a chwiliadwy, ynghyd â'r holl Asesiadau Effaith Cydraddoldeb perthnasol
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol adrodd ar gamau y mae wedi'u cymryd i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol gan ganolbwyntio ar ganlyniadau a fesurir yn erbyn dangosyddion a nodwyd.

14. Dylai'r EHRC ddiwygio, ac ailgyhoeddi canllawiau a gyhoeddwyd o dan adran 13 Deddf Cydraddoldeb 2006, gan gynnwys ei 'Ganllawiau Technegol ar y PSED: Cymru' (a ddiwygiwyd ddiwethaf yn 2014) i ddarparu canllawiau cryfach ar y berthynas rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol.

Dylai canllawiau diwygiedig:

- Hyrwyddo dull eang a chynhwysol o ddehongli a chymhwyso'r nodweddion gwarchodedig o dan a.4 Deddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau bod pob grŵp sy'n

cwrdd â'r diffiniadau yn a.5-12 y Ddeddf yn cael eu hystyried pan fydd awdurdod perthnasol yn gosod amcanion i'w alluogi i berfformio'r PSED yng Nghymru yn well.

- Cynnwys canllawiau cryfach a manylach ar groestoriadedd.
- Cynnwys canllawiau cryfach a manylach ar yr angen i ystyried hawliau dynol, yn enwedig fel safonau gofynnol a chynyddol flaengar i hyrwyddo cydraddoldeb.
- Esbonio sut y gall awdurdodau cyhoeddus fewnosod y model cymdeithasol o anabledd a sicrhau bod y canllawiau'n egluro bod y diffiniad o anabledd yn cynnwys yn benodol yr holl gyflyrau iechyd, anabledd dysgu, niwro-amrywiaeth a dementia.

15. Dylai'r EHRC gyflwyno canllawiau i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru ar 'Ddull Hawliau Dynol' pwrpasol i gefnogi gweithredu hawliau dynol.

Gan dynnu ar enghreifftiau o 'Ddull Hawliau Plant' y Comisiynydd Plant a 'Dull Hawliau Pobl Hŷn' y Comisiynydd Pobl Hŷn.

Dylai'r model gael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ôl yr angen.

16. Cyn cyhoeddi canllawiau statudol neu anstatudol pellach neu wedi'u diweddarau ar y berthynas rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol, a llesiant (gweler argymhellion 9, 11, 12 a 13), gan gynnwys ar sut y gall awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio cydraddoldeb a hawliau dynol i lywio a helpu gosod amcanion llesiant a chmau i'w cymryd i gyflawni'r amcanion hynny, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â'r EHRC a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw gyngor, arweiniad neu argymhellion.

Dylai'r canllawiau:

- Adeiladu ar 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Canllaw Mapio'.
- Cadarnhau bod hawliau dynol yn darparu sylfaen ar gyfer 'gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru' a gwneud cyfraniad cryf tuag at lesiant yng Nghymru.
- Cadarnhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn rhan annatod o osod amcanion llesiant i gyflawni'r holl nodau llesiant yng Nghymru.

- Cadarnhau bod hawliau dynol, ac yn benodol hawliau dynol economaidd-gymdeithasol, yn darparu sylfaen gref ar gyfer datblygu cynaliadwy ac yn sail i'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Gynnwys enghreifftiau o sut y gellir defnyddio hawliau dynol, yn enwedig hawliau economaidd-gymdeithasol, i sefydlu amcanion llesiant cryf ac uchelgeisiol.
- Rhoi arweiniad manwl ar sut y gallai hawliau dynol gael eu hymgorffori mewn prosesau i ddatblygu amcanion llesiant gan ganolbwyntio ar hawliau dynol fel targedau canlyniadau i'w cyflawni trwy gyflawni a gweithredu.

Asesiad effaith

D.S.: mae nifer o'r argymhellion hyn yn yr adran hon ar Asesu Effaith yn ymddangos fel agweddau ar ganllawiau cyfredol ac fe'u cynhwysir yma er cyflawnrwydd, i'r graddau hyn dylid parhau â'r canllawiau cyfredol, neu eu cryfhau fel sy'n briodol.

17. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Asesiad Effaith Hawliau Dynol fel rhan o'i Asesiad Effaith Integredig.

18. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau Asesiad Effaith Integredig effeithiol ac ystyrlon, ac yn benodol i gryfhau asesiad o gynigion sy'n debygol o effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol.

Er mwyn cynyddu'r gallu i asesu effaith yn effeithiol ac yn ystyrlon, dylai Llywodraeth Cymru:

- Ddarparu hyfforddiant gorfodol ar gydraddoldeb a hawliau dynol i'r holl swyddogion sy'n gyfrifol am gwblhau EIA neu HRIA.
- Sicrhau bod hyfforddiant ar gael i swyddogion sy'n arwain ar Asesu Effaith Integredig ar arfer da gweithdrefnol asesu effaith.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant gwell, yn enwedig i swyddogion sy'n cynnal asesiad effaith hawliau dynol, asesiad effaith cydraddoldeb ac asesiad effaith hawliau plant (i gynnwys materion thematig, yn ogystal â sgiliau ymchwil a dadansoddi).
- Annog y rhai sy'n cyflawni Dadansoddiad Effaith Integredig i wneud defnydd o arbenigedd allanol.

- Annog y rhai sy'n cyflawni Dadansoddiad Effaith Integredig i wneud defnydd o KAS yn gynnar yn y weithdrefn i sicrhau bod tystiolaeth berthnasol ar gael i'w dadansoddi.

Sicrhau bod asesiad polisi yn cael ei flaenoriaethu'n briodol sy'n debygol o gael effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol:

- Egluro cyfrifoldeb Gweinidogion unigol i sicrhau Asesiad Effaith Integredig effeithiol ac ystyrlon (h.y. wrth gydymffurfio ag arfer da / arweiniad a gyhoeddwyd gan yr EHRC), gan gynnwys fel sy'n ofynnol gan y Cod Gweinidogol, yn enwedig Rhan 1, adran 1 ac 1.3.
- Gwneud uwch weision sifil yn gyfrifol am sicrhau Asesiad Effaith Integredig effeithiol ac ystyrlon.
- Cyflwyno proses ar gyfer archwiliad systematig o Asesiadau Effaith Integredig o bob adran i asesu ansawdd a chydymffurfriad ag arfer / arweiniad da a gyhoeddwyd gan yr EHRC.
- Dylai'r broses archwilio uchod ymgysylltu â rhanddeiliaid, yr EHRC a chomisiynwyr Cymru.

19. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau canllawiau mewnol ar y prosesau a'r gofynion sylweddol ar gyfer Asesiad Effaith Integredig cydraddoldeb, hawliau dynol a hawliau plant effeithiol ac ystyrlon.

Dylai'r canllawiau alw am:

- Cychwyn yn gynnar, ar ddechrau'r cylch datblygu polisi.
- Ystyried cydraddoldeb a hawliau dynol o ddechrau'r asesiad.
- Cydraddoldeb a hawliau dynol i fod wrth wraidd asesu, gan gynnwys unrhyw asesiad o lesiant.
- Cyngor Gweinidogol i fynd i'r afael yn benodol â sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol, ac yn benodol y canlyniadau a ragwelir o'r cynnig.
- Ystyried effeithiau croestoriadol.
- Uwch swyddogion i sicrhau bod yr asesiad yn cael ei gynnal yn unol ag arfer da / arweiniad asesiad effaith a gyhoeddir gan yr EHRC.

20. Dylai awdurdodau cyhoeddus gyflwyno hawliau dynol fel ystyriaeth yn ystod Asesiad Effaith Cydraddoldeb a sicrhau bod uwch swyddog (swyddogion) yn gyfrifol am sicrhau bod yr asesiad yn cael ei gynnal yn unol ag arfer da / arweiniad asesiad effaith a gyhoeddir gan yr EHRC.

Gynnwys gofyniad y dylai uwch swyddog:

- Baratoi crynodeb o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb i'w ystyried gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus a'r is-grŵp Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Cadarnhau i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus fod yr asesiad yn cydymffurfio ag arfer da / arweiniad asesiad effaith a gyhoeddwyd gan yr EHRC.
- Crynhoi'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'r asesiad effaith.

21. Dylai'r EHRC adolygu canllawiau ar asesu effaith a sicrhau bod hyn yn berthnasol i EIA a HRIA. Er mwyn sicrhau cysondeb, dylai hyn gynnwys templed asesu effaith 'enghreifftiol' i'w ddefnyddio ar gyfer pob asesiad effaith sy'n ymgysylltu â materion cydraddoldeb neu hawliau dynol, ynghyd â chanllawiau manwl ar gamau i'w cymryd ar bob cam o'r weithdrefn i adlewyrchu arfer da sefydledig ar asesiad effaith.

22. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal Asesiad Effaith Integredig ar benderfyniadau cyllidebol ac ariannu sy'n debygol o gael effaith ar sefydliadau unigol sy'n dibynnu ar arian cyhoeddus i gefnogi gweithgareddau sy'n cefnogi neu'n cynrychioli buddiannau cymunedau difreintiedig.

Alinio proses

23. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd pob cam angenrheidiol i weithredu'r argymhellion a wnaed gan y Gweithgor Llesiant a Chydraddoldeb ar alinio prosesau, yn benodol, i'w gwneud yn ofynnol i randdeiliaid bennu amserlenni a phwyntiau alinio ar gyfer gosod a chynllunio amcanion.

Monitro

24. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl ddangosyddion a ddefnyddir i fesur cynnydd ar gydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant yng Nghymru, neu unrhyw un o'r rhain:

- Gwreiddio hawliau dynol fel targedau canlyniadau.
- Cynnwys dangosyddion ansoddol i ystyried profiadau bywyd pobl.
- Cynnwys dangosyddion sy'n uniongyrchol berthnasol i gymunedau amrywiol a heb gynrychiolaeth ddigonol.

Wrth ddatblygu dangosyddion i fesur cynnydd ar gydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio dangosyddion (fel y bo'n briodol) a nodir yn Fframwaith Mesur EHRC ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ac yn benodol y dangosyddion ansoddol a meintiol a ddefnyddir gan yr EHRC wrth baratoi 'Ai yw Cymru'n Decach'.

Atebolrwydd a gorfodi

25. *Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i alluogi unigolion i ddwyn achos gerbron llys neu dribiwnlys i orfodi eu hawliau dynol (corfforedig).*

Gweler argymhelliad [1].

26. Dylai Llywodraeth Cymru symud ymlaen gydag argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (CoJ) o ran cydgysylltu a hyrwyddo cyfiawnder gweinyddol sy'n cefnogi atebolrwydd am gydraddoldeb a hawliau dynol o fewn fframwaith cyfreithiol Cymru, gan ystyried 36 o argymhellion ymchwil a gyflawnwyd gan Brifysgol Bangor (a phartneriaid) wedi ei ariannu gan Sefydliad Nuffield (Public Administration and a Just Wales 2020). Dylai Llywodraeth Cymru hefyd symud ymlaen gyda, a lle bo angen, cysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i symud ymlaen gyda, argymhellion y CoJ yn ymwneud â mynediad at wasanaethau cyfiawnder a chyngor.

Yn benodol:

- Argymhelliad CoJ 2: dylid ehangu 'Cefnogaeth Trwy Lys' fel bod argaeledd mewn llysoedd a thribiwnlysoedd ledled Cymru.
- Argymhelliad CoJ 20: rhaid i wasanaethau llys digidol a gwasanaethau datrys anghydfodau eraill sy'n cael eu datblygu a'u cyflwyno fod yn gwbl hygyrch i bobl ledled Cymru a rhaid bod cymorth am ddim ar gael i helpu unigolion i'w defnyddio.
- Argymhelliad CoJ 21: dylid hyrwyddo a chydlynu datrys anghydfodau cyn mynd i lysoedd, tribiwnlysoedd, datrys anghydfod amgen ac ombwdsmyrn, yn ogystal â datrys anghydfodau mewn perthynas â chyfraith weinyddol, trwy gorff dan gadeiryddiaeth uwch farnwr.
- Argymhelliad CoJ 27: dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru fod ag annibyniaeth strwythurol a dylid defnyddio tribiwnlysoedd Cymru i ddatrys anghydfodau sy'n ymwneud â deddfwriaeth Cymru yn y dyfodol.
- Argymhelliad CoJ 39: dylid llunio a phenderfynu ar strategaeth ar gyfer Cymru ar gyfer darparu mynediad corfforol a digidol cywir at gyfiawnder gerbron y llysoedd, tribiwnlysoedd a mathau eraill o ddatrys anghydfodau yng Nghymru ar sail anghenion pobl Cymru.

27. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cefnogaeth, gan gynnwys parhad cyllid, ar gyfer gwasanaethau eirioli a chynghori yng Nghymru ac archwilio ffyrdd o gynyddu gwasanaethau cynghori ac eiriolaeth i gymunedau difreintiedig ac y gwahaniaethir yn eu herbyn.

Dylid darparu mwy o eiriolaeth annibynnol mewn cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru ar draws pob maes, nid iechyd a gofal cymdeithasol yn unig. Dylai hyn gynnwys eiriolwyr o gymunedau amrywiol yng Nghymru. Dylai fod cymysgedd o eiriolaeth annibynnol arbenigol broffesiynol ac mae angen mwy o gefnogaeth i eiriolaeth cymheiriaid a hunan-eiriolaeth.

Mae eiriolaeth yn golygu:

- Cefnogi unigolion i ddeall a chael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau, ac i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau.

- Cefnogaeth i unigolion ddwyn cwyn, gan gynnwys cwyn gerbron llys neu driwlynlys, ond hefyd i fanteisio ar y mecanweithiau cwyno neu unioni anffurfiol neu ffurfiol sydd ar gael.
- Camau ar ran unigolion neu grwpiau i ddylanwadu neu newid polisi neu gamau a gymerir gan gyrff cyhoeddus neu sefydliadau sy'n effeithio ar yr unigolion neu'r grwpiau hynny.

28. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol a Rhwydweithiau Cyngor Rhanbarthol ar strategaethau i godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys hawliau a dyletswyddau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol, ac i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau cynghori, a mynediad atynt, gan sicrhau bod anghenion grwpiau difreintiedig ac y gwahaniaethir yn eu herbyn yn cael eu hystyried.

29. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu cyllid a chefnogaeth ar gyfer sefydliadau cymunedol 'llawr gwlad' yng Nghymru sy'n cynrychioli cymunedau difreintiedig a sicrhau bod y broses ymgeisio i wneud cais am gyllid yn hygyrch ac yn syml i'w defnyddio.

30. Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â Phwyllgor Busnes y Senedd gyda'r bwriad o sefydlu Pwyllgor Cyfiawnder yn y Senedd.

31. Dylai Llywodraeth Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddatblygu set gytûn o egwyddorion i'w defnyddio gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus wrth ddelio â chwynion sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb neu hawliau dynol.

Dylai Llywodraeth Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymgynghori â'r EHRC.

Dylai'r prif elfennau gynnwys:

